Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

## Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Gorffennaf 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPPIA@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddPPIA**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

## Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Gorffennaf 2018

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): addysg, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Lynne Neagle AC**
Llafur Cymru
Torfaen

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Michelle Brown AC**
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



**Hefin David AC**
Llafur Cymru
Caerffili



**John Griffiths AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



**Llyr Gruffydd AC**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Darren Millar AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



**Julie Morgan AC**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Mark Reckless AC**
Grŵp Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion ........ 5**

**1. Cyflwyniad ........ 11**

1. 1. Cylch gorchwyl ........ 11

1. 2. Trafodaethau pwyllgorau eraill ar y Bil ........ 12

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol ........ 13**

2. 1. Cyffredinol ........ 13

2. 2. Datganiad y Llywydd a chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ........ 13

2. 3. Rheoliadau a wneir o dan y Bil ........ 14

**3. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth ........ 16**

3. 1. Diben datganedig y Bil a'r effaith a fwriedir ........ 16

3. 2. Yr angen am Fil ........ 18

3. 3. Ymgynghori ar y Bil ........ 24

**4. Priodoledd pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ........ 28**

4. 1. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ........ 28

4. 2. Cydbwysedd rhwng manylion ar wyneb y Bil ac mewn rheoliadau ........ 29

4. 3. Hawl ar wyneb y Bil ........ 36

4. 4. Ymgynghori ar y rheoliadau a chraffu arnynt ........ 48

**5. Rhwystrau posibl o ran rhoi'r Bil ar waith ........ 51**

5. 1. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel asiant cyflawni ........ 51

5. 2. Cynhwysiant digidol. ........ 56

5. 3. Trefniadau ar ôl sefydlu cymhwystra ........ 57

5. 4. Rhwystrau posibl eraill sy'n deillio o'r rheoliadau a wnaed o dan y Bil a'r cynnig gofal plant ehangach ........ 59

**6. Canlyniadau anfwriadol posibl y Bil ........ 61**

6. 1. Darpariaeth ddeuol ac alinio ceisiadau ........ 62

6. 2. Datblygiad plant, parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol 64

**7. Goblygiadau ariannol y Bil ........ 69**

7. 1. Costau'r Bil ..... 69

7. 2. Effaith newidiadau i reoliadau ..... 70

**8. Materion ychwanegol sy'n ymwneud â'r cynnig gofal plant ehangach ..... 73**

8. 1. Creu llif deuol o ddarpariaeth ..... 73

8. 2. Cyfraddau cyflogaeth mamau ..... 90

8. 3. Taliadau ychwanegol ..... 93

8. 4. Cap ar incwm ..... 96

8. 5. Nifer y rhai sy'n manteisio ar gynllun peilot y cynnig gofal plant ..... 98

8. 6. Darparwyr sydd wedi eu heithrio ..... 99

8. 7. Cyllid cyfalaf ..... 103

8. 8. Gallu'r sector a'r gweithlu ..... 104

**Atodiad A – Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig ..... 111**

**Atodiad B – Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ..... 113**

**Atodiad C - Nifer yr oriau o addysg blynyddoedd cynnar ..... 115**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Bod Llywodraeth Cymru, fel mater o drefn, yn rhannu'r holl wybodaeth â phwyllgorau'r Cynulliad sy'n manylu ar ba sail y rhoddir cydsyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i Fil. Dylai'r wybodaeth hon gael ei rhannu pan gyflwynir y Bil (neu cyn gynted ag y bydd ar gael os na dderbynnir cydsyniadau cyn cyflwyno) er mwyn galluogi craffu llawn a phriodol ar ddarpariaethau Bil. ........ Tudalen 14

**Argymhelliad 2.** Bod Llywodraeth Cymru, cyn y ddadl Cyfnod 1, yn amlinellu ei ddealltwriaeth o'r "cytundebau ar wahân" y byddai eu hangen rhyngddi hi ei hun a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi pe bai'r cynnig gofal plant arfaethedig yn newid. ........ Tudalen 15

**Argymhelliad 3.** Bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru). Nid yw Llyr Gruffydd AC yn cefnogi'r argymhelliad hwn ar y sail a amlinellir ym mharagraff 57 yr adroddiad hwn. ........ Tudalen 27

**Argymhelliad 4.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu canlyniadau'r gwerthusiad o gynllun peilot y cynnig gofal plant cyn dechrau Cyfnod 3 er gwybodaeth i Aelodau wrth iddynt gyflwyno a thrafod gwelliannau........ Tudalen 33

**Argymhelliad 5.** Nad yw Llywodraeth Cymru yn cwblhau manylion y rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn nes bod canfyddiadau'r gwerthusiad o'r cynlluniau peilot cynnig gofal plant wedi eu dadansoddi a'u cyhoeddi'n llawn. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 6.** Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i fynnu mai Gweinidogion Cymru ddylai wneud y cynllun gweinyddol drwy is-ddeddfwriaeth, i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar sail statudol........ Tudalen 36

**Argymhelliad 7.** Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i ymestyn ei ddarpariaethau y tu hwnt i rieni sy'n gweithio, i gynnwys rhieni sy'n ceisio gwaith drwy ymgymryd ag addysg a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â sicrhau cyflogaeth, i'w diffinio mewn rheoliadau. ........ Tudalen 42

**Argymhelliad 8.** Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i roi pŵer i reoliadau i Weinidogion Cymru ymestyn ei ddarpariaethau i gategorïau eraill o riant yn y dyfodol. Dylai unrhyw reoliadau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol. ........ Tudalen 42

**Argymhelliad 9.** Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyllido gofal plant ar gyfer plant cymwys rhieni sy'n gweithio, am gyfnod o 30 awr ym mhob un o 48 o wythnosau mewn unrhyw flwyddyn, neu gyfnod sy'n cyfateb i hynny (i gynnwys addysg y blynyddoedd cynnar sydd eisoes yn cael ei ariannu trwy awdurdodau lleol). Dylai'r Bil hefyd gynnwys darpariaeth sy'n galluogi diwygio swm y gofal plant yn y dyfodol trwy reoliadau sy'n destun y weithdrefn uwchgadarnhaol. ........ Tudalen 44

**Argymhelliad 10.** Bod Llywodraeth Cymru yn gyson yn adolygu oedran y "plant cymwys" a ddylai fod yn gymwys ar gyfer darpariaethau'r Bil. Mae hyn gyda golwg ar sicrhau naill ai:

- y gellir diwygio'r Bil yn ddiweddarach i gynnwys manylion oedran "plentyn cymwys", os yw'r dystiolaeth a gafwyd o werthusiad y cynllun peilot yn ddiamwys; neu
- bod y rheoliadau cymhwystra yn adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd ynghylch oedran penodol y "plentyn cymwys", os yw canlyniadau'r gwerthusiad yn amwys yn hyn o beth. ........ Tudalen 46

**Argymhelliad 11.** Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i reoliadau a wneir o dan y Ddeddf wneud darpariaeth am gyfnod eithrio dros dro (cyfeirir ato hefyd fel "TEP" neu "cyfnod gras"). ........ Tudalen 48

**Argymhelliad 12.** Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i ddarparu:

- y dylai rheoliadau a wneir o dan adran 1 fod yn destun gweithdrefn uwchgadarnhaol yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol; ac
- y dylid gwneud unrhyw newid i reoliadau a wnaed o dan adran 1 gan ddefnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol. ........ Tudalen 50

**Argymhelliad 13.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i amlinellu, cyn y ddadl Cyfnod 1, pa drefniadau fydd yn eu lle i sicrhau bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gallu darparu system ymgeisio a gwirio cymhwystra cwbl ddwyieithog (ar-lein ac ar y ffôn) yn unol â darpariaethau'r Bil hwn. ........ Tudalen 55

**Argymhelliad 14.** Bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig pe bai'r meini prawf cymhwystra ar gyfer mynediad at gyllid gofal plant yn newid o'r rhai a amlinellir ar wyneb y Bil ac yn y Memorandwm Esboniadol. Dylid ymgymryd â'r gwaith hwn a'i gyhoeddi'n brydlon i lywio trafodaethau Aelodau ar y Bil yn ystod cyfnodau diweddarach neu, os na

wneir penderfyniadau ar gymhwystra nes bydd y Bil wedi cwblhau ei daith drwy'r Cynulliad, mewn pryd i lywio gwaith craffu ar y rheoliadau perthnasol. ...Tudalen 56

**Argymhelliad 15.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n gliriach ei hymrwymiad i sicrhau bod risgiau eithrio digidol yn cael sylw, yn cael eu rheoli ac yn cael eu monitro fel rhan o unrhyw gytundeb ag unrhyw asiant cyflwyno ar gyfer gweinyddu'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra a grëir gan y Bil hwn. ........................................ Tudalen 57

**Argymhelliad 16.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac awdurdodau lleol i amlinellu, cyn y ddadl Cyfnod 1, pa drefniadau fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gallu cyfeirio rhieni yn glir at y cymorth arall y gallent fod yn gymwys i'w gael. Dylai hyn gynnwys asesiad o ddichonoldeb (o ran amserlenni, costau ac eglurder gwybodaeth) diweddaru gwefan Deiwsiadau Gofal Plant Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gynnwys manylion y cynnig yng Nghymru. ........................................ Tudalen 64

**Argymhelliad 17.** Bod Llywodraeth Cymru yn dapraru, cyn dechrau Cyfnod 3, Asesiad diwygiedig o'r Effaith ar Hawliau Plant. Dylai'r Asesiad hwn ystyried effaith y Bil ar blant *yn gyffredinol*, nid dim ond y rhai sy'n gymwys o dan ei ddarpariaethau ar gyfer y cynnig gofal plant. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni pryderon y Comisiynydd Plant y gallai canlyniad anfwriadol sylw'r Bil ar blant cymwys i rieni sy'n gweithio gynyddu'r bwlch rhwng ein plant mwyaf breintiedig a difreintiedig o ran datblygiad, eu parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol. ........................................ Tudalen 68

**Argymhelliad 18.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei dadansoddi a'i defnyddio, fel rhan o'r gwerthusiad o'r cynnig gofal plant, i asesu effaith ei drefniadau ar blant sy'n cael eu geni yn ystod misoedd yr haf, i lywio ffurf y cynnig gofal plant a fydd yn cael ei gyflwyno'n genedlaethol yn y pen draw. ........................................ Tudalen 68

**Argymhelliad 19.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi cyn y ddadl Cyfnod 1:

- sut cyfrifwyd bod nifer y plant a fyddai'n gymwys o ran y ffaith bod eu rhieni yn gweithio yn 40,000, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol; ac
- a geiswyd amcangyfrif nifer y plant a fyddai'n gymwys yn y tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd, ynteu ai dim ond cyfanswm nifer y plant tair oed (yn ogystal â phlant pedair oed) a ddefnyddiwyd. ........ Tudalen 70

**Argymhelliad 20.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw rwymedigaeth newydd a roddir ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Bil hwn yn dod gyda'r swm angenrheidiol o arian i'w gyflawni. .................................................................................. Tudalen 72

**Argymhelliad 21.** Bod Llywodraeth Cymru yn neilltuo cyfran o'i chyllideb ar gyfer y cynnig gofal plant i ddarparu cymorth ychwanegol rhwng nawr a chyflwyno'r cynnig i bawb er mwyn hwyluso cynnydd mewn cydleoli darpariaeth gofal plant a darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar. Dylai hyn gynnwys cymhellion i'r sector nas cynhelir er mwyn cynyddu ei ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar. .................................................................................................................................................. Tudalen 90

**Argymhelliad 22.** Bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o gost/cyfraddau tâl ar draws lleoliadau a gynhelir a rhai nas cynhelir ar gyfer gofal plant, addysg y blynyddoedd cynnar ac elfen gofal plant Dechrau'n Deg. Dylid rhoi sylw penodol i gynyddu'r cysondeb rhwng y gyfradd a delir fesul awr ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant. .................................................................................. Tudalen 90

**Argymhelliad 23.** Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig i awdurdodau lleol sy'n diffinio ystyr "darpariaeth ddigonol o addysg feithrin" i warchod rhag unrhyw risg y bydd llai na'r swm cyfredol o addysg y blynyddoedd cynnar yn cael ei ddarparu gan bob awdurdod lleol unwaith y bydd y cynnig gofal plant ar waith. .................................................................................................................................. Tudalen 90

**Argymhelliad 24.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn i fyfyrio a gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd o werthusiad y fframwaith arolygu ar y cyd, gyda'r bwriad o drafod trefniadau mwy syml. .................................................................................................................................................. Tudalen 90

**Argymhelliad 25.** Bod Llywodraeth Cymru, cyn y ddadl Cyfnod 1, yn derbyn argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ymwneud â'r cynnig gofal plant yn ei adroddiad ar ei ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith. ....................................................................................................................... Tudalen 93

**Argymhelliad 26.** Bod Llywodraeth Cymru yn dileu'r hawl i ddarparwyr wneud cais am daliadau ychwanegol. .................................................................................................. Tudalen 96

**Argymhelliad 27.** Bod Llywodraeth Cymru yn asesu, fel mater o flaenoriaeth, sawl darparwr sy'n codi taliadau ychwanegol o fewn yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar a pham maent yn gwneud hynny. ......................................... Tudalen 96

**Argymhelliad 28.** Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried, yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd yn yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar, i ba raddau mae darparwyr yn codi taliadau ychwanegol, gan godi'r gyfradd fesul awr o £4.50 yn ôl yr angen er budd cynaliadwyedd darparwyr a sicrhau eu bod yn cael eu had-dalu am wir gost eu darpariaeth. ........ Tudalen 96

**Argymhelliad 29.** Bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu, cyn y ddadl Cyfnod 1, y trafodaethau y mae wedi eu cynnal gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch y costau a'r amserlenni tebygol sy'n gysylltiedig ag unrhyw newid i'r cap incwm, ac ar ba sail mae'r Gweinidog wedi datgan y gallai newid o'r fath fod yn bosibl yn y dyfodol. ........ Tudalen 98

**Argymhelliad 30.** Bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun peilot y cynnig gofal plant i lond llaw o'r wardiau mwy cyfoethog yn yr Awdurdodau Lleol presennol sy'n Weithredwyr Cynnar, i brofi i ba raddau y mae'r cynnig yn parhau i fod yn un a gymerir i raddau helaeth gan y rhai sy'n ennill llai na'r cyflog cyfartalog canolrifol. ........ Tudalen 98

**Argymhelliad 31.** Bod Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad sydd i ddod (ac, os caiff ei dderbyn, unrhyw ddata sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i argymhelliad 30), yn adolygu'r cap incwm o £100,000 fesul rhiant. ........ Tudalen 98

**Argymhelliad 32.** Bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos y defnydd o gynllun peilot y cynnig gofal plant yn yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ac yn cyhoeddi manylion y gwariant o fis Mawrth i fis Awst 2018 cyn y ddadl Cyfnod 1 ym mis Medi. ........ Tudalen 99

**Argymhelliad 33.** Bod Llywodraeth Cymru, ar fyrder, yn ailystyried gallu ysgolion i gyflawni'r cynnig gofal plant llawn yn uniongyrchol. ........ Tudalen 103

**Argymhelliad 34.** Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canfyddiadau ei adolygiad o Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 cyn dechrau Cyfnod 3, er mwyn llywio gwaith cyflwyno ac ystyried gwelliannau yr Aelodau. ........ Tudalen 103

**Argymhelliad 35.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng cymorth cyfalaf i'r sectorau a gynhelir a'r sectorau nas cynhelir. ........ Tudalen 104

**Argymhelliad 36.** Bod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn fanwl i gyfrifiadau Gofal Cymdeithasol Cymru o ddiffyg yn y gweithlu fel y manylir ym mharagraff 324 yr adroddiad hwn. Dylid darparu'r ymateb hwn cyn y ddadl Cyfnod 1, er mwyn llywio ystyriaethau'r Aelodau ynghylch y graddau y bydd pwrpas datganedig y Bil o annog rhagor o bobl yn ôl i'r gwaith yn cael ei effeithio os nad oes gan y sector y capasiti i ddarparu gofal plant i bob teulu cymwys. ................................................ Tudalen 110

**Argymhelliad 37.** Bod Llywodraeth Cymru, yn unol ag argymhellion Comisiynydd y Gymraeg, yn gweithio i integreiddio'r cynnig gofal plant gyda strategaeth Cymraeg 2050, yn defnyddio Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i bennu targedau mewn perthynas â darpariaeth gofal plant Cymraeg, a diwygio'r ffordd o gasglu a rhannu data gofal plant i sicrhau bod yr holl gynllunio yn seiliedig ar wybodaeth ddibynadwy. ................................................ Tudalen 110

# 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 16 Ebrill 2018, cyflwynodd Huw Irranca-Davies AC, y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn ac Addysg (y Gweinidog) Fil Cyllido Gofal Plant (Cymru) (Y Bil) a Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag ef. Y diwrnod canlynol, cyhoeddodd y Gweinidog Ddatganiad o Fwriad Polisi mewn perthynas â'r Bil, a gwnaeth ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn, lle eglurodd:

> "Bydd y Bil, er yn dechnegol ei natur, yn ei gwneud hi'n bosib i Lywodraeth Cymru sefydlu system genedlaethol i reoli ceisiadau ac i wneud y gwiriadau cymhwystra angenrheidiol ar gyfer y cynnig gofal plant yng Nghymru."[1]

**2.** Yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2018, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol i gyfeirio'r Bil atom ni, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, i ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylem gyflwyno adroddiad erbyn 6 Gorffennaf 2013.[2]

**3.** Yng ngoleuni'r swm sylweddol o dystiolaeth a gafwyd yn ymwneud â chynnig gofal plant Llywodraeth Cymru, a'i berthnasedd i nodau trosfwaol y Bil fel y manylir arnynt yn y Memorandwm Esboniadol, gofynnom am estyniad i'r amserlen ar gyfer ein gwaith craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau diwygiedig o 18 Gorffennaf 2018.[3]

## 1. 1. Cylch gorchwyl

**4.** Cytunom ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:

Trafod:

- egwyddorion cyffredinol Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) ac a oes angen deddfwriaeth er mwyn cyflawni'r amcanion polisi a nodwyd yn y Bil;
- unrhyw rwystr posibl i roi'r prif ddarpariaethau ar waith, ac a yw'r Bil yn ystyried y rhwystrau hynny;

[1] Cyfarfod Llawn, 17 Ebrill 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 186]

[2] Y Pwyllgor Busnes, Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), Ebrill 2018

[3] Y Pwyllgor Busnes, Adroddiad ar yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), Mehefin 2018

- a oes unrhyw ganlyniad anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol); a hefyd
- priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 y Memorandwm Esboniadol).

**5.** Cynhaliom ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 20 Ebrill a 18 Mai 2018 i hysbysu ein gwaith craffu, a chawsom 21 o ymatebion ysgrifenedig (gweler y rhestr yn Atodiad A). Cynhaliom naw sesiwn dystiolaeth lafar yn ystod Mai a Mehefin 2018, a darperir yr amserlen yn Atodiad B. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith.

## 1. 2. Trafodaethau pwyllgorau eraill ar y Bil

**6.** Clywodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad dystiolaeth gan y Gweinidog ar oblygiadau ariannol y Bil ar 13 Mehefin 2018, gan gyhoeddi ei adroddiad ar 16 Gorffennaf 2018.

**7.** Ar 14 Mai 2018, clywodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dystiolaeth gan y Gweinidog ynghylch pa mor briodol oedd y darpariaethau yn y Bil sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Cyhoeddodd ei adroddiad ar 28 Mehefin 2018.

# 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yw'r cyntaf i'w gyflwyno o dan ddarpariaethau Deddf Cymru 2017. Mae'r Ddeddf hon yn creu model cadw pwerau o gymhwysedd deddfwriaethol i Gymru drwy ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 2. 1. Cyffredinol

**8.** Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae ei safbwynt wedi ei nodi ym mharagraffau 2.1 i 2.11 y Memorandwm Esboniadol.

## 2. 2. Datganiad y Llywydd a chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol

**9.** Ar 16 Ebrill 2018, cyhoeddodd y Llywydd ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol. Nododd na fyddai adrannau 4(2), 4(5)(b), (c) a (d), na 5(3) o fewn cymhwysedd oherwydd bod y darpariaethau hyn angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol i ddod â hwy o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, ac ni chafwyd hyn ar adeg cyflwyno'r Bil.

**10.** Cadarnhaodd swyddogion a oedd gyda'r Gweinidog fod y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys wedi rhoi cydsyniad ar ran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer adrannau 4(1), 4(5)(a) a 9 y Bil.[4] Dywedasant fod y cyngor ar y cydsyniadau sy'n weddill dan ofal yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau yn y drefn honno.[5] Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn hyderus y byddai'r holl gydsyniadau angenrheidiol ar waith erbyn diwedd Cyfnod 1.[6]

**11.** Cawsom lythyr ar 9 Gorffennaf 2018 yn cadarnhau bod yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau wedi rhoi'r cydsyniadau perthnasol.[7]

**12.** Ar 9 Gorffennaf 2018, rhannodd Llywodraeth Cymru gopi o'r llythyr a anfonwyd gan y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys yn cadarnhau cydsyniad mewn

[4] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 10]

[5] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 8]

[6] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018,Cofnod y Trafodion [paragraff 12]

[7] Gohebiaeth gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol at y Llywydd, 9 Gorffennaf 2018

perthynas â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.[8] Er mai 14 Mawrth 2018 yw'r dyddiad ar y llythyr hwn, ni rannwyd ef gyda ni tan ar ôl cwblhau ein gwaith casglu tystiolaeth, er ei fod yn cynnwys gwybodaeth o berthnasedd uniongyrchol a phwysig i'n hystyriaeth o ddarpariaethau'r Bil.

## EIN BARN MEWN PERTHYNAS Â CHYDSYNIADAU

**13.** Rydym yn cytuno â chasgliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylai'r holl gydsyniadau angenrheidiol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig fod wedi cael eu ceisio a'u rhoi cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol.[9]

**14.** Rydym yn hynod bryderus a siomedig na chafodd yr wybodaeth gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru mewn llythyr dyddiedig 14 Mawrth 2018, ei rhannu gyda ni i gynorthwyo ein gwaith craffu ar y Bil hwn. Credwn fod nifer o'r sylwadau a wnaed yn llythyr y Prif Ysgrifennydd - yr ymdrinnir â phob un ohonynt mewn penodau dilynol yn yr adroddiad hwn - yn uniongyrchol berthnasol i'n gwaith craffu effeithiol ar y Bil hwn. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm y gellir ei gyfiawnhau dros beidio â'i rannu gyda'r Llywydd a phwyllgorau perthnasol y Cynulliad pan gyflwynwyd y Bil.

**Argymhelliad 1.** Bod Llywodraeth Cymru, fel mater o drefn, yn rhannu'r holl wybodaeth â phwyllgorau'r Cynulliad sy'n manylu ar ba sail y rhoddir cydsyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i Fil. Dylai'r wybodaeth hon gael ei rhannu pan gyflwynir y Bil (neu cyn gynted ag y bydd ar gael os na dderbynnir cydsyniadau cyn cyflwyno) er mwyn galluogi craffu llawn a phriodol ar ddarpariaethau Bil.

## 2. 3. Rheoliadau a wneir o dan y Bil

**15.** O gofio natur fframwaith y Bil hwn, bydd llawer o fanylion y polisi yn ymddangos yn y rheoliadau a wneir o dan y Bil.

**16.** Cydnabu'r Gweinidog yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y byddai cydsyniadau ar gyfer darpariaethau mewn rheoliadau sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth yn ofynnol gan Ysgrifenyddion Gwladol y Deyrnas Unedig. Gwadodd y byddai hyn i bob pwrpas yn rhoi feto i Lywodraeth y

[8] Gohebiaeth gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol at y Llywydd, 9 Gorffennaf 2018

[9] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Adroddiad ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), Mehefin 2018, paragraff 23

Deyrnas Unedig ar y trefniadau cyllido gofal plant pe bai'n gwrthod rhoi cydsyniad.[10]

## EIN BARN NI AR GYMHWYSEDD MEWN PERTHYNAS Â RHEOLIADAU

**17.** Rydym yn cytuno â chasgliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, y

> "…bydd angen i'r Pwyllgor hwn ystyried yn ofalus unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil, yn arbennig o ran hawliau dynol, a sicrhau nad yw'r rheoliadau yn ymwneud ag unrhyw faterion gedwir yn ôl neu sydd mewn unrhyw ffordd arall y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad."[11]

**18.** Rydym hefyd yn cytuno â chasgliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, pe bai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwrthod cydsyniad mewn perthynas â'r rheoliadau rhannu gwybodaeth, na fyddai'r model y mae'r Llywodraeth yn ei ffafrio, sef un yn cael ei redeg gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yn ymarferol. Mae derbyn llythyr Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yn dangos hyn yn fwy amlwg o ystyried ei ddatganiad y byddai unrhyw newid i'r cynnig gofal plant yng Nghymru, yn ogystal â chynydd mewn costau a graddfeydd amser ar gyfer cyflwyno, hefyd "angen cytundebau ar wahân".

**Argymhelliad 2.** Bod Llywodraeth Cymru, cyn y ddadl Cyfnod 1, yn amlinellu ei ddealltwriaeth o'r "cytundebau ar wahân" y byddai eu hangen rhyngddi hi ei hun a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi pe bai'r cynnig gofal plant arfaethedig yn newid.

[10] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Adroddiad ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), Mehefin 2018, paragraffau 78 i 81

[11] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Adroddiad ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), Mehefin 2018, paragraff 54

# 3. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Mae negeseuon cymysg am brif nod a phwrpas y Bil hwn wedi pylu'r nod o asesu ei egwyddorion cyffredinol a'r effaith arfaethedig. Er ei bod yn honni bod ei ddarpariaethau yn bennaf yn dechnegol eu natur, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datgan mai "prif bwrpas" y Bil yw "cefnogi economi Cymru". Mae'r bennod hon yn ystyried y gwahanol ddibenion a nodir ac i ba raddau mae'r Bil yn mynd i'r afael â hwy. Y mae hefyd yn ystyried yr angen am y ddeddfwriaeth hon.

## 3. 1. Diben datganedig y Bil a'r effaith a fwriedir

**19.** Mae'r Memorandwm Esboniadol a ddaw gyda'r Bil yn nodi nifer o ddibenion ac effeithiau arfaethedig ei ddarpariaethau.

**20.** Disgrifir "prif ddiben" y Bil yn y Memorandwm Esboniadol,[12] ac mewn gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol gan Lywodraeth Cymru,[13] fel un a fydd yn "cefnogi economi Cymru drwy helpu rhieni, mamau yn arbennig, i ddychwelyd i'r gwaith neu i gynyddu'r oriau y maent yn eu gweithio. Bydd hyn yn cynyddu maint y gweithlu a hefyd yn gwella cyflogadwyedd rhieni, mamau yn arbennig".[14]

**21.** Yn y Memorandwm Esboniadol, rhestrir "dibenion ychwanegol" ar gyfer y Bil, gan gynnwys "cynyddu'r dewis o gyflogaeth sydd ar gael i rieni, yn arbennig i famau, a gwella llesiant cymdeithasol plant a rhieni. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at wella ansawdd bywyd y teulu a phrofiadau plentyndod a ddaw o gael mwy o incwm gwario."[15] Nodir hefyd y "Bwriedir i'r Bil helpu i gyflawni ymrwymiad allweddol ym maniffesto Llafur Cymru" - sef darparu 30 awr o addysg y

[12] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.5

[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 21 – Llywodraeth Cymru

[14] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.5

[15] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.5-3.6

blynyddoedd cynnar a gofal plant a gyllidir gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed yng Nghymru am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.[16]

**22.** Disgrifir prif amcanion y Bil yn y Memorandwm Esboniadol, sef:

> "…rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant i blant cymwys rhieni sy'n gweithio. Mae'r Bil yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau ar y trefniadau ar gyfer gweinyddu a gweithredu'r cynllun cyllido. Prif ffocws y Bil yw galluogi casglu ac ystyried data perthnasol er mwyn dyfarnu cymhwystra person ar gyfer y Cynnig."[17]

**23.** Yn ystod sesiynau tystiolaeth lafar, pwysleisiodd y Gweinidog a'i swyddogion fod y Bil yn "dechnegol" ei natur. Roeddent yn awgrymu, er bod materion yn ymwneud â'r cynnig gofal plant yn berthnasol, nad oeddent yn ganolog i'r gwaith craffu ar y Bil.

## EIN BARN AR DDIBEN ARFAETHEDIG Y BIL

**24.** Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru yn ei Memorandwm Esboniadol mai "prif ddiben" y Bil hwn yw "cefnogi economi Cymru drwy helpu rhieni, mamau yn arbennig, i ddychwelyd i'r gwaith neu i gynyddu'r oriau y maent yn eu gweithio".[18] Mewn gwybodaeth ysgrifenedig bellach, dywedodd fod cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu yn y Bil hwn wedi ei sefydlu ar y sail honno.[19] O'r herwydd, roedd dyletswydd arnom ni i archwilio'r dystiolaeth sy'n sail i'r honiad y bydd y Bil hwn, a'r is-ddeddfwriaeth a wneir dan y Bil, yn cyflawni'r nod hwnnw.

**25.** Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio bod o gymorth drwy ddarparu'r cyd-destun polisi ar gyfer y cynnig gofal plant o fewn Memorandwm Esboniadol y Bil. Serch hynny, mewn tystiolaeth lafar, cyfeiriodd y Gweinidog dro ar ôl tro at y Bil fel un "technegol". Mae cyfosod "Bil technegol" fel y'i gelwir gyda'r cynnig gofal plant wedi gwneud y gwaith o graffu ar un yn ddibynnol ar graffu ar y llall, ac wedi pylu'r llinellau wrth geisio sefydlu pwrpas, effaith ac egwyddorion cyffredinol y Bil. Mae hyn wedi gwneud ein gwaith craffu yn fwy heriol a manwl nag y byddai label Bil "technegol" Llywodraeth Cymru yn ei awgrymu.

[16] Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1
[17] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.18-3.19
[18] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.5
[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 01 – Llywodraeth Cymru.

**26.** Credwn fod materion sy'n ymwneud â'r cynnig gofal plant ei hun yn ganolog i weithredu'r Bil. Dangosir hyn yn fwyaf amlwg yn:

- adran 1 o'r Bil, sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru bennu meini prawf cymhwystra ar gyfer cael gafael ar gyllid ar gyfer gofal plant; ac
- adran 2(1) o'r Bil, sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru "wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch gweinyddu **a gweithredu** [ein pwyslais ni] unrhyw drefniadau a wneir gan Weinidogion Cymru" ar gyfer cyllido gofal plant i blant rhieni sy'n gweithio.

**27.** O'r herwydd, roedd ein gwaith craffu - a llawer o'r dystiolaeth a gawsom - yn ymwneud â manylion y cynnig gofal plant, yn ogystal â'r mecanweithiau technegol sydd yn y Bil.

## 3. 2. Yr angen am Fil

**28.** Pan ofynnwyd iddo pam mae angen Bil, dywedodd y Gweinidog:

> "…it's essentially to set up, through Her Majesty's Revenue and Customs, integrating with their childcare service, […] one single national uniform system for delivering the offer."[20]

### Y trefniadau presennol ar gyfer cynllun peilot cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru

**29.** Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot y cynnig gofal plant mewn saith Awdurdod Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ym mis Medi 2017. O dan y cynllun peilot, mae gan bob un o'r Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar gyfrifoldeb am wirio ceisiadau unigolion a'u cymhwystra ar gyfer y cynnig. Mae'r Awdurdodau Lleol wedi cynnal y gwiriadau hyn o dan swyddogaethau presennol awdurdodau lleol, felly ni fu angen newidiadau deddfwriaethol hyd yn hyn.

**30.** Fel y nodwyd yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil, gallai'r trefniadau hyn barhau a gellid cyflwyno'r broses yn genedlaethol heb yr angen i basio deddfwriaeth:

> "Caiff y Cynnig ei weithredu'n Gynnar drwy'r saith Awdurdod Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar. Pe bai'n cael ei gyflwyno ar lefel genedlaethol,

[20] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 6]

byddai'r model hwn yn parhau a byddai pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yn darparu'r Cynnig o fewn eu hawdurdod yn unigol."[21]

**Blwch 1: Sut bydd addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn cyd-fynd â'i gilydd i lunio'r cynnig**

*Addysg y blynyddoedd cynnar*

- Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid i bob awdurdod lleol yng Nghymru, fel rhan o'r Grant Cynnal Refeniw, i ddarparu addysg "ran-amser" statudol y blynyddoedd cynnar.
- Disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio eu Grant Cynnal Refeniw i gyllido o leiaf 10 awr yr wythnos yn ystod y tymor (h.y. 39 wythnos y flwyddyn) o addysg y blynyddoedd cynnar i bob plentyn, waeth beth fo statws cyflogaeth eu rhieni, o'r tymor cyntaf ar ôl eu trydydd pen-blwydd tan y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Nid yw'r arian hwn wedi ei neilltuo.
- Mae rhai awdurdodau lleol yn dewis cyllido mwy na 10 awr (gyda'r uchaf yn 30 awr o addysg y blynyddoedd cynnar yn cael ei gynnig mewn lleoliadau a gynhelir ym Mhen-y-bont ar Ogwr – gweler Atodiad C am fanylion pellach ynghylch pob awdurdod lleol).

*Y cynnig gofal plant*

- Bwriad Llywodraeth Cymru yw rhoi 30 awr o ofal plant am ddim am 48 wythnos y flwyddyn i bob rhiant sy'n gweithio, o'r tymor cyntaf ar ôl trydydd pen-blwydd eu plentyn tan y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed.
- Yn seiliedig ar y canllawiau cyfredol i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ar gynllun peilot y cynnig gofal plant, bydd yr hawl bresennol i addysg y blynyddoedd cynnar yn rhan o 30 awr y cynnig. Mae'n nodi y bydd yr union raniad fesul awr rhwng addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn dibynnu ar oriau addysg y blynyddoedd cynnar a ddarperir gan yr awdurdod lleol perthnasol neu, lle bo'n berthnasol, yr ysgol unigol, ond bydd "yn cynnwys o leiaf 10 awr o addysg y blynyddoedd cynnar". Y mae hefyd yn nodi, lle mae lleoliad a gynhelir yn dewis cynnig oriau addysg y blynyddoedd cynnar yn ychwanegol at y nifer a gynigir ac a gyllidir gan yr awdurdod lleol, bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau nad yw cyfanswm oriau'r plentyn yn fwy na 30 awr i unrhyw blentyn.[22]
- Yn seiliedig ar y canllawiau cyfredol i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ar gynllun peilot y cynnig gofal plant, y tu allan i dymor yr ysgol, ni fydd addysg y blynyddoedd cynnar ar gael, a bydd 9 wythnos lle bydd gan rieni sy'n

[21] Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.2

[22] Llywodraeth Cymru, Cynnig Gofal Plant: Canllawiau i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar, paragraff 14, Medi 2017

gweithio hawl i 30 awr o ofal plant. Dywedir yn y canllawiau y bydd hyn yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau nas cynhelir yn unig, ac "mae'n anorfod y bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau hyn, yn enwedig yn ystod gwyliau'r haf".[23]

- Nodir y canllawiau cyfredol i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ar gynllun peilot y cynnig gofal plant na all rhieni "fancio" oriau (h.y. cario drosodd oriau nas defnyddiwyd o un wythnos i un arall). Yn sgil hynny, ni fydd nifer yr oriau gofal plant a gyllidir gan y llywodraeth yn fwy na 30 mewn unrhyw wythnos. Fodd bynnag, gall rhieni ddewis talu am ragor o oriau, yn ychwanegol at y 30 awr, ar eu traul eu hunain.[24]

**31.** Fodd bynnag, nodir yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil fod angen deddfwriaeth er mwyn creu:

> "…un system gyson a chenedlaethol ar-lein ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwystra y bydd modd i ymgeiswyr ei defnyddio i wneud cais am gyllid gofal plant ar gyfer eu plentyn, a llinell ffôn i'r rheini nad ydynt yn gallu defnyddio'r system ar-lein. Dylai hyn helpu i osgoi sefyllfa yng Nghymru lle mae pob awdurdod lleol yn gwirio cymhwystra mewn ffordd wahanol, a bydd yn golygu bod pob ymgeisydd ar draws Cymru'n cael mynediad i'r un gwasanaeth a bod rheolau'r cynllun yn cael eu cymhwyso'n gyson i bawb."[25]

**32.** Roedd tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig yn nodi cefnogaeth eang i ddeddfwriaeth a fyddai'n galluogi system gyson o ran ymgeisio a gwirio cymhwystra ar gyfer y cynnig gofal plant. Pwysleisiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru yr effaith gadarnhaol y byddai trefniadau o'r fath yn ei chael ar gael gwared â "baich gweinyddol derbyn ceisiadau a gwirio cymhwystra oddi ar awdurdodau lleol".[26] Cytunodd Gofal Cymdeithasol Cymru, gan nodi y byddai system Cymru gyfan yn "fanteisiol", ac y gallai liniaru materion capasiti i awdurdodau lleol.[27] Dywedodd Cwlwm, y corff ymbarél sy'n cynrychioli pum darparwr gofal plant blaenllaw Cymru:

[23] Llywodraeth Cymru, Cynnig Gofal Plant: Canllawiau i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar, paragraff 15, Medi 2017

[24] Llywodraeth Cymru, Cynnig Gofal Plant: Canllawiau i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar, paragraff 16, Medi 2017

[25] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.22

[26] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 21 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

[27] Tystiolaeth ysgrifenedig – CFF 14 – Gofal Cymdeithasol Cymru

> "… a national system that provided consistency to parents, families and providers across Wales would be welcomed."[28]

## Dewisiadau ar gyfer cyflwyno'n genedlaethol

**33.** Yn y Memorandwm Esboniadol, rhestrir pedwar dewis ar gyfer gweinyddu'r broses ymgeisio a gwirio cymhwystra ar gyfer y cynnig gofal plant yn genedlaethol:

- Awdurdodau Lleol yn parhau i dderbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwystra;
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwystra;
- Llywodraeth Cymru'n derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwystra;
- Parti wedi'i gontractio yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwystra.[29]

**34.** Noda Llywodraeth Cymru yn ei Hasesiad Effaith Rheoleiddiol:

> "Yr opsiwn rydym yn ei ffafrio yw bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn derbyn y ceisiadau ar gyfer y Cynnig, yn gwirio cymhwystra ceisiadau, ac yn rhoi gwybod i ymgeiswyr ar ran Llywodraeth Cymru […] y prif reswm yw bod eu profiad o weinyddu'r cynnig gofal plant yn Lloegr yn golygu eu bod mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithlon, a bod llai o risg oherwydd eu profiad a'u mynediad i gofnodion gweinyddol, ac felly mai nhw sy'n darparu'r gwerth gorau am arian."[30]

## Rôl Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

**35.** Yn y Memorandwm Esboniadol, rhagwelir y bydd rôl Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel a ganlyn:

> "… bydd y system ymgeisio a gwirio cymhwystra yn cael ei gweithredu gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi (CThEM) (fel yr 'awdurdod cyfrifol' a ddewiswyd), gan ddefnyddio ei Gwasanaeth Gofal Plant. Mae'r gwasanaeth hwn yn gallu cael gafael ar setiau data ategol perthnasol ac yn cynnig y gwerth gorau am arian. Bydd y ceisiadau gyfer y cynllun cyllido gofal plant yn gweithio mewn ffordd debyg i'r system sydd ar

[28] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 16]
[29] Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.1
[30] Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.82

> waith ar hyn o bryd yn Lloegr ar gyfer eu Cynnig Gofal Plant nhw, sydd wedi'i phrofi ers 2017, a Gofal Plant Di-dreth."[31]

**36.** Ailadroddodd y mwyafrif o'r rhai a ddarparodd dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig fanteision defnyddio system Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a restrir yn y Memorandwm Esboniadol. Roedd y manteision a nodwyd yn cynnwys:

- galluogi gwneud gwiriadau cymhwystra gyda data amser real;
- darparu system ac ymagwedd gyson ar draws Cymru gyfan;
- gostyngiad mewn risgiau yn ymwneud â diogelwch data a thwyll; ac
- profiad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, drwy ei wasanaeth gofal plant presennol, o weinyddu'r gwiriadau cymhwystra ar gyfer Credydau Di-dreth (TFC) a'r cynnig gofal plant yn Lloegr (a fydd, erbyn amser cyflwyno'r rhaglen yng Nghymru yn 2020, yn dair blynedd o brofiad a gwersi a ddysgwyd).[32]

**37.** Dywedodd Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru:

> "…using the HMRC option should enable some economies to be made at the set-up stage as a similar system is in place already for England."[33]

**38.** Cyfeiriodd Cwlwm a Chwarae Teg at y dewis Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel y dewis lleiaf beichus i rieni.[34]

**39.** Esboniwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fod gan Lywodraeth Cymru ddau ddewis. Gallai naill ai roi swyddogaethau i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi weinyddu'r cynllun yng Nghymru, neu gallai alluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i weithredu fel asiant i Lywodraeth Cymru.[35]

**40.** Esboniwyd yn nhystiolaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi y byddai rhoi swyddogaethau cyfreithiol iddo'n golygu y "byddai'n rhaid i Drysorlys Ei Mawrhydi

---

[31] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.25

[32] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.26 – gweler hefyd dystiolaeth lafar gan Cwlwm (y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018), Chwarae Teg (y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018), a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018)

[33] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 08 – Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru

[34] Gweler tystiolaeth lafar gan Cwlwm (y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 25]) a Chwarae Teg (y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 184])

[35] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 09 – Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

roi caniatâd ar gyfer y rheoliadau cymhwystra sy'n sail i'r cynllun".[36] Yn lle hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis defnyddio pwerau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[37] a Deddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005[38] er mwyn galluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i weithredu fel asiant i Lywodraeth Cymru.

**41.** Eglurodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi y byddai angen deddfwriaeth i'w alluogi i weithredu fel hyn, er mwyn galluogi rhannu'r data angenrheidiol:

> "HMRC not taking on formal functions means that the Welsh Government will need legal access to the data HMRC will use to determine eligibility in relation to the Welsh scheme. This is because the data gateways currently relied on by HMRC when supplying services to DfE [Adran Addysg y Deyrnas Unedig] in relation to 30 hours will not work when HMRC is acting as an agent. They depend on HMRC having formal functions. This applies even where HMRC uses data which it already possesses e.g. taxation information. The Bill provides for regulations creating the necessary data gateways. These regulations will be subject to consent from UK Government Ministers whose Departments provide information."[39]

**42.** Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch gallu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i weithredu fel asiant cyflawni. Trafodir y pryderon hyn yn fanylach ym *mhennod 5 - rhwystrau posibl o ran rhoi'r Bil ar waith*.

## EIN BARN YNGHYLCH YR ANGEN AM FIL

**43.** Rydym yn cytuno fod Bil yn angenrheidiol os yw'r broses ymgeisio a'r mecanwaith gwirio cymhwystra ar gyfer cyflwyno'r cynnig gofal plant yn genedlaethol yng Nghymru yn dibynnu ar ddata a gedwir gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac adrannau perthnasol eraill y Deyrnas Unedig. Heb y Bil hwn, ni fyddai'n bosibl i Lywodraeth Cymru, nac unrhyw asiant i Lywodraeth Cymru, gael mynediad at yr wybodaeth hon at ddibenion gweinyddu'r cynnig gofal plant yng Nghymru.

**44.** Nodwn y gallai Llywodraeth Cymru barhau i gyflwyno'r cynnig gofal plant yn genedlaethol heb basio deddfwriaeth, drwy ddibynnu ar y gwiriadau â llaw y mae awdurdodau lleol yn eu gwneud ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â

[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 09 – Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

[37] Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 83

[38] Deddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005, adran 15(3)

[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 09 – Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru fod hyn yn debygol o fod yn feichus i rieni a llywodraeth leol, gan arwain at anghysonderau yn ymarferol.

**45.** Yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, rydym yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r pryderon ynghylch yr heriau y bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn eu hwynebu wrth weinyddu'r cynllun yn Lloegr, a'i allu i ddarparu gwasanaethau cwbl ddwyieithog. Yn amodol ar dderbyn sicrwydd boddhaol mewn perthynas â'r rhain, ac yn seiliedig ar y rhesymau a amlinellwyd mewn tystiolaeth i ni, rydym yn cytuno â'r consensws i gefnogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel yr "awdurdod perthnasol" o ddewis i weinyddu'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra yng Nghymru.

**46.** Rydym hefyd yn nodi, os yw'n angenrheidiol ac yn well gwneud hynny, bod y Bil yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddewis asiant cyflwyno amgen i weinyddu'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra.

## 3. 3. Ymgynghori ar y Bil

**47.** Mae chwe pharagraff cyntaf adran ymgynghori'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi manylion am yr "ymgysylltiad sylweddol" a wnaed gyda rhieni, darparwyr ac awdurdodau lleol ar y cynnig gofal plant, yn hytrach na darpariaethau'r Bil ei hun.[40]

**48.** Eir ymlaen i esbonio yn y Memorandwm Esboniadol:

> "O ystyried natur dechnegol y Bil a'i apêl gyfyngedig i'r cyhoedd yn gyffredinol, teimlwyd nad oedd hi'n briodol i ymgymryd ag ymgynghoriad agored ar Fil drafft. Trafodwyd amcanion polisi'r Bil yn weddol fanwl ag aelodau Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Cynnig Gofal Plant ym mis Tachwedd 2017 a rhannwyd tudalen 'cynnwys' y Bil ag aelodau'r un grŵp ym mis Mawrth 2018."[41]

**49.** Dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi "ymgynghori'n briodol" gyda'r rhanddeiliaid a gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol gan y Bil, yn enwedig Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac mae'n rhestru ymgysylltiad ag adrannau perthnasol eraill y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Trysorlys Ei Mawrhydi, y Weinyddiaeth Gyfiawnder (mewn perthynas ag effaith y Bil ar y system gyfiawnder) a'r Adran Addysg.[42]

**50.** Pan holwyd y Gweinidog am y gwaith ymgynghori a wnaed ar y darpariaethau penodol yn y Bil, cadarnhaodd:

[40] Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.1
[41] Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.8
[42] Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.9

> "We haven't, Chair, done a formal consultation on, 'What mechanism would you like to see to do it?', but it has been based on clear feedback that the current complexity and bureaucratic system that we have is not the preferred one. The preference has been for a national system in Wales—one size for Wales across the piece—and one that would take the complexity away, not only from front-line providers, but from parents, with many of these families being in quite complex situations—some of them struggling to actually provide the documentation that's needed."[43]

**51.** Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yn fodlon â lefel yr ymgynghori a wnaed mewn perthynas â'r Bil. Holodd darparwyr gofal plant, a gynrychiolwyd gan Cwlwm, pa mor ystyrlon fyddai ymgynghoriad cyhoeddus mwy ffurfiol ar fecanwaith y Bil wedi bod, o ystyried yr wybodaeth gyd-destunol gyfyngedig sydd ar gael i'r cyhoedd.[44] Dadleuodd Cwlwm mai'r "cyfan a fyddai o ddiddordeb i rieni a darparwyr fyddai gwirio eu cymhwystra, a yw hyn yn gyson â phobl eraill, ac a yw'n wasanaeth syml a didrafferth".[45]

**52.** Gan gyfeirio at yr honiad yn y Memorandwm Esboniadol bod "ymgysylltiad sylweddol â rhieni" wedi cael ei wneud drwy'r ymgyrch #TrafodGofalPlant, dywedodd Chwarae Teg mai "ychydig iawn o fanylion sydd ynghylch pwy a ymatebodd, ac mae ymdeimlad bod y momentwm y tu ôl i'r ymgyrch hon wedi gwanhau".[46] Mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar ddarpariaethau'r Bil, dywedodd nad oedd yn eglur pwy oedd yn aelodau o'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Gofal Plant, a phwysleisiodd bwysigrwydd cynnwys safbwyntiau gwahanol, nid dim ond y rhai sy'n ymwneud â darparu gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar.[47]

**53.** Pan holwyd am lefel yr ymgynghori ar ddarpariaethau'r Bil, dywedodd cynrychiolydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi mai mater i Lywodraeth Cymru oedd hwnnw.[48] Fodd bynnag, cadarnhaodd fod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ymgymryd â "phrofion defnyddwyr helaeth gyda rhieni, a'i fod yn ystyried barn rhieni",[49] ac esboniodd y byddai "bob amser yn ymgynghori â rhieni a gwneud yn siŵr mai'r cynnyrch rydym yn ei gynnig yw'r hyn sydd ei angen arnyn nhw, ac fe

---

[43] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 57]
[44] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 20]
[45] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 17]
[46] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 11 – Chwarae Teg
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 11 – Chwarae Teg
[48] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 280]
[49] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 282]

wnawn ni ddarparu'r hyn maen nhw ei eisiau".[50] Cyfeiriwyd at gyfraddau bodlonrwydd cwsmeriaid o 83 y cant erbyn Ebrill 2018 mewn gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.[51]

## EIN BARN AR YMGYNGHORI

**54.** Er ein bod yn cydnabod nad yw'r mecanweithiau technegol yn y Bil hwn yn cael eu hystyried fel deunydd ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol yn naturiol, rydym yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi dibynnu mor helaeth ar ymgysylltiad yn ymwneud â'r cynnig gofal plant wrth baratoi i gyflwyno'r Bil hwn ac yn y Memorandwm Esboniadol a ddaw gydag ef.

**55.** Rydym yn cydnabod y gwaith a wnaed i ymgynghori â'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid a'r Adrannau perthnasol yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, o gofio bod y Bil yn gosod y fframwaith ar gyfer creu porth cenedlaethol sy'n wynebu'r cyhoedd ar gyfer y cynnig gofal plant (sy'n debygol o gyrraedd nifer sylweddol o rieni bob blwyddyn os cyflawnir y nifer lawn) credwn y gallai – ac y dylai – mwy fod wedi ei wneud i geisio barn y cyhoedd ar ei ddarpariaethau.

## EIN BARN AR EGWYDDORION CYFFREDINOL Y BIL

**56.** Ar sail ein barn fel yr amlinellir uchod, ac wrth ragweld y bydd y Gweinidog yn ystyried – ac yn cefnogi – y safbwyntiau a luniwyd gennym a'r argymhellion rydym wedi eu gwneud mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, mae saith o wyth aelod y Pwyllgor yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil ac o blaid iddo fynd y tu hwnt i Gyfnod 1.

**57.** Nid yw Llyr Gruffydd AC yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil hwn. Mae ei wrthwynebiad i'w ddilyniant wedi ei seilio ar ei bryder fod y Bil:

- yn targedu cyllid at y garfan anghywir o bobl drwy gyfyngu ar ei ddarpariaethau i blant rhieni sy'n gweithio yn unig;
- yn hwyluso fframwaith deddfwriaethol sy'n peri risg i gynyddu anghydraddoldebau rhwng plant rhieni sy'n gweithio a rheini nad ydynt yn gweithio, yn fwyaf nodedig mewn perthynas â pharodrwydd plant o'r cartrefi tlotaf ar gyfer yr ysgol a'u cyrhaeddiad addysgol; a'i fod

[50] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 284]
[51] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 08 – Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

- yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo egwyddorion cyffredinol Bil sy'n hwyluso'r cynnig gofal plant cyn cwblhau'r gwerthusiad o'r cynlluniau peilot perthnasol a'r gwersi a ddysgir yn sgil hynny.

**58.** Roedd gan Aelodau eraill o'r Pwyllgor bryderon sylweddol hefyd. Ymdrinnir â'r rhain yn y safbwyntiau a'r argymhellion a ddarperir drwy'r adroddiad hwn. Ar y cyfan, nid oeddent yn teimlo bod y pryderon hyn yn eu hatal rhag argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

**Argymhelliad 3.** Bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru). Nid yw Llyr Gruffydd AC yn cefnogi'r argymhelliad hwn ar y sail a amlinellir ym mharagraff 57 yr adroddiad hwn.

# 4. Priodoledd pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) bron yn gyfan gwbl yn ei hanfod yn un sy'n galluogi. Ar y cyfan, mae'r Bil yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau i weithredu'r cynnig gofal plant yn hytrach na phennu'r manylion ar ei wyneb. Mae'r bennod hon yn archwilio priodoldeb yr ymagwedd honno.

## 4. 1. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

**59.** Mae'r Bil yn cynnwys 13 adran a saith pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys pwerau i:

- ragnodi'r amodau y bydd yn rhaid eu bodloni er mwyn i blentyn gael ei ystyried yn gymwys am gyllid, gan gynnwys unrhyw ddatganiad y bydd yn rhaid i riant plentyn ei wneud ac unrhyw amod y bydd yn rhaid iddo ei fodloni;
- gwneud darpariaeth a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i rieni ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w cais am gyllid gofal plant a gwneud trefniadau i bennu cosbau ariannol pan ddarperir gwybodaeth anwir neu gamarweiniol;
- gwneud darpariaeth a fydd yn caniatáu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac i ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Gweinidogion y Goron ac awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth gymhwysol i Weinidogion Cymru neu i unigolyn sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru at ddibenion gweinyddu'r cynllun;
- rhagnodi manylion y trefniadau ar gyfer datgelu ymlaen wybodaeth gymhwysol a chreu troseddau mewn cysylltiad â datgelu ymlaen wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn penodol.
- gwneud darpariaeth i ymgeiswyr ofyn am adolygiad o benderfyniadau a wneir mewn cysylltiad â'u ceisiadau ac am drefniadau ar gyfer cyflwyno apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf;

- rhoi pŵer neu osod rhwymedigaethau ar awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'r cyllid; a hefyd
- galluogi cynyddu uchafswm y gosb ariannol y gellid ei rhoi i unigolyn sy'n darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol mewn cysylltiad â gofyniad i ddarparu gwybodaeth.[52]

**60.** Ac eithrio'r pŵer gwneud gorchymyn yn adran 12 y Bil, bydd yr holl bwerau dirprwyedig eraill ar ffurf rheoliadau. Bydd y pwerau gwneud rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**61.** Nodir yn Natganiad o Fwriad Polisi Llywodraeth Cymru y bydd dwy set o reoliadau yn codi o'r pwerau a grëir gan y Bil:

- rheoliadau sy'n nodi'r meini prawf cymhwystra craidd a sut/pryd bydd datganiadau cymhwystra yn cael eu gwneud;[53]
- rheoliadau sy'n pennu pa wybodaeth y mae angen ei darparu a chan bwy er dibenion gwirio cymhwystra a disgrifio sut gellir gwneud ceisiadau am gyllid (gan gynnwys manylion am sut gellir gwneud heriau i benderfyniadau).[54]

**62.** Cyfeirir hefyd yn y Datganiad o Fwriad y Polisi at ddatblygu "Cynllun Gweinyddol" a fydd "yn esbonio beth gall plentyn cymwys ei gael ac ym mhle y caiff y gofal plant a gyllidir ei ddarparu, a phwy fydd yn gwneud hynny".[55]

## 4. 2. Cydbwysedd rhwng manylion ar wyneb y Bil ac mewn rheoliadau

**63.** Wrth roi tystiolaeth i ni ar 16 Mai 2018, disgrifiodd y Gweinidog y ddeddfwriaeth hon fel "Bil fframwaith i raddau helaeth".[56] Dadleuodd fod hyn yn briodol gan nad oedd Llywodraeth Cymru yn dechrau â "dalen wag",[57] gan esbonio bod manylion am y cynnig gofal plant yn cael eu darparu yn:

- ymrwymiad maniffesto Llafur Cymru;
- y Memorandwm Esboniadol a ddaw gyda'r Bil; a'r

[52] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi, Ebrill 2018
[53] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi, Ebrill 2018
[54] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi, Ebrill 2018
[55] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi, Ebrill 2018
[56] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 20]
[57] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 36]

- cynlluniau peilot yn yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar.[58]

**64.** Pan ofynnwyd iddo pam na roddwyd rhagor o fanylion ar wyneb y Bil, atebodd y Gweinidog:

> "…it gives flexibility. What this Bill does is, whilst it sets up the mechanisms with HMRC, it allows us to come back and tweak. So, for example, qualifying criteria, appeals, penalties et cetera. It allows, through lessons learned within this, not to come back to primary legislation, but actually to come back and adjust through secondary legislation, but using the affirmative procedure."[59]

**65.** Dywedodd y Gweinidog hefyd:

> "…if we decide in Wales that we want to tweak and adjust this as this goes forward, I think it's right that we give flexibility for future Ministers to be able to do that, albeit within the paradigms of the Bill as we've set out."[60]

**66.** Pan heriwyd ef ar y ffaith y gallai hyblygrwydd o'r fath alluogi Gweinidog yn y dyfodol i benderfynu lleihau'r cynnig gofal plant, neu newid ei ffocws bron yn llwyr, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "I understand what you're saying about *de minimis*, but all I can say is, from this Government's perspective […] the commitment and the funding is absolutely clear to deliver this offer, but it does allow that flexibility in future, should we decide to do something different, with the support of the Assembly […] if a future Minister of any political party came back and said, 'We've had enough of this; we're going to cut it to five hours a week.' They'd have to put it through this Assembly first."[61]

**67.** Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid yn cefnogi'r rhaniad presennol yn y manylion rhwng wyneb y Bil ac is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, roedd hyn yn bennaf ar y sail bod gadael manylion (yn ymwneud â chymhwystra yn benodol) i reoliadau yn caniatáu'r lefel angenrheidiol o hyblygrwydd i fynd i'r afael â:

- gwersi a ddysgir o'r cynlluniau peilot; a'r

---

[58] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraffau 34 a 36]

[59] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 22]

[60] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 41]

[61] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 65]

- amrywiaeth o bryderon ynghylch meini prawf cymhwystra cyfredol y cynnig gofal plant.

**68.** Dywedodd aelodau Cwlwm, y corff ymbarél ar gyfer pum darparwr gofal plant mwyaf blaenllaw Cymru, ei fod yn fodlon â faint o fanylion a adawyd i is-ddeddfwriaeth. Eglurodd ei fod o'r farn hon ar y sail y byddai trefniant o'r fath yn caniatáu i Lywodraeth Cymru adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd drwy'r cynlluniau peilot yn y rheoliadau, ac y byddai ymgynghori ar fanylion unrhyw reoliad dilynol.[62]

**69.** Dywedodd Chwarae Teg wrthym fod yr hyblygrwydd a ddaw yn sgil y rheoliadau yn lleihau ei bryderon ynghylch agweddau ar y meini prawf cymhwystra (gan gynnwys oedran y plant a'r trothwy incwm ar gyfer aelwydydd), ar yr amod bod craffu digonol ar werthuso'r cynlluniau peilot yn dilyn.[63] Cydnabu Comisiynydd Plant Cymru ei bod hi o'r farn bod y rhaniad presennol o fanylion rhwng wyneb y Bil ac is-ddeddfwriaeth yn briodol oherwydd ei "phryder am y cynnig fel y mae".[64]

**70.** Nodir yn nhystiolaeth ysgrifenedig Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi:

> "…this Bill strikes a reasonable balance between the information set out on the face of the Bill and that which will be set out in regulations. This is particularly so because the Welsh Government can describe in reasonable detail what the scheme will look like when delivered."[65]

**71.** O ystyried ei fwriad i weithredu'r cynnig gofal plant drwy is-ddeddfwriaeth, gofynnodd y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i'r Gweinidog a fyddai copi drafft o'r rheoliadau ar gael. Cadarnhaodd ei bod yn annhebygol y byddent yn cael eu cyflwyno tan hanner cyntaf 2019 ac na fyddent ar gael ar ffurf drafft.[66]

## Amseru cyflwyno'r Bil

**72.** Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i gyflwyno'r cynnig gofal plant yn llawn ledled Cymru o fis Medi 2020.[67] Nodir yn y Memorandwm Esboniadol "Mae

[62] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraffau 13 ac 86]
[63] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraffau 190 a 192]
[64] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 285]
[65] Tystiolaeth ysgrifenedig - CCF 09 Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
[66] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 14 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 165]
[67] Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, Y diweddaraf ar y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru, 11 Ebrill 2018

cytundeb gwerthuso a monitro annibynnol yn ei le a fydd yn darparu adborth a gwybodaeth werthfawr o'r broses o weithredu'r Cynnig yn gynnar".[68] Mae'r Gweinidog wedi nodi y bydd canlyniadau'r gwerthusiad yn cael eu cyhoeddi yn ystod hydref 2018.[69]

**73.** Pan heriwyd ef ynghylch amseriad y Bil, yn enwedig y ffaith y byddai'n cael ei gyflwyno cyn dysgu gwersi o gynlluniau peilot yr Awdurdodau Lleol a fu'n Weithredwyr Cynnar, a chrynhoi gwerthusiadau o'r cynnig, eglurodd y Gweinidog:

> "…if we don't do it now, this will not be in place in time, with the detailed discussion we need with HMRC to allow the full roll-out in 2019-20. So, this part has to be done now in advance of the pilots, the lessons learned and so on."[70]

**74.** Disgrifiodd Chwarae Teg y bwriad i gyflwyno'r Bil cyn cwblhau'r gwerthusiad fel penderfyniad "rhwystredig", gan nodi ei bod yn anodd gwneud sylwadau gwybodus am fanylion y meini prawf cymhwystra sydd i'w gwneud o dan y ddeddfwriaeth hon, heb ganlyniadau'r gwerthusiad.[71]

**75.** Dywedodd cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> "…the Bill has had to be brought now, because of the timing and the target to have implemented the offer fully across Wales by 2020 […]
>
> I don't think that having the Bill now is a particular issue […] It's not an end in itself; it's just a means to an end."[72]

## EIN BARN AR GYFER AMSERLEN CYFLWYNIAD Y BIL

**76.** Rydym yn pryderu mai'r prif reswm a nodwyd gan randdeiliaid dros adael llawer o'r manylder sy'n sail i ddarpariaethau'r Bil hwn ar gyfer rheoliadau oedd yr angen i barhau'n hyblyg tra'r ydym yn disgwyl am ganlyniadau gwerthusiad cynlluniau peilot y cynnig gofal plant.

**77.** Er ein bod yn cydnabod y byddai cyflwyno'r Bil hwn yn ddiweddarach yn achosi her sylweddol i allu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i weithredu fel gweinyddwr y broses ymgeisio a gwirio cymhwystra mewn pryd ar gyfer y bwriad i

[68] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.15
[69] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 20]
[70] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 285]
[71] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 229]
[72] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraffau 356 a 360]

gyflwyno'r cynnig gofal plant yn 2020, mae'n anffodus bod y Bil hwn wedi cael ei gyflwyno cyn i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau.

**78.** Mae'r Gweinidog a rhanddeiliaid wedi rhoi llawer iawn o bwyslais ar y gwersi i'w dysgu a fydd yn deillio o werthuso cynllun peilot y cynnig gofal plant. Ar y sail hon, ynghyd â'i bwysigrwydd wrth lunio manylion y rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn, credwn y dylai canfyddiadau'r gwerthusiad fod ar gael i ni eu trafod cyn dechrau Cyfnod 3. Mae hyn yn angenrheidiol i roi digon o gyfle i'r Aelodau gynnig a thrafod unrhyw newid i'r Bil i adlewyrchu canfyddiadau'r gwerthusiad.

**Argymhelliad 4.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu canlyniadau'r gwerthusiad o gynllun peilot y cynnig gofal plant cyn dechrau Cyfnod 3 er gwybodaeth i Aelodau wrth iddynt gyflwyno a thrafod gwelliannau.

**Argymhelliad 5.** Nad yw Llywodraeth Cymru yn cwblhau manylion y rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn nes bod canfyddiadau'r gwerthusiad o'r cynlluniau peilot cynnig gofal plant wedi eu dadansoddi a'u cyhoeddi'n llawn.

## Cydbwysedd rhwng manylion yn y rheoliadau ac yn y cynllun gweinyddol

**79.** Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru mewn tystiolaeth lafar y byddai cynllun gweinyddol yn cael ei ddatblygu i ymdrin â "materion gweithredol o ran darparu'r cynnig gofal plant".[73] Yn Natganiad o Fwriad Polisi Llywodraeth Cymru, rhestrir y pwyntiau a ganlyn fel materion sydd i'w cwmpasu yn y cynllun:

- sut cyfrifir yr oriau gofal plant;
- sut gall rhieni gael mynediad at ofal plant (e.e. nifer yr oriau y gellir eu cymryd mewn un diwrnod; faint o leoliadau y gellir eu defnyddio; beth sy'n digwydd yn ystod gwyliau ysgol);
- pwy sy'n gallu darparu'r gofal plant at ddibenion y cynllun;
- yr amodau y mae'n rhaid i ddarparwyr eu bodloni er mwyn cyflawni'r cynllun;
- y trefniadau ar gyfer gwneud taliadau i ddarparwyr gofal plant a ddarperir o dan y cynllun, gan gynnwys y gyfradd fesul awr y telir y cyllid ac unrhyw gyllid ychwanegol a allai fod ar gael i gefnogi plant sydd ag anghenion dysgu arbennig neu ychwanegol.[74]

[73] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 94]
[74] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi, Ebrill 2018

**80.** Nodwyd hefyd y bydd y canllawiau anstatudol sydd ar waith i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar weithredu'r cynllun peilot yn cynnig "rhywfaint o'r sail" ar gyfer y cynllun gweinyddol a bydd yn cael ei lywio drwy "ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid a'r gwersi a ddysgir gan weithredwyr cynnar y Cynnig".[75]

**81.** Pan ofynnwyd am bwrpas a statws y cynllun gweinyddol, cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn anstatudol,[76] gan esbonio:

> "the administrative scheme is purely that. It is an administrative scheme. It explains what we've put into the primary and secondary regulations in order for the operators on the ground then to have clarity, in straightforward layperson's terms, away from the face of the Bill, away from the complexities of secondary regulation—here's what the scheme will do; this is how we expect you to administer it."[77]

**82.** Pan heriwyd y Gweinidog ynghylch priodoldeb gadael materion pwysig fel manylion am y rhai sy'n gallu darparu gofal plant, sut gwneir taliadau ac ar ba gyfradd fesul awr, i gynllun gweinyddu anstatudol, rhoddodd y Gweinidog a swyddogion Llywodraeth Cymru yr atebion a ganlyn:

- "it is more appropriate to set them out in there [y cynllun gweinyddol rather than in this technical Bill that allows HMRC to deliver the offer for us as an agent";[78]
- "it [y cynllun gweinyddol] would cover the operational matters around the delivery of the childcare offer rather than the more technical aspects around data sharing to establish the application system that the Bill covers";[79]
- the hourly rate is "something that we [Llywodraeth Cymru] would need to come back to and look at on a regular basis to make sure that what we were doing allowed for the sustainability of the sector";[80]
- nid oes gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi unrhyw rôl o ran y gyfradd gyllido, na rôl chwaith o ran talu, felly ni fyddai'n briodol cynnwys y manylion yn y Bil.[81]

---

[75] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi, Ebrill 2018

[76] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 131]

[77] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 127]

[78] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 92]

[79] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 94]

[80] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 97]

**83.** Crynhodd y Gweinidog ei sylwadau drwy ddweud:

> "…the very straightforward answer, Chair, is that the hourly rate, like some other aspects, does not fall directly within the scope of this Bill. And it doesn't fall within the primary legislative part of this on the face of the Bill, but neither, then, within the secondary, but it does fall within the scheme. It falls outwith this Bill."[82]

**84.** Mewn ymateb, nododd Cadeirydd y Pwyllgor:

> "…it is the Childcare Funding Bill, so it is difficult to understand why it wouldn't fall within the remit of the Bill.[83]

**85.** Cododd nifer o randdeiliaid bryderon ynglŷn â materion a fydd yn cael eu trin yn y cynllun gweinyddol, fel pwy fydd yn gallu darparu gofal plant, sut bydd taliadau'n cael eu gwneud ac ar ba gyfradd fesul awr. Trafodir y rhain yn fanylach yn *adran 5.3 - trefniadau ar ôl sefydlu cymhwystra*.

## EIN BARN AR Y GWEITHDREFNAU AR GYFER Y CYNLLUN GWEINYDDOL

**86.** Bydd y cynllun gweinyddol, na fydd yn meddu ar statws cyfreithiol ac nad oes unrhyw weithdrefn archwilio wedi ei rhagnodi ar ei gyfer, yn rhoi manylion am faterion pwysig fel pa ofal plant wedi ei gyllido y bydd plentyn cymwys yn gallu ei gael, lle y bydd y gofal plant wedi ei gyllido yn cael ei ddarparu, ac ar ba gyfradd yr awr y bydd darparwyr yn cael eu talu.

**87.** Rydym yn dadlau yn erbyn honiad y Gweinidog fod trefniadau o'r fath yn dod y tu allan i gwmpas y Bil hwn. Credwn y gallai'r holl drefniadau sy'n gysylltiedig â chyllido'r cynnig gofal plant fod o fewn cwmpas y Bil hwn. Mae hyn oherwydd bod adran 2(1) yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â "gweinyddu **a gweithredu unrhyw drefniadau** [ein pwyslais ni] a wneir gan Weinidogion Cymru at ddibenion adran 1" (sydd, yn ei dro, yn delio â darparu "cyllid i unrhyw berson at ddiben sicrhau'r ddarpariaeth o ofal plant ar gyfer plant cymhwysol rhieni sy'n gweithio").

**88.** Credwn y dylai materion pwysig fel y rhain gael sylfaen statudol. I'r perwyl hwn, credwn y dylid diwygio'r Bil i fynnu mai Gweinidogion Cymru ddylai wneud y cynllun gweinyddol drwy is-ddeddfwriaeth o dan y Bil.

---

[81] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 102]
[82] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 103]
[83] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 104]

**Argymhelliad 6.** Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i fynnu mai Gweinidogion Cymru ddylai wneud y cynllun gweinyddol drwy is-ddeddfwriaeth, i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar sail statudol.

## 4. 3. Hawl ar wyneb y Bil

### "Rhieni sy'n gweithio"

**89.** Yr unig fanylion sy'n ymwneud â chymhwystra a nodir ar wyneb y Bil yw y bydd yr arian a ddarperir ar gyfer "plant cymhwysol rhieni sy'n gweithio".[84] Ni fydd rhieni nad ydynt yn gweithio, neu deuluoedd lle nad yw un o ddau riant/gofalwr yn gweithio, yn gymwys i gael arian o dan y ddeddfwriaeth hon.

**90.** Nodir manylion am yr amgylchiadau lle caiff unigolyn ei drin fel un sy'n gwneud gwaith am dâl mewn rheoliadau a wneir o dan adran 1 y Bil.[85]

Blwch 2: Cymhwystra rhieni

Mae'r manylion isod wedi eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol ond nid ydynt yn ymddangos ar wyneb y Bil.

1. Bydd cyllid ar gael o'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn dair oed hyd at y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn bedair oed.
    - lle mae'r ddau riant yn gweithio neu lle mae'r unig riant mewn teuluoedd unig rieni yn gweithio;
    - lle mae'r ddau riant yn ennill, ar gyfartaledd, cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol;
    - lle mae rhieni'n hunangyflogedig neu ar gontractau dim oriau, ar yr amod bod eu henillion cyfartalog dros gyfnod o 3 mis yn bodloni'r meini prawf o ran isafswm enillion wythnosol.
2. Os yw o leiaf un rhiant ar yr aelwyd yn ennill £100,000 neu fwy'r flwyddyn (gros), ni fydd y teulu hwnnw'n gymwys i fanteisio ar yr oriau ychwanegol o ofal plant a ddarperir drwy'r Cynnig.
3. Gwneir trefniadau i ddarparu cyllid mewn amgylchiadau eithriadol eraill, e.e. yn achos: rhiant sy'n absennol dros dro oherwydd mamolaeth / tadolaeth / mabwysiadu / absenoldeb salwch statudol, neu sy'n derbyn

[84] Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) [fel y'i cyflwynwyd], adran 1(1)

[85] Memorandwm Esboniadol, Tabl 5.1

budd-daliadau penodol oherwydd ei fod/ei bod yn anabl neu fod ganddo/ganddi gyfrifoldebau gofalu sylweddol.[86]

**91.** Roedd y ddadl ynghylch a ddylid cyfyngu'r Bil i rieni sy'n gweithio yn destun craffu a thrafodaeth sylweddol wrth i ni drafod y Bil.

Barn y Comisiynydd Plant:

**92.** Amlinellodd Comisiynydd Plant Cymru ei gwrthwynebiad cryf i'r syniad o eithrio plant i rieni nad oeddent yn gweithio o ddarpariaethau'r Bil hwn:

> "As currently drafted, this provision will provide a large subsidy for some of Wales' highest-earning families, while not being targeted to assist the country's least well-off families and their children."[87]

**93.** Priodolodd ei gwrthwynebiad i eithrio plant rhieni nad oeddent yn gweithio i'r ffaith bod yr ymagwedd hon yn "debygol o atgyfnerthu anghydraddoldebau mewn deilliannau ar gyfer grwpiau cymdeithasol gwahanol".[88] Eglurodd:

> "I cannot support a policy that excludes the children of non-working parents from state investment in early years provision, when those children, on average, start school behind their peers on key developmental indicators. We know from the Millennium Cohort Study that children from the poorest families are already around 10 months behind those from better-off background in terms of development by the age of 3."[89]

**94.** Nododd yn ei thystiolaeth ysgrifenedig nad oedd hi wedi ei darbwyllo bod targedu rhieni sy'n gweithio yn seiliedig ar dystiolaeth, a bod "y cynigion wedi eu cynllunio i gyflawni ymrwymiad maniffesto yn hytrach na diwallu anghenion plant a'u teuluoedd yn awr ac yn y dyfodol".[90] Rydym yn trafod y dystiolaeth mewn perthynas ag effaith y cynnig gofal plant arfaethedig ar gyfraddau cyflogaeth ym *mhennod 8 - materion ychwanegol sy'n ymwneud â'r cynnig gofal plant ehangach*.

**95.** Yn sgil ei phryderon, galwodd y Comisiynydd Plant am gael gwared â'r term "rhieni sy'n gweithio" oddi ar wyneb y Bil:

[86] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.10-3.13
[87] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 02 – Comisiynydd Plant Cymru
[88] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 02 – Comisiynydd Plant Cymru
[89] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 02 – Comisiynydd Plant Cymru
[90] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 02 – Comisiynydd Plant Cymru

> "Removing the words 'working parents' from section 1 of the Bill and placing all qualifying aspects for the funding in secondary legislation would create the flexibility to adapt eligibility based on the evaluation of evidence."[91]

## Barn rhanddeiliaid eraill

**96.** Cododd undeb athrawon yr NASUWT bryderon tebyg i'r rhai a godwyd gan y Comisiynydd Plant, gan fynegi ei ofn y gallai effaith cyfyngu darpariaethau'r Bil i blant cymwys rhieni sy'n gweithio "waethygu bylchau cyrhaeddiad rhwng rhai o'r plant ifanc mwyaf difreintiedig ac sydd wedi eu hallgau fwyaf yn gymdeithasol a phlant eraill mewn amgylchiadau llai difreintiedig".[92]

**97.** Daeth Achub y Plant i'r casgliad:

> "…the Bill may mean we have a childcare system that is not able to fulfil its potential to help prevent children in poverty falling behind early and remaining behind throughout their education and further into their lives. The consequences of not enabling all children to benefit from quality early education and care for children's development and learning could be detrimental to the Government's clear commitment to give all children the best possible start in life."[93]

**98.** Ni wnaeth y mwyafrif o randdeiliaid sylwadau ar ffocws y Bil ar rieni sy'n gweithio, neu roeddent yn derbyn ei fod wrth wraidd ymrwymiad yn y maniffesto a oedd yn sail i gyflwyno'r Bil, ac y byddai'n cyfrannu at ddileu un o'r rhwystrau i gyflogaeth.

**99.** Pan ofynnwyd i Chwarae Teg a oedd sylw'r Bil ar rieni sy'n gweithio yn gywir, ymatebodd:

> "When you take the broad offer that Welsh Government's got in place, including, for example, Flying Start, this targeted intervention for working parents is the right one, because we are consistently told that it is childcare that is the barrier to continuing to work for parents […] it's right to make decisions when you have limited resources, and this seems to us to be an eminently sensible one to make."[94]

---

[91] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 02 – Comisiynydd Plant Cymru

[92] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 18 – NASUWT

[93] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 17 – Achub y Plant

[94] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 201]

**100.** Aeth Chwarae Teg ymlaen i ddweud y dylai'r rhai sydd mewn addysg neu hyfforddiant, gyda'r bwriad uniongyrchol i ddychwelyd i'r gwaith yn sgil hynny, "fod yn gallu cael mynediad at y cynnig gofal plant" ond y byddai ei ymestyn i gynnig cyffredinol "yn berygl o lledaenu'r cynnig yn rhy denau".[95]

### Ymateb y Gweinidog

**101.** Pan ofynnwyd iddo pam roedd y Bil yn canolbwyntio ar rieni sy'n gweithio yn unig, pwysleisiodd y Gweinidog:

- nodir gofal plant fel un o'r rhwystrau mwyaf sy'n atal rhieni, yn enwedig mamau, rhag dychwelyd i fyd gwaith a chyflogaeth;[96]
- nid yw'r Bil yn sefyll ar ei ben ei hun – mae amrywiaeth ehangach o weithgarwch, fel y Cynllun Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Plant Iach Cymru, parthau plant, y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a'r Cynllun Integredig Cymorth i Deuluoedd, ar waith i gefnogi rhieni nad ydynt yn gweithio neu'r rhai sy'n hyfforddi i ddychwelyd i'r gwaith;[97]
- pe bai pwll diwaelod o arian, byddai'r sefyllfa'n wahanol,[98] ond yr ymrwymiad a wnaed ym maniffesto Llafur Cymru, y mae'r Bil yn ceisio ei gyflawni, oedd i rieni sy'n gweithio.[99]

**102.** Pan ofynnwyd iddo ymateb i bryderon y Comisiynydd Plant y gallai darpariaethau'r Bil gynyddu anghydraddoldeb rhwng plant rhieni sy'n gweithio a phlant rhieni nad ydynt yn gweithio, yn enwedig mewn perthynas â bwlch parodrwydd ar gyfer ysgol a chyrhaeddiad addysgol, ymatebodd y Gweinidog:

> "If we look at it [y cynnig gofal plant fel y'i galluogir gan y Bil] on its own, yes, I'd agree entirely with the children's commissioner, but it isn't on its own."[100]

**103.** Mewn ymateb i'r alwad am gael gwared ar y geiriau "rhieni sy'n gweithio" o wyneb y Bil, dywedodd y Gweinidog y gallai hyn wneud y Bil yn ddiwerth:

---

[95] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 203]
[96] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 20]
[97] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 107]
[98] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 25]
[99] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 89]
[100] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 109]

> "the practical and legislative challenges that could emerge [yn sgil tynnu'r geiriau 'rhieni sy'n gweithio oddi ar wyneb y Bil] would depend on what the new policy would look like and whether would be any requirement for eligibility checks in respect of the parent of child accessing the Offer. It may be that extensive revisions would be required to the Bill as currently drafted, given that it provides the legislative basis necessary to integrate with HMRC's Childcare Service. It could be that there would be no need for a Bill at all."[101]

**104.** Tynnodd y Gweinidog sylw hefyd at ei farn y gallai problemau posibl godi o ran cymhwysedd wrth ystyried a fyddai Bil yn parhau i fod yn angenrheidiol i ddarparu cynnig mwy cyffredinol:

> "If the intention were to provide for universal access to the funding, then the main purpose of the legislation would need to be considered afresh as would the legislative competence of the Assembly (in the event that a Bill would continue to be necessary), particularly in light of the reservation for social security schemes in section F1 of Part 1 of Schedule 7A to GOWA."[102]

**105.** Pan ofynnwyd iddo a fyddai'n agored i estyn darpariaethau'r Bil i rieni mewn addysg neu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â sicrhau cyflogaeth, dywedodd y Gweinidog nad oedd hynny'n fater i'r Bil hwn, ond y byddai ganddo ddiddordeb mewn awgrymiadau ynghylch ffyrdd eraill o gefnogi'r boblogaeth honno o rieni.[103]

**106.** Pan holwyd ef a oedd unrhyw asesiad wedi ei wneud o nifer y rhieni a allai elwa ar ymestyn darpariaethau'r Bil i'r rhai mewn addysg neu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â sicrhau cyflogaeth, ymatebodd:

> "…we are very sympathetic to those who are aspiring to get back into work. But, of course, this offer is very much targeted at those parents who are working parents […] it isn't focused on those who are in education or training—it simply isn't—so we haven't done an assessment on that."[104]

**107.** Yn ystod ein gwaith craffu ar Gyfnod 1, cyhoeddodd Huw Irranca-Davies AC (yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil hwn) ei gais am arweinyddiaeth Llafur Cymru.[105] Fel

---

[101] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 01 – Llywodraeth Cymru

[102] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 01 – Llywodraeth Cymru

[103] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 17]

[104] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 15]

[105] BBC News online, Ex-MP Irranca-Davies joins Welsh Labour leader race, 29 Mehefin 2018

rhan o'i gyhoeddiad, dywedodd fod y cynlluniau peilot presennol "yn rhan o weledigaeth tymor hwy", ac:

> "We know, from international evidence, that universal, high-quality, pre-school provision, which brings together early education and childcare—it works. It really works. It helps address the impacts of poverty. It narrows the attainment gap when children start school. And combined with quality education through all levels, it transforms the life chances of these children as they grow into adulthood and throughout their lives."[106]

## EIN BARN AR GYFYNGU'R BIL I RIENI SY'N GWEITHIO

**108.** Mae gennym bryderon sylweddol am y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni mewn perthynas ag effaith bosibl cyfyngu ar ddarpariaethau'r Bil hwn i blant cymwys rhieni sy'n gweithio. Mae angen rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r farn a fynegwyd i ni y gallai cyfyngu'r Bil hwn i blant rhieni sy'n gweithio yn unig waethygu'r gwahaniaethau presennol o ran parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol plant o'r cefndiroedd tlotaf a'r rhai mwyaf cyfoethog.

**109.** Rydym yn cydnabod pendantrwydd y Gweinidog fod cymorth arall yn bodoli i blant rhieni nad ydynt yn gweithio gael mynediad at ofal plant wedi ei gyllido, gan gynnwys mynediad cyffredinol at addysg blynyddoedd cynnar rhan amser i bob plentyn 3 a 4 oed, yn ogystal â Dechrau'n Deg ar gyfer y rhai sy'n byw yn ardaloedd cod post tlotaf Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod rôl rhaglenni fel PaCE, sy'n cael ei chyllido ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, i dalu am gost gofal plant tra bod rhieni yn ymgymryd â hyfforddiant, profiad gwaith neu waith gwirfoddol i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael swydd.

**110.** Fodd bynnag, dangosodd ein hadroddiad ym mis Chwefror 2018 ar elfennau allgymorth Dechrau'n Deg bod y mwyafrif o blant sy'n byw mewn tlodi i'w cael y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg fel y'u diffiniwyd, ac felly maent yn llai tebygol o elwa ar wasanaethau Dechrau'n Deg.[107] O'r herwydd, mae gennym bryderon

[106] BBC News online, Ex-MP Irranca-Davies joins Welsh Labour leader race, 29 Mehefin 2018 – gweler y fideo sydd wedi ei fewnosod yn yr erthygl

[107] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Dechrau'n Deg: Allgymorth, Chwefror 2018. Darperir Dechrau'n Deg gan awdurdodau lleol ac o fewn ardaloedd daearyddol diffiniedig. Dyrennir arian Dechrau'n Deg yn ôl yr amcangyfrif o nifer y plant 0-3 oed sy'n byw ar aelwydydd sy'n derbyn cymorth incwm mewn ardaloedd cynnyrch ehangach is. Mae'r rhaglen yn cynnwys pedair elfen graidd, sydd ar gael yn gyffredinol i bob plentyn o dan 4 oed a'u teuluoedd yn yr ardaloedd lle mae'r rhaglen yn rhedeg. Mae hyn yn cynnwys "gofal plant rhan amser o safon am ddim" i bob

sylweddol y bydd rhai o'n plant mwyaf difreintiedig yn disgyn drwy'r bylchau yn y ddarpariaeth gyfredol. At hynny, rydym yn pryderu bod rhaglen PaCE, sy'n targedu rhieni anweithgar 25 oed a throsodd, a rhieni 16-24 oed nad ydynt mewn addysg neu gyflogaeth (NEET), yn debygol o ddod i ben yn 2020.

**111.** Er y byddai'n well gan rai o Aelodau'r Pwyllgor pe bai cynnig gofal plant mwy cyffredinol ar gael, rydym yn cydnabod nad yw'r hinsawdd ariannol bresennol yn gwneud hyn yn bosibilrwydd hyfyw yn y dyfodol agos. Serch hynny, credwn y dylai darpariaethau'r Bil hwn ymestyn i gronfa ehangach o blant na'r sefyllfa ar hyn o bryd, fel arwydd o ddyhead Llywodraeth Cymru i ehangu ei gyrhaeddiad.

**112.** Yn unol â phwrpas penodol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil hwn o gefnogi economi Cymru drwy helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith, credwn y dylid diwygio'r Bil fel bod rhieni sy'n chwilio am waith, drwy ymgymryd ag addysg a hyfforddiant yn uniongyrchol gysylltiedig â sicrhau cyflogaeth, yn gymwys ar gyfer y cynnig gofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth a hwylusir gan y ddeddfwriaeth hon.

**Argymhelliad 7.** Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i ymestyn ei ddarpariaethau y tu hwnt i rieni sy'n gweithio, i gynnwys rhieni sy'n ceisio gwaith drwy ymgymryd ag addysg a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â sicrhau cyflogaeth, i'w diffinio mewn rheoliadau.

**113.** Fel rhan o'i ymgais am arweinyddiaeth Llafur, amlinellodd yr Aelod sydd â gofal dros y Bil hwn yn gyhoeddus ei farn bod addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant o safon uchel sydd ar gael i bawb yn helpu i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ac yn culhau'r bwlch cyrhaeddiad pan fydd plant yn dechrau'r ysgol. Yn sgil hyn, credwn y dylid diwygio'r Bil i roi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru ymestyn darpariaethau'r Bil i gategorïau eraill o rieni yn y dyfodol. Yn unol â'n hargymhellion eraill mewn perthynas â'r meini prawf cymhwystra, credwn y dylai rheoliadau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**Argymhelliad 8.** Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i roi pŵer i reoliadau i Weinidogion Cymru ymestyn ei ddarpariaethau i gategorïau eraill o riant yn y dyfodol. Dylai unrhyw reoliadau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol.

plentyn 2-3 oed sy'n gymwys, a hynny am 2½ awr y diwrnod, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos. Yn ogystal, dylai fod darpariaeth o 15 sesiwn o leiaf o ofal plant ar gyfer y teulu yn ystod gwyliau ysgol.

## Swm y gofal plant

**114.** Mae swm y gofal plant y mae'n rhaid ei ddarparu i blant yn Lloegr o dan ddeddfwriaeth debyg wedi ei nodi ar wyneb Deddf Gofal Plant 2016 fel "cyfnod sy'n cyfateb i 30 awr ym mhob un o 38 o wythnosau mewn unrhyw flwyddyn".[108]

**115.** Gofynnom i'r Gweinidog pam nad oedd manylion tebyg yn ymwneud â hawl ar wyneb y Bil. Dywedodd wrthym mai "y cynnig yw'r cynnig" ac y byddai 30 awr o ofal plant yr wythnos, 48 wythnos y flwyddyn, ar gael i rieni sy'n gweithio yn unol â'r meini prawf a fyddai'n dilyn yn y rheoliadau.[109] Dywedodd ei fod yn ffafrio ymagwedd a fyddai'n galluogi Gweinidog yn y dyfodol i ddweud "Wel, a dweud y gwir, rydym wedi dysgu y gallai fod angen cynnig gwahanol, cynnig gwell, rhywbeth gwahanol, rhywbeth a fydd yn cyrraedd ymhellach", ond pwysleisiodd nad oedd yn rhoi'r ymrwymiad hwnnw ar hyn o bryd.[110]

## EIN BARN AR BENNU SWM Y GOFAL PLANT

**116.** Rydym yn nodi dymuniad y Gweinidog i gadw digon o hyblygrwydd i allu rhoi newid ar waith yng ngoleuni tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg neu wersi a ddysgir. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â chasgliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol:

> "Mae hyblygrwydd a diogelu i'r dyfodol yn gysyniadau clodwiw i'w cynnwys mewn Bil, ond nid ar draul dealltwriaeth glir o'r hyn y bydd y Bil yn ei ddarparu ar adeg ei gyflwyno."[111]

**117.** Mae'r Gweinidog wedi dweud dro ar ôl tro y bydd y cynnig gofal plant a gaiff ei hwyluso gan y Bil (a'r rheoliadau i'w gwneud o dan y Bil) yr un fath â'r cynnig a amlinellir yn maniffesto etholiadau'r Cynulliad Llafur Cymru yn 2016. Yn sgil hyn, nid ydym yn gweld unrhyw reswm dilys dros beidio â diwygio'r Bil i gynnwys swm y gofal plant a fydd ar gael ar ei wyneb, fel yn achos Deddf Gofal Plant 2016, a oedd yn gymwys i Loegr.

**118.** Serch hynny, rydym yn cydnabod y gallai fod angen newidiadau i swm y gofal plant a gynigir ar hyn o bryd oherwydd tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a gwersi a ddysgir, neu yn sgil newid ym maint y pwrs cyhoeddus. O'r herwydd, rydym yn

---

[108] Deddf Gofal Plant 2016

[109] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 62]

[110] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 62]

[111] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Adroddiad ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), Mehefin 2018, paragraff 48

cynnig y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n galluogi diwygio swm y gofal plant drwy reoliadau. Credwn y dylai rheoliadau o'r fath fod yn destun gweithdrefn uwchgadarnhaol i alluogi ymgynghori â'r Cynulliad, gyda chyfle i ddylanwadu ar faint o ofal plant a gynigir.

**Argymhelliad 9.** Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyllido gofal plant ar gyfer plant cymwys rhieni sy'n gweithio, am gyfnod o 30 awr ym mhob un o 48 o wythnosau mewn unrhyw flwyddyn, neu gyfnod sy'n cyfateb i hynny (i gynnwys addysg y blynyddoedd cynnar sydd eisoes yn cael ei ariannu trwy awdurdodau lleol). Dylai'r Bil hefyd gynnwys darpariaeth sy'n galluogi diwygio swm y gofal plant yn y dyfodol trwy reoliadau sy'n destun y weithdrefn uwchgadarnhaol.

## Oedran "plentyn cymwys"

**119.** Nid yw oedran "plentyn cymwys" wedi ei nodi ar wyneb y Bil. Nodir yn Adran 1(2)(a) y Bil y bydd manylion sy'n ymwneud â phwy sy'n "blentyn cymwys" yn cael eu pennu yn y rheoliadau. Mae Adran 11(2) yn darparu bod y rheoliadau hyn yn destun y weithdrefn gadarnhaol.

**120.** Nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

> "Bydd cyllid ar gael o'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn dair oed hyd at y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn bedair oed."[112]

**121.** Canfu Arolwg Gofal Plant Cenedlaethol 2016-17 Llywodraeth Cymru fod "y galw am ofal plant ar ei uchaf rhwng 1 a 3 oed", ac

> "Yn achos plant 0-2 oed, roedd rhieni'n ei chael yn anos i fforddio gofal plant (55%) na rhai â phlant 3-4 oed."[113]

**122.** Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roedd mwyafrif y tystion yn fodlon gadael y manylion ynghylch oedran "plentyn cymwys" i'r rheoliadau. Fodd bynnag, roedd nifer uchel yn priodoli'r parodrwydd hwn i'r ffaith eu bod yn awyddus i ddysgu rhagor o'r dystiolaeth sy'n deillio o'r gwerthusiad o gynllun peilot y cynnig gofal plant cyn nodi'r amrediad oedran y dylai'r cynnig fod yn gymwys ar ei gyfer pan gyflwynir y cynllun yn genedlaethol. Crynhoir hyn gan y Comisiynydd Plant a ddywedodd:

[112] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.11

[113] Llywodraeth Cymru, Ystadegau ar gyfer Cymru, Bwletin Ystadegol, Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17, 30 Ionawr 2018

> "…in terms of the evidence, we know that, actually, from age two children from the most disadvantaged backgrounds benefit from that [childcare] input. […] I would be anxious about tying down too much any future shaping of the offer in terms of age group."[114]

**123.** Dywedodd rhanddeiliaid, gan gynnwys UNSAIN a Chwarae Teg, pe bai rheoliadau o dan y Bil yn nodi y byddai plant 3 a 4 oed i rieni sy'n gweithio (yn hytrach na phlant iau) yn gymwys ar gyfer y cynnig, byddai gofal plant yn "rhy hwyr" at ddibenion dychwelyd i weithio, yn enwedig i famau sydd wedi cymryd absenoldeb mamolaeth. Ymhelaethwyd ar hyn yn nhystiolaeth ysgrifenedig Chwarae Teg:

> "While an increase in the amount of childcare available for 3 and 4 year olds may support those working part time to increase their hours, we remain of the view that the support will come too late to support many mothers back into work following parental leave, potentially limiting the impact of the new Offer."[115]

**124.** Pan ofynnwyd i'r Gweinidog ynghylch oedran y plant cymwys, a'r dystiolaeth a ddarparwyd yng Ngwasanaeth Gofal Plant Cenedlaethol Cymru, dywedodd:

> "We're aware of the national survey for Wales […] But one of the things that they did flag up was, of course, that this barrier to working through absence of state-supported, funded childcare was a significant barrier. Well, that is a barrier for three-year-olds as well. […] So, it is a step forward, but, as I say, in that wider debate going forward it's not something that we close our ears to. […] And it is interesting in having a Bill designed around working parents that gives us the flexibility to go further should we want to and should funding allow in future."[116]

## EIN BARN AR OEDRAN "PLANT CYMWYS"

**125.** Ein dewis ni, wrth geisio sicrhau cyfraith glir a thryloyw, fyddai nodi oedran y "plentyn cymwys" ar wyneb y Bil hwn. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gawsom, nid ydym yn argyhoeddedig y bydd targedu cyllid ar gyfer plant 3 a 4 oed yn fwy effeithiol na thargedu plant 0 i 2 oed, er enghraifft, er mwyn cyflawni nod penodol y Bil o alluogi rhieni, yn enwedig mamau, i ddychwelyd i'r gwaith neu gynyddu'r oriau maent yn gweithio.

[114] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 211]

[115] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 11 – Chwarae Teg

[116] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 89]

**126.** O ganlyniad, nid ydym yn cynnig diwygio'r Bil hwn ar hyn o bryd i gynnwys oedran y "plentyn cymwys" ar ei wyneb. Fodd bynnag, credwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu hyn er mwyn:

- gallu diwygio'r Bil yn ddiweddarach i adlewyrchu'r dystiolaeth a gafwyd o werthusiad y cynllun peilot; neu
- i'r rheoliadau cymhwystra adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â'r grŵp oedran gorau i'w dargedu i fodloni nodau datganedig y Bil.

**Argymhelliad 10.** Bod Llywodraeth Cymru yn gyson yn adolygu oedran y "plant cymwys" a ddylai fod yn gymwys ar gyfer darpariaethau'r Bil. Mae hyn gyda golwg ar sicrhau naill ai:

- y gellir diwygio'r Bil yn ddiweddarach i gynnwys manylion oedran "plentyn cymwys", os yw'r dystiolaeth a gafwyd o werthusiad y cynllun peilot yn ddiamwys; neu
- bod y rheoliadau cymhwystra yn adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd ynghylch oedran penodol y "plentyn cymwys", os yw canlyniadau'r gwerthusiad yn amwys yn hyn o beth.

## Cyfnod Eithrio Dros Dro (cyfnod "gras")

**127.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, galwodd NASUWT am ystyried cynnwys darpariaethau yn y Bil neu mewn rheoliadau:

> "…to enable parents to retain their childcare place temporarily if they are no longer eligible for the extended entitlement, as the consequences for children may be significant."[117]

**128.** Adleisiwyd yr alwad hon gan Chwarae Teg, a oedd yn argymell y dylid cynnwys "cyfnod gras" mewn rheoliadau,[118] "yn enwedig yng nghyd-destun marchnad swyddi eithaf cyfnewidiol".[119]

[117] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 18 – NASUWT
[118] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 11 – Chwarae Teg
[119] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 244]

**Blwch 3: Eithriad Dros Dro (neu gyfnod "gras")**

- dan gynllun peilot presennol y cynnig gofal plant, pan fydd unigolyn yn dod yn anghymwys ar gyfer y cynnig gofal plant, maent yn dechrau ar gyfnod gras o 8 wythnos, ac yn ystod y cyfnod hwn gall eu plentyn barhau i dderbyn gofal plant wedi ei gyllido gan y Llywodraeth.
- Cyfrifoldeb y rhieni yw rhoi gwybod i'w hawdurdod lleol a'u darparwr bod eu hamgylchiadau wedi newid. Bydd y cyfnod gras yn rhedeg o'r adeg y byddant yn peidio â bod yn gymwys ar gyfer y cynnig, waeth pa bryd y mae rhiant yn darparu'r hysbysiad hwn.
- Ar y pwynt y daw cyfnod gras rhiant i ben, ni fydd bellach yn gallu cael mynediad at y cynnig ac mae'n dod yn gyfrifol am dalu i'r darparwr.[120]

**129.** Mewn ymateb i'r galwadau am gynnwys "cyfnod gras", dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod:

> "... yn cydnabod ei bod yn bwysig bod teuluoedd sy'n mynd yn anghymwys yn parhau i allu manteisio ar y cynnig am gyfnod penodol. Nid yn unig mae hyn yn rhoi sefydlogrwydd i'r plant ac i ddarparwyr y gofal plant, ond mae hefyd yn rhoi cyfle i'r rhieni gymryd camau i adfer eu hawl i'r cynnig[...] Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymroddedig i sicrhau cyfnod esemptio dros dro teg a chyson pan gaiff y cynnig ei gyflwyno yng Nghymru."

## EIN BARN AR Y CYFNOD EITHRIO DROS DRO (TEP)

**130.** Rydym yn cytuno â Chwarae Teg a NASUWT y dylid gwneud darpariaeth i alluogi rhieni i gadw eu cyllid gofal plant a'u lle dros dro os nad ydynt bellach yn gymwys o dan ddarpariaethau'r Bil.

**131.** Croesawn y trefniadau sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith ar gyfer y cyfnod gras. Rydym o'r farn eu bod yn angenrheidiol, er lles y plant a'r rhieni sy'n cael eu heffeithio gan unrhyw newid mewn cyflogaeth, ac o ran cynaladwyedd darparwyr sy'n darparu'r cynnig gofal plant yng Nghymru.

**132.** Nid yw'n glir o'r wybodaeth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru lle bydd y gofyniad i gael cyfnod gras yn cael ei nodi. Credwn fod angen mynd i'r afael â hyn.

[120] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 02 – Llywodraeth Cymru

**Argymhelliad 11.** Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i reoliadau a wneir o dan y Ddeddf wneud darpariaeth am gyfnod eithrio dros dro (cyfeirir ato hefyd fel "TEP" neu "cyfnod gras").

## 4. 4. Ymgynghori ar y rheoliadau a chraffu arnynt

**133.** Fel y dangosir uchod, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu nodi llawer o'r manylder sy'n sail i'r cymhwystra ar gyfer y cynnig gofal plant mewn rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â chymhwystra mewn rheoliadau. Bydd y rheoliadau a wneir dan y Bil hwn i gyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Blwch 4: Is-ddeddfwriaeth

- Ni ellir gwneud is-ddeddfwriaeth (fel rheoliadau, er enghraifft) oni bai fod deddfwriaeth sylfaenol (Deddf) yn rhoi'r pŵer i wneud hynny.
- Mae is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol angen cymeradwyaeth benodol y Cynulliad Cenedlaethol.
- Mae is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn dod yn gyfraith heb ddadl na phleidlais, ond gellir ei ddiddymu gan y Cynulliad Cenedlaethol os cyflwynir cynnig i'r perwyl hwnnw ac y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar hynny wedyn.
- Mae cyfran fach iawn o is-ddeddfwriaeth yn destun gweithdrefnau penodol a amlinellir yn y ddeddf alluogi. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys gweithdrefnau uwchgadarnhaol (enhanced affirmative procedures neu super-affirmative procedures fel y'u gelwir yn Saesneg) a gallant bennu, er enghraifft, ymagwedd benodol at ymgynghori cyn i'r is-ddeddfwriaeth gael ei wneud.

**134.** O ran y rheoliadau ar feini prawf cymhwystra, nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

> "Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol gan y bydd y rheoliadau hyn yn amlinellu'r meini prawf cymhwystra manwl ar gyfer y Cynnig ac felly bydd yn golygu goblygiadau sylweddol o ran polisi."[121]

**135.** Pan holwyd am ddigonolrwydd y weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y rheoliadau cymhwystra, dywedodd Chwarae Teg y dylai hynny fod yn ddigonol, "cyhyd â bod pobl yn gwybod am beth maen nhw'n pleidleisio".[122]

[121] Memorandwm Esboniadol, Tabl 5.1

[122] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 236]

**136.** Dywedodd darparwyr gofal plant a'u sefydliad ambarél, Cwlwm, eu bod yn hapus â'r hyblygrwydd i adael y manylion i reoliadau, ar yr amod bod digon o ymgynghori yn digwydd, yn enwedig mewn perthynas ag "elfennau gweinyddol a thalu'r cyllid gofal plant".[123] Pan ofynnwyd a oedd diffyg manylion ar wyneb y Bil yn gwaethygu eu pryderon ynghylch anawsterau gyda'r model talu yn Lloegr, dywedasant eu bod yn hyderus bod yr ymgynghoriad yn fwy cynhwysfawr a chynhwysol yng Nghymru, felly nid oeddent yn poeni'n ormodol.[124]

**137.** Dadleuodd y Comisiynydd Plant y byddai defnyddio gweithdrefn uwchgadarnhaol yn rhoi rhagor o gyfle i ymgynghori ar y rheoliadau cymhwystra, a chraffu arnynt. Dywedodd ei swyddog:

> "…given the timing of the introduction of the Bill and the fact that there's so much yet to see from the pilot phase, and the reporting not coming until the autumn, then I think that might be a justification for using the superaffirmative procedure. There's a lot more that needs to be taken account of."[125]

**138.** Pan holwyd y Gweinidog am briodoldeb y weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y rheoliadau hyn, dywedodd ei fod o'r farn bod Llywodraeth Cymru wedi taro ar y cydbwysedd cywir oherwydd:

> "…the affirmative allows, on some technical matters as well as more substantive matters, the ability to come back here and for the Assembly to say, 'No, we don't agree with you.'."

**139.** Fodd bynnag, aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud nad oedd ei "feddwl yn gaeedig" mewn perthynas â chymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol, ond byddai angen eglurder ar ba reoliadau oedd yn ddigon cadarn i gyfiawnhau ymagwedd o'r fath.[126] Pwysleisiodd y dylai rheoliadau technegol fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol,[127] gan esbonio y gellid bod wedi dadlau i'r rheiny fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol o ystyried eu natur.[128]

---

[123] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF

[124] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 86]

[125] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 288]

[126] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 162]

[127] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 162]

[128] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 126]

## EIN BARN AR DDEFNYDD O'R WEITHDREFN GADARNHAOL

**140.** Mae'r argymhellion yn gynharach yn y bennod hon yn ymwneud â meini prawf cymhwystra yn dangos ein hagwedd naturiol i roi cymaint o fanylion â phosibl am y cynnig craidd ar wyneb y Bil.

**141.** Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, o ystyried amseriad cyflwyno'r Bil a chasgliad y gwerthusiad o gynllun peilot y cynnig gofal plant, bydd angen gadael mwy o fanylion ynglŷn â chymhwystra i reoliadau nag y byddem ni wedi ei ddymuno fel arall. Fodd bynnag, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei adroddiad ar y Bil, mae angen i ehangder y pŵer a geisir yn y rheoliadau gael ei "wrthbwyso".[129]

**142.** Yn sgil hyn, ac arwyddocâd y meini prawf cymhwystra o ran effeithiolrwydd ac effaith y cynnig gofal plant yn y pen draw y mae'r Bil hwn yn ceisio ei hwyluso, credwn fod y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 1 y Bil yn teilyngu gweithdrefn uwchgadarnhaol, yn hytrach na chadarnhaol. Dylai'r weithdrefn uwchgadarnhaol hon alluogi ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a'r Cynulliad Cenedlaethol ar y meini prawf cymhwystra, ac unrhyw newid dilynol iddynt.

**Argymhelliad 12.** Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i ddarparu:

- y dylai rheoliadau a wneir o dan adran 1 fod yn destun gweithdrefn uwchgadarnhaol yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol; ac
- y dylid gwneud unrhyw newid i reoliadau a wnaed o dan adran 1 gan ddefnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol.

**143.** Nodwyd bod rheoliadau a wnaed o dan adran 2 y Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Rydym yn fodlon â'r dull hwn.

[129] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Adroddiad ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), Mehefin 2018, argymhelliad 6

# 5. Rhwystrau posibl o ran rhoi'r Bil ar waith

At ei gilydd, prin oedd y rhwystrau posibl a nodwyd yn y dystiolaeth rhag gweithredu darpariaethau'r Bil. Fodd bynnag, gellir priodoli hyn i raddau helaeth i'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r manylion yn cael eu gadael i reoliadau. Amlygwyd rhai heriau posibl i'r mecanwaith a grëir gan y Bil ynghylch darparu cyllid gan Weinidogion Cymru ar gyfer gofal plant i blant rhieni sy'n gweithio, a materion cysylltiedig, ac fe'u harchwilir yn y bennod hon. Trafodir rhwystrau i weithredu'r cynnig gofal plant ehangach ym mhennod 8.

## 5. 1. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel asiant cyflawni

**144.** Er bod consensws eang o blaid deddfu i greu system ymgeisio ar-lein genedlaethol wedi ei gweinyddu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar ran Llywodraeth Cymru, mynegwyd rhai pryderon mewn tystiolaeth.

### Problemau technegol yn Lloegr

**145.** Yn gyntaf, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at broblemau yn Lloegr pan gyflwynwyd y cynnig gofal plant yno (a weinyddir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi). Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Chwarae Teg yn crynhoi barn nifer o ymgyngoreion, gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru:

> "…we would urge the Welsh Government to learn from the previous challenges the HMRC has encountered in administering checks for the English childcare offer and ensure robust measures are in place to monitor the service and ensure no parents miss out on their entitlement."[130]

[130] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 11 - Chwarae Teg

**146.** Galwodd Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru a Chymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu datrys cyn comisiynu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.[131]

**147.** Nododd Llywodraeth Cymru a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi fod gwersi wedi cael eu dysgu - ac yn parhau i gael eu dysgu - fel rhan o gyflwyno'r cynllun yn Lloegr. Nodwyd "gobaith" y byddai'r materion hyn yn cael eu "hunioni" erbyn y bydd y cynllun wedi ei gyflwyno'n llawn yng Nghymru yn 2020.

**148.** Ar 9 Gorffennaf 2018, cawsom gopi o lythyr Prif Ysgrifennydd y Trysorlys i Lywodraeth Cymru, yn rhoi ei chydsyniad i ddarpariaethau'r Bil sy'n berthnasol i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Nodwyd yn y llythyr hwn:

> "Whilst HMRC are keen to begin work as soon as possible [ar ddatblygu'r system ymgeisio a gwirio gymhwystra ar gyfer y cynnig yng Nghymru], I must stress that the department's immediate focus will continue to be stabilising and improving the childcare service for existing customers."[132]

## Gwasanaethau Cymraeg

**149.** Yn ail, mynegwyd pryderon ynghylch capasiti a gallu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gyflwyno gwasanaeth dwyieithog. Dywedodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg nad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yw'r "opsiwn gorau o sicrhau cadarnhau darpariaeth Cymraeg".[133]

**150.** Pwysleisiodd darparwyr gofal plant bwysigrwydd darparu system ymgeisio a gwirio cymhwystra dwyieithog:

> "…beth sy'n bwysig ydy sicrhau bod pa gytundeb bynnag sy'n cael ei ddatblygu gyda HMRC yn dangos yn glir bod yn rhaid i'r holl ddogfennaeth, yr holl ohebiaeth, y cysylltiadau, a'r tudalennau gwe, sy'n cael eu rhannu â rhieni a darparwyr, fod ar gael yn ddwyieithog i bawb ar bob adeg, a'u bod yn gallu newid rhyngddyn nhw yn ôl yr angen. […] A hefyd, bod unrhyw ganllawiau'n ddwyieithog a bod y system gymorth dros y ffôn, neu beth bynnag sy'n cael ei ddatblygu—bod yna elfen o ddwyieithrwydd yn cael ei datblygu ar gyfer hynny, fel bod

[131] Tystiolaeth ysgrifenedig CCF 08 – Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru a CCF 12 – Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru

[132] Gohebiaeth gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol at y Llywydd, 9 Gorffennaf 2018

[133] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 19 – Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

> rhieni a darparwyr yn gallu cael mynediad ato fe yn Gymraeg neu yn Saesneg."[134]

**151.** Pan holwyd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch ei allu i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog, dywedodd ei gynrychiolydd wrthym:

> "I've been making my colleagues clear for some time that we do need to be more bilingual when we're representing the Welsh Government than maybe we might have to when we were just being HMRC."[135]

**152.** Aeth ymlaen i gadarnhau, fel asiant i Lywodraeth Cymru, y byddai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ddarostyngedig i gynllun iaith Llywodraeth Cymru[136] ac y byddai'r holl wasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.[137]

## Addasu i unrhyw newid i feini prawf cymhwystra

**153.** Yn ystod craffu Cyfnod 1, pwysleisiodd y Gweinidog yr hyblygrwydd a ddarparwyd drwy adael meini prawf cymhwystra ar gyfer y cynnig gofal plant i reoliadau, a'r cwmpas a roddai hynny i ddysgu gwersi ac addasu dulliau yn sgil y dystiolaeth sy'n deillio o gynllun peilot y cynnig gofal plant.

**154.** Amlygodd Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru yn ei thystiolaeth:

> "...a risk could arise if policy in England and Wales should differ in the future and this should be planned so that services are not disrupted."[138]

**155.** Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch sut byddai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ymateb i unrhyw newid i'r dull presennol o ymdrin â meini prawf cymhwystra neu reoliadau yn y dyfodol, dywedodd cynrychiolydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, mewn egwyddor, na fyddai'n broblem oherwydd byddai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gweithredu fel cyflenwr i Lywodraeth Cymru ar gynllun sydd wedi ei ddatganoli.[139] Serch hynny, roedd yn cydnabod:

---

[134] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 83]
[135] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 341]
[136] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 339]
[137] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 345]
[138] Tystiolaeth ysgrifenedig CCF 08 - Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru
[139] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 360]

> "…[HMRC] can't underwrite making any change that is wanted to any timescale, and we can't be sure what the price would be until we do the discovery work to work it out on a case-by-case basis."[140]

**156.** Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog:

> "The more complexity we add into it [the specification for HMRC], the more it increases the risk on delivery on time […] there would be a cost in adjusting a system […] We have run some of the figures past this, and at the moment, both in terms of delivering the offer as it currently is, of getting in to the HMRC in a very fast, slipstream way to deliver this commitment—we can do that now, but some of that flexibility I was talking about is enabled within the Bill that if we thought, based on the evidence, 'Well, it's going disproportionately, unfairly, to higher earning families' we could look at that in future."[141]

**157.** Yn ogystal, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r Bil fel y'i drafftiwyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddewis asiant darparu arall os oes angen.[142]

**158.** Nododd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yn ei llythyr i Lywodraeth Cymru ynghylch cydsyniadau:

> "The present agreement to integrate the Welsh offer into the service in based on the current plans from WG. I must make it clear that any changes to the operation of the 30 hours childcare scheme or eligibility criteria would generate further costs and will affect the timelines for delivery."[143]

## EIN BARN AR GYLLID A THOLLAU EI MAWRHYDI FEL YR ASIANTAETH GYF-LAWNI

**159.** Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gawsom, credwn fod y dewis a ffafrir o ddefnyddio Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel asiant cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer y system ymgeisio a gwirio cymhwystra yn synhwyrol. Rydym yn cydnabod yr adroddiadau ar yr heriau cynnar a wynebodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wrth weithredu'r cynnig gofal plant yn Lloegr, ond nodwn hyder y Gweinidog a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi bod y fath faterion wedi cael eu "hunioni" i raddau helaeth

[140] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 360]
[141] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 94]
[142] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 48]
[143] Gohebiaeth gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol at y Llywydd, 9 Gorffennaf 2018

erbyn hyn, a byddant yn cael sylw llawn mewn pryd ar gyfer y cyflwyno'r cynnig yng Nghymru yn 2020.

**160.** Mae'n hanfodol bod y gwasanaeth a ddarperir gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gwbl ddwyieithog. Rydym yn nodi sicrwydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ei fod yn sylweddoli bod yn rhaid iddo weithredu yn unol â safonau Cymraeg Llywodraeth Cymru (yn hytrach na'i safonau ei hun fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi) wrth weithredu fel asiant darparu. Fodd bynnag, byddem yn croesawu rhagor o sicrwydd gan y Gweinidog a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch y camau maent yn eu cymryd - y tu hwnt i atgoffa cydweithwyr o'r angen i fod yn "fwy dwyieithog" wrth gynrychioli Llywodraeth Cymru - i ddarparu eu holl wasanaethau sy'n ymwneud â'r cynnig gofal plant yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg.

**Argymhelliad 13.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i amlinellu, cyn y ddadl Cyfnod 1, pa drefniadau fydd yn eu lle i sicrhau bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gallu darparu system ymgeisio a gwirio cymhwystra cwbl ddwyieithog (ar-lein ac ar y ffôn) yn unol â darpariaethau'r Bil hwn.

**161.** Rydym yn croesawu cadarnhad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi mewn tystiolaeth lafar o'i hyblygrwydd i addasu ei wasanaethau os bydd angen newid y meini prawf cymhwystra sy'n sail i'r system ymgeisio. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno cyn cwblhau gwerthusiad o gynllun peilot y cynnig gofal plant, ac ymrwymiad y Gweinidog dro ar ôl tro i ystyried y dystiolaeth a dysgu ohoni.

**162.** Rydym yn cydnabod y gallai'r "hyblygrwydd" a ddaw i ganlyn y penderfyniad i adael y rhan fwyaf o'r meini prawf cymhwystra i reoliadau arwain at gostau ychwanegol ac oedi i'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r system.

**163.** Fodd bynnag, rydym yn bryderus na chafodd gwybodaeth bwysig yn ymwneud â'r sail y mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i weithredu fel asiant darparu – a nodwyd mewn llythyr dyddiedig 14 Mawrth 2018 – ei rhannu gyda'r Pwyllgor hwn tan 9 Gorffennaf 2018. Rydym yn hynod bryderus wrth ystyried y ffaith nad oedd tystiolaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi na'r dystiolaeth gan y Gweinidog yn datgan mor bendant y byddai unrhyw wahaniaeth rhwng y meini prawf cymhwystra arfaethedig yn creu costau pellach ac yn effeithio ar y llinellau amser ar gyfer cyflwyno. Pe baem ni wedi bod yn ymwybodol o gynnwys y llythyr hwn, byddem wedi bod mewn sefyllfa llawer gwell i herio Llywodraeth Cymru a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar

lefel yr hyblygrwydd a fydd yn berthnasol yn realistig i'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y cynnig gofal plant.

**164.** Pe bai'r meini prawf cymhwystra yn newid o'r rhai a amlinellir ar wyneb y Bil ac yn y Memorandwm Esboniadol a ddaw gydag ef, dylid cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig i sefydlu'r costau gweinyddol newydd. Dylid cyhoeddi hyn i lywio trafodaethau Aelodau ar y Bil yn ystod cyfnodau diweddarach. Os na wneir penderfyniadau ynghylch meini prawf cymhwystra cyn i'r Bil gwblhau ei daith drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon i lywio gwaith craffu ar y rheoliadau perthnasol yn y dyfodol.

**Argymhelliad 14.** Bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig pe bai'r meini prawf cymhwystra ar gyfer mynediad at gyllid gofal plant yn newid o'r rhai a amlinellir ar wyneb y Bil ac yn y Memorandwm Esboniadol. Dylid ymgymryd â'r gwaith hwn a'i gyhoeddi'n brydlon i lywio trafodaethau Aelodau ar y Bil yn ystod cyfnodau diweddarach neu, os na wneir penderfyniadau ar gymhwystra nes bydd y Bil wedi cwblhau ei daith drwy'r Cynulliad, mewn pryd i lywio gwaith craffu ar y rheoliadau perthnasol.

## 5. 2. Cynhwysiant digidol.

**165.** Nodir yn y Memorandwm Esboniadol y bydd y system ymgeisio a gwirio cymhwystra a gaiff ei sefydlu o dan y Bil "yn agored i bawb – ar-lein neu dros y ffôn, a rhagwelir y bydd lefelau a safonau'r gwasanaeth yr un fath drwy'r ddau gyfrwng".[144]

**166.** Eir ymlaen i ddweud:

> "Gwyddom yn sgil Arolwg Cenedlaethol Cymru fod problem allgáu digidol yn gymharol isel (15%) ymhlith oedolion (16+), ond ei bod yn uwch ymhlith pobl anabl (25%) a phobl 50 oed a throsodd (27%). I gyd-fynd â'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra arfaethedig, bydd llinell gymorth ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn gallu defnyddio system ar-lein, a bydd hyn yn helpu i leihau unrhyw anfanteision i'r rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol."[145]

**167.** Fodd bynnag, mynegodd UNSAIN bryder y gallai allgáu digidol fod yn broblem, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig. Mynegodd Cwlwm[146] a'r

[144] Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.3

[145] Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.4

[146] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 67]

Mudiad Meithrin bwyntiau tebyg, gan gyfeirio at "yr angen i alluogi unigolion i dderbyn cymorth i lenwi'r ffurflen ar-lein, a chynnig opsiwn o lenwi ffurflen papur ble mai dyma sydd ei hangen er mwyn galluogi'r unigolyn i'w cwblhau".[147]

**168.** Pan holwyd y Gweinidog am y materion hyn, ceisiodd ein sicrhau bod ei adran yn "edrych ar agweddau ar y bobl hynny sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol, sy'n esbonio'r llinellau cymorth cyfochrog a'r cymorth wyneb i wyneb".[148]

### EIN BARN AR Y RISG O ALLGÁU DIGIDOL

**169.** Credwn fod y risg o allgáu digidol yn un go iawn ac mae angen ei fonitro'n ofalus gan Lywodraeth Cymru a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel ei asiant. Er ein bod yn derbyn y bydd trefniadau yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer systemau ymgeisio dros y ffôn ac ar-lein, rydym yn pryderu mai dim ond "rhagweld" y bydd lefelau a safonau'r gwasanaeth yr un fath ar gyfer y ddau lwybr a nodir yn y Memorandwm Esboniadol. Credwn y dylai hyn fod yn ofyniad, yn enwedig oherwydd y ddarpariaeth wael o ran band eang mewn sawl ardal yng Nghymru.

**Argymhelliad 15.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n gliriach ei hymrwymiad i sicrhau bod risgiau eithrio digidol yn cael sylw, yn cael eu rheoli ac yn cael eu monitro fel rhan o unrhyw gytundeb ag unrhyw asiant cyflwyno ar gyfer gweinyddu'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra a grëir gan y Bil hwn.

## 5. 3. Trefniadau ar ôl sefydlu cymhwystra

**170.** Cynhaliwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd yn y Memorandwm Esboniadol ar y sail:

> "Pan fydd cymhwystra rhiant wedi'i ddyfarnu, caiff ei hysbysu am y canlyniad [...]Ar ôl cael ei hysbysu, bydd y rhiant yn cael cadarnhad i'w roi i'r darparwr gofal plant i ddangos ei fod yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig."[149]

**171.** Eir ymlaen i ddweud:

> "Yn Lloegr, yr Adran Addysg sy'n rheoli'r cam lle mae darparwr gofal plant yn gwirio cymhwystra rhieni ar gyfer cyllid o dan eu cynnig gofal plant nhw. Mae ganddynt system ddilysu lle gall Awdurdodau Lleol a rhai darparwyr gadarnhau bod cymhwystra rhieni'n parhau i fod yn

[147] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 03 - Mudiad Meithrin
[148] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 157]
[149] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 6.14-6.15

> ddilys cyn eu bod yn cynnig y gofal plant iddynt neu'n gwneud taliadau ar gyfer y gofal plant. Dyma un opsiwn posibl sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ei archwilio ar gyfer y rhan hon o'r broses. Fodd bynnag, nid oes angen penderfyniad yng nghwmpas y Bil hwn, ac felly nid yw wedi'i ystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan nad yw'r opsiynau amgen wedi'u harchwilio'n llawn eto."[150]

**172.** Er gwaethaf yr honiad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol nad yw trefniadau ôl-gymhwystra yn fater i'r Bil hwn, wrth siarad am weithredu'r Bil yn ymarferol, rhybuddiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru ei bod hi'n "bwysig gwybod lle mae rôl Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn stopio a lle mae rôl awdurdodau lleol yn dechrau".[151]

**173.** Yn yr un modd, wrth siarad ar ran darparwyr gofal plant, dywedodd Cwlwm:

> "We know that there have been issues in England around the system—once HMRC have checked the eligibility, what happens after that point. That's where the inconsistencies come in in England. I think that's what's important—whether that's through regulations or other administration systems, that's what needs to be very carefully thought out in Wales."[152]

**174.** Cadarnhaodd y Gweinidog yn ysgrifenedig, er bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn darparu grant i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar, sydd yn eu tro yn talu i'r darparwyr am ddarparu'r cynnig gofal plant dan y cynllun peilot (yn debyg i'r broses yn Lloegr), mae'r dull hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Roedd hefyd yn cydnabod y byddai taliadau cyflym a phrydlon yn hanfodol i ddarparwyr allu rheoli eu llif arian, a bod nifer o ddewisiadau'n cael eu hystyried, gan gynnwys:

- Awdurdodau lleol yn parhau i wneud taliadau i ddarparwyr;
- Llywodraeth Cymru yn gwneud taliadau i ddarparwyr yn uniongyrchol;
- Trydydd parti yn gwneud taliadau i ddarparwyr.[153]

**175.** Aeth ymlaen yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i nodi "na fydd y system dalu yn cynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, a bydd yn cael ei ddatblygu ar wahân i'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra rydym yn anelu at ei gyflwyno drwy'r Bil".[154]

---

[150] Memorandwm Esboniadol, paragraff 6.20

[151] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 344]

[152] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 17]

[153] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 01 – Llywodraeth Cymru

**176.** Er gwaethaf pwyslais y Gweinidog fod hyn ar wahân i drefniadau ar gyfer y Bil, pan holwyd y Gweinidog yn y sesiwn dystiolaeth lafar derfynol ynghylch pryderon Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â threfniadau ymarferol, roedd ateb ei swyddog yn awgrymu bod cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt a'r trefniadau sy'n cael eu gwneud o dan y Bil gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi:

> "…we need to work out when they [llywodraeth leol] would actually need to know that information [ynghylch cymhwystra] locally to make their decisions on place allocation [ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar], and build that into what we're doing with HMRC."[155]

## EIN BARN AR DREFNIADAU "AR ÔL CYLLID A THOLLAU EI MAWRHYDI"

**177.** Fel y nodwyd ym mharagraff 87 yr adroddiad hwn, rydym yn dadlau yn erbyn honiad Llywodraeth Cymru bod trefniadau ar gyfer gweithredu'r cynnig gofal plant ar ôl y system ymgeisio a gwirio cymhwystra "y tu allan"[156] i gwmpas y Bil hwn.

**178.** Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi dewis gwahanu'r system dalu o'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra a gaiff ei gweinyddu o dan y Bil. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd gan awdurdodau lleol a darparwyr ynghylch pwysigrwydd cael y rhan hon o'r system yn iawn, credwn fod angen rhagor o eglurder ynghylch trefniadau ar ôl i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi gwblhau ei waith. Os yw'r cynnig gofal plant am weithredu'n effeithiol, gellir dadlau bod y trefniadau ar gyfer talu darparwyr yr un mor bwysig â chael y system ymgeisio a gwirio cymhwystra yn iawn. O'r herwydd, rydym yn pryderu bod penderfyniadau terfynol am yr ymagwedd yn cael eu cymryd yn hwyr. Rydym o'r farn bod argymhelliad 6, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r cynllun gweinyddol ar sail statudol, o gymorth gyda hyn.

## 5. 4. Rhwystrau posibl eraill sy'n deillio o'r rheoliadau a wnaed o dan y Bil a'r cynnig gofal plant ehangach

**179.** Roedd swm sylweddol o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni yn cynnwys sylwadau ar faterion yn ymwneud â'r cynnig gofal plant ehangach. Er bod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â phennu manylion y cynnig gofal plant ar wyneb y Bil,

---

[154] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 01 – Llywodraeth Cymru

[155] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 278]

[156] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraffau 99 a 103]

darperir llawer o'r manylion sy'n ymwneud â'r cynnig yn y rheoliadau a wneir o dan y ddeddfwriaeth hon.

**180.** Wrth roi sylwadau ar rwystrau posibl a allai atal y Bil rhag cyflawni ei nodau penodol, nododd rhanddeiliaid rai o'r heriau tebygol – nad ydynt yn heriau dibwys – a ddaw i ganlyn y cynnig gofal plant ehangach, gan gynnwys:

- pryderon Oxfam Cymru,[157] darparwyr gofal plant,[158] ac Estyn[159] y gallai cymhlethdod y system o ymgeisio i awdurdodau lleol ar gyfer elfennau addysg blynyddoedd cynnar y cynnig a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer yr elfennau gofal plant achosi dryswch, ac y gallai hynny effeithio ar y nifer sy'n manteisio arno;
- cydnabyddiaeth gan y mwyafrif o dystion y gallai'r angen (mewn nifer fawr o achosion) am fynediad at addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant mewn gwahanol leoliadau achosi anawsterau i rieni sydd mewn gwaith ond a fydd angen cludo eu plant o un lleoliad i'r llall. Roeddent yn derbyn y gallai hyn o bosibl effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar y cynnig, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, a pheri rhwystredigaeth o ran nodau penodol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil; a hefyd
- cydnabyddiaeth, gan gynnwys gan y Gweinidog,[160] y gallai caniatáu costau ychwanegol o hyd at £37.50 yr wythnos (£7.50 y diwrnod) ar gyfer pethau fel prydau bwyd olygu bod y cynnig gofal plant yn heriol (ac yn anfforddiadwy, o bosibl) i'r rhai sydd ar yr incwm cymwys isaf.

**181.** Mae'r heriau hyn - ynghyd ag eraill a nodwyd yn y dystiolaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â'r cynnig gofal plant ehangach – yn cael eu harchwilio'n fanylach yn *y bennod nesaf – canlyniadau anfwriadol posibl y Bil* a *phennod 8 - materion ychwanegol sy'n ymwneud â'r cynnig gofal plant ehangach*.

[157] Tystiolaeth ysgrifenedig CCF 20 – Oxfam Cymru

[158] Er enghraifft, gweler tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 03 – Mudiad Meithrin

[159] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 4]

[160] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 41]

# 6. Canlyniadau anfwriadol posibl y Bil

Mae'r rhan fwyaf o'r canlyniadau anfwriadol a nodwyd yn ein gwaith casglu tystiolaeth naill ai'n gysylltiedig â materion a fydd yn cael eu diffinio yn y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn yn ddiweddarach, neu'n codi o'r cynnig gofal plant ehangach. Serch hynny, tynnwyd sylw at rai o ganlyniadau anfwriadol uniongyrchol y Bil - yn enwedig o ganlyniad i ganolbwyntio ar rieni sy'n gweithio yn unig. Trafodir y rhain yn y bennod hon.

**182.** Fel y dywedwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roedd y fanyleb ar wyneb y Bil y byddai ei darpariaethau yn berthnasol i "blant cymwysedig rhieni sy'n gweithio" yn unig yn ffynhonnell trafodaeth sylweddol yn ystod ein trafodaeth Cyfnod 1. Roedd rhan o'r trafodaethau hyn yn ymwneud â'r canlyniadau anfwriadol y gallai hyn eu creu, yn enwedig:

- hwyluso darpariaeth ddeuol a allai fod yn gymhleth, a materion cysylltiedig yn ymwneud ag alinio ceisiadau, oherwydd y byddai pob rhiant yn gallu cael mynediad at addysg y blynyddoedd cynnar fel rhan o'r cynnig gofal plant, ond dim ond rhieni sy'n gweithio fyddai'n gallu cael mynediad at yr elfen gofal plant; a'i
- effaith bosibl ar gydraddoldeb a hawliau plant, yn fwyaf nodedig mewn perthynas â datblygiad plant, parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol.

**183.** Fodd bynnag, roedd tystiolaeth ysgrifenedig Chwarae Teg yn crynhoi'r farn gyffredinol ymhlith rhanddeiliaid fod y manylion cyfyngedig ar wyneb y Bil yn golygu y byddai'r rhan fwyaf o'r canlyniadau anfwriadol yn codi o'r rheoliadau. Am y rheswm hwn, pwysleisiodd bwysigrwydd asesu'n fanwl fanylion y rheoliadau hynny "i sicrhau bod y Cynnig yn cyflawni ei nodau ac yn ddigon ystwyth i addasu pe bai angen newidiadau i feini prawf cymhwystra a phrosesau".[161]

[161] Tystiolaeth ysgrifenedig CCF 11 – Chwarae Teg

## 6. 1. Darpariaeth ddeuol ac alinio ceisiadau

**184.** Cododd nifer o randdeiliaid bryderon ynghylch y ddarpariaeth ffrwd ddeuol a allai fod yn gymhleth y mae'r Bil yn ei hwyluso, drwy ychwanegu gofal plant a gyllidir gan Lywodraeth Cymru i blant cymwys gyfer rhieni sy'n gweithio ar ben y ddarpariaeth bresennol o addysg blynyddoedd cynnar ran-amser gyffredinol ar gyfer plant 3 a 4 oed.

**185.** Esboniodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru:

> "… local authorities will remain responsible for administering their systems for the provision of 10 hours of early years education entitlement. This means parents will have to apply separately to their local authority and to Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi to access the full, combined, 30 hours of Foundation Phase Nursery provision and childcare. It will be important that the separate systems work together seamlessly for parents."[162]

**186.** Fe wnaeth llawer o ddarparwyr gofal plant,[163] Oxfam Cymru,[164] ac Estyn[165] godi'r posibilrwydd y gallai hyn achosi dryswch anfwriadol ymhlith rhieni yng Nghymru. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, eglurodd Mudiad Meithrin:

> "Os defnyddir system CThEM, yr opsiwn a ffafriwyd, ar gyfer cynnal gwiriadau'r cynllun, rhaid bydd sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r trefniadau lleol i geisio am y 10 awr o addysg gynnar y mae gan y plant yr hawl iddynt. Nodwn hefyd, bod darpariaeth oriau addysg gynnar yn wahanol ar draws y siroedd, a bydd angen darparu gwybodaeth glir i rieni am faint o oriau gofal plant sydd ar gael iddynt ym mhob awdurdod lleol."[166]

**187.** Pwysleisiodd Cwlwm bwysigrwydd yr alinio rhwng systemau'r prosesau ymgeisio, yn enwedig rôl Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wrth gyfeirio rhieni at gymorth arall sydd ar gael:

---

[162] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 21 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

[163] Er enghraifft, gweler tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 03 – Mudiad Meithrin

[164] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCf 20 – Oxfam Cymru

[165] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 4]

[166] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 03 – Mudiad Meithrin

> "it's vital that they [HMRC] do signpost parents towards the general offer, or universal offer for the nursery period in the foundation phase because, given that's for everybody, they might have a note from HMRC saying that they're not eligible for the entire 30 hours, but there needs to be something in that feedback that will point them back to the fact that they have the right to have the offer in the foundation phase and the educational element, and that they don't think that they're not eligible for anything because they're not eligible for that additional element that comes under the 30 hours as well. That should be something that should be fed into the administrative systems—the reply from HMRC, which signposts them back to local authority departments that do administer the foundation phase element."[167]

**188.** Pan ofynnwyd faint o gyfeirio y gallai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ei gynnig, cadarnhaodd ei gynrychiolydd:

> "…the outputs that would go to an ineligible parent—there's no reason at all why they cannot include what that parent is eligible for as well as what they're not eligible for, and I expect them to do so."[168]

**189.** Cyfeiriodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi hefyd at ei gwefan Dewisiadau Gofal Plant ac eglurodd "nad oedd rheswm pam na ellir ei diweddaru i gynnwys data am Gymru yn ogystal".[169]

**190.** Roedd y Gweinidog yn cydnabod y dryswch a'r cymhlethdod posibl a allai godi o ganlyniad i greu system yn sgil y Bil lle byddai rhieni yn ymgeisio i'r awdurdod lleol am addysg blynyddoedd cynnar ac i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi am ofal plant. Fodd bynnag, eglurodd fod rhieni yn barod yn delio ag amrywiaeth o gymorth hyd yn oed heb ystyried y cynnig gofal plant. Pwysleisiodd, o ganlyniad, fod Llywodraeth Cymru wedi cyllido gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd ym mhob awdurdod lleol i gyfeirio'n glir rhwng y gwahanol raglenni.[170]

**191.** O ran y cynnig gofal plant newydd yn benodol, dywedodd y Gweinidog fod strategaeth gyfathrebu yn cael ei datblygu a'i phrofi gyda'r Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar. Eglurodd mai pwrpas y strategaeth hon oedd sicrhau y

---

[167] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 62]
[168] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 364]
[169] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 368]
[170] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraffau 109-110]

rhoddir gwybodaeth i rieni nid yn unig am addysg blynyddoedd cynnar a'r cynnig gofal plant, ond hefyd cymorth ychwanegol fel y credyd treth plant.[171]

## EIN BARN AR ALINIO CEISIADAU AM Y CYNNIG

**192.** Credwn fod potensial clir i ddryswch a chymhlethdod ychwanegol godi fel canlyniad anfwriadol o ddarpariaethau'r Bil hwn. Er ein bod yn cydnabod bod disgwyl i rieni ddelio â nifer o raglenni gwahanol yn barod yn dibynnu ar amgylchiadau eu teuluoedd, mae'n hollbwysig bod y system ymgeisio yr eir ati drwy Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi ei halinio'n ddi-dor gyda'r rhai sydd eisoes yn bodoli trwy awdurdodau lleol.

> **Argymhelliad 16.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac awdurdodau lleol i amlinellu, cyn y ddadl Cyfnod 1, pa drefniadau fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gallu cyfeirio rhieni yn glir at y cymorth arall y gallent fod yn gymwys i'w gael. Dylai hyn gynnwys asesiad o ddichonoldeb (o ran amserlenni, costau ac eglurder gwybodaeth) diweddaru gwefan Deiwsiadau Gofal Plant Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gynnwys manylion y cynnig yng Nghymru.

**193.** Rydym yn amlinellu ein barn ar oblygiadau ehangach y ddarpariaeth llif deuol ym *mhennod 8 - materion ychwanegol sy'n ymwneud â'r cynnig gofal plant ehangach.*

## 6. 2. Datblygiad plant, parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol

**194.** Amlinellir y dystiolaeth a gawsom mewn perthynas ag effaith bosibl ffocws y Bil ar rieni sy'n gweithio ar ddatblygiad plant, parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol ym mharagraffau 89 i 107 o'r adroddiad hwn. Fel yr esboniwyd ym mharagraffau 108 i 113, mae gennym bryderon sylweddol am y canlyniadau anfwriadol a allai ddeillio o hyn, ac rydym yn galw ar y Gweinidog i fynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy dderbyn argymhellion 7 ac 8.

### Hawliau plant

**195.** Roedd tystiolaeth y Comisiynydd Plant yn hynod o feirniadol o'r Asesiad Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Bil hwn.[172] Dywedodd wrthym:

[171] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 110]

> "I'm concerned that although the CRIA does mention some general policy intent at the beginning, it then treats that policy intent very lightly in terms of saying that this is really just about the mechanism for paying parents. I'm particularly concerned that it doesn't address article 2 [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn],[173] the right for all children to be treated equally, and one of the ways in which they shouldn't be treated unequally is on the status of their parents' employment."[174]

**196.** Ymhelaethodd y Comisiynydd Plant:

> "The other article I feel is glaringly unaddressed is article 29—the right to be assisted to achieve your potential. And again I feel that, by only concentrating on children who will receive this offer and not on children who will be excluded from this offer, it doesn't address the fact that it's not assisting children from the most disadvantaged backgrounds to achieve their potential."[175]

**197.** Mewn perthynas ag erthygl 3 y Confensiwn - sy'n datgan, yn yr holl gamau sy'n ymwneud â phlant, boed y rheiny'n cael eu cynnal gan sefydliadau lles cymdeithasol cyhoeddus neu breifat, y llysoedd cyfreithiol, awdurdodau gweinyddol neu gyrff deddfwriaethol, lles gorau'r plentyn fydd yr ystyriaeth sylfaenol - dywedodd y Comisiynydd Plant:

> "I feel this whole policy intent behind this doesn't do that for the most disadvantaged children".[176]

**198.** Nododd y Comisiynydd Plant yng nghasgliadau ei sylwadau ysgrifenedig ar yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, "nad yw'n bosibl i Weinidogion ddeall a yw'r geiriad sydd ar wyneb y Bil yn briodol" heb gynnal dadansoddiad gwell a mwy cynhwysfawr o effaith darpariaethau'r Bil ar bob plentyn.[177]

---

[172] 224 Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 02 – Comisiynydd Plant Cymru

[173] Cytundeb rhyngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n amddiffyn hawliau dynol plant dan 18 oed. O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 mae dyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau o sylwedd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i brotocolau dewisol.

[174] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 262]

[175] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 262]

[176] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 264]

[177] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 02 – Comisiynydd Plant Cymru

**199.** Pan ofynnwyd i Estyn am ganlyniadau anfwriadol posibl ffocws y Bil ar rieni sy'n gweithio yn cynyddu'r bwlch rhwng datblygiad plant, eu parodrwydd ar gyfer yr ysgol a'u cyrhaeddiad addysgol, pwysleisiodd ei gynrychiolwyr:

- mae gan barodrwydd ar gyfer yr ysgol ystyr "eang", ac mae'n cyfeirio at fod yn barod ar gyfer dysgu yn fwy na'r cam o fynd i'r ysgol ei hun;[178]
- mae gan bob plentyn 3 a 4 oed fynediad at addysg blynyddoedd cynnar ran-amser;[179] ac
- ni ddylid tybio bod plentyn sydd gartref gyda rhiant dan anfantais, gan fod "rhywfaint o'r ymchwil yn dweud bod amser gyda mam sydd wedi cael addysg dda yn arwain at fanteision enfawr i blentyn".[180]

**200.** Fodd bynnag, pan heriwyd Estyn ar y sail bod tystiolaeth sylweddol yn bodoli i ddangos bod plant o gefndiroedd tlotach yn fwy tebygol o fod yn llai parod ar gyfer yr ysgol, atebodd:

> "We recognise that international evidence points to the fact that, if the child requires intervention, the earlier the intervention is in place, the better the long-term prospects for that individual."[181]

**201.** Pan ofynnwyd a oedd unrhyw ystyriaeth wedi cael ei rhoi i effaith trefniadau'r cynnig gofal plant ar barodrwydd plant a aned yn ystod misoedd yr haf - a fyddai'n derbyn dau dymor yn llai o gymorth gofal plant cyn mynd i'r ysgol na'u cymheiriaid hŷn - ymatebodd Estyn fod addysg y blynyddoedd cynnar:

> "…about the child's stage of learning rather than their age, and the curriculum is designed as such then to ensure that children, whatever their starting point, develop at an appropriate pace, which is appropriate to them as individuals."[182]

**202.** Mewn perthynas â phlant sy'n cael eu geni yn ystod misoedd yr haf, dywedodd y Comisiynydd Plant fod "dadl arall yn gyfan gwbl [ynghylch cydraddoldebau] o ran a ddylem gadw disgwyliad anhyblyg i blant sydd wedi eu geni yn ystod misoedd yr haf i ddechrau ysgol yn llawn amser ym mis Medi", ond

---

[178] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 165]
[179] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 163]
[180] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 167]
[181] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 169]
[182] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 74], 8 Mehefin 2015

dylid gofyn i awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar edrych ar hyn a gofyn am adborth gan rieni ar yr effaith.[183]

**203.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod gwaith ar y gweill yn Llywodraeth Cymru i edrych ar "amrediad cyfan" datblygiad gofal plant y blynyddoedd cynnar. Pwysleisiodd, fodd bynnag, nad oedd y gwaith hwn yn dechrau â "dalen wag", a bod "swm aruthrol" o gymorth eisoes ar gael i bob plentyn.[184]

## EIN BARN AR ASESU EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

**204.** Mae ein pryderon am ddull Llywodraeth Cymru o asesu effaith ei phenderfyniadau ar hawliau plant wedi cael eu gwyntyllu'n helaeth.[185] Credwn y dylai Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant lywio ymagweddau polisi ystyrlon, ac nid dim ond myfyrdod sylfaenol tuag at ddiwedd y broses.

**205.** Mae clywed y Comisiynydd Plant yn disgrifio'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Bil hwn fel un "gwirioneddol denau" yn peri pryder mawr i ni. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried maint y buddsoddiad yn y cynnig gofal plant mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei hwyluso a'r canlyniadau anfwriadol a allai fod yn sylweddol o ran cynyddu'r bwlch rhwng ein plant mwyaf breintiedig a difreintiedig o ran datblygiad plant, parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol.

**206.** Er bod Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ei hasesiadau effaith ar y fframwaith gweinyddol a grëwyd gan y Bil, credwn fod cynnwys y geiriau "rhieni sy'n gweithio" a'r pwerau gwneud rheoliadau cyffredinol yn golygu y dylai'r asesiadau effaith ar gyfer y Bil hwn fod ar raddfa llawer ehangach.

**207.** Nodir yn y Memorandwm Esboniadol y caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant "ei ailystyried ar ôl Cyfnod 1 taith y Bil drwy'r Cynulliad Cenedlaethol".[186] Ar sail y dystiolaeth rydym wedi ei chlywed, rydym o'r farn y dylai'r Asesiad diwygiedig hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant fod yn ehangach a chanfod effaith ffocws y Bil hwn ar rieni sy'n gweithio ar blant *yn gyffredinol*, nid dim ond y rhai sy'n gymwys ar gyfer cyllid gofal plant o dan ei ddarpariaethau. Dylai'r Asesiad diwygiedig o'r

[183] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraffau 255 a 257]

[184] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 28]

[185] Gweler, er enghraifft, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19, Rhagfyr 2017 a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwybodaeth gyllidebol ac Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, 15 Mai 2018

[186] Memorandwm Esboniadol, tud.54

Effaith ar Hawliau Plant gael ei gyhoeddi cyn dechrau Cyfnod 3, i roi cyfle digonol i'r Aelodau gynnig ac ystyried unrhyw newid i'r Bil i adlewyrchu ei ganfyddiadau.

**208.** Credwn fod angen gwaith pellach hefyd i sefydlu'r effaith y gallai trefniadau cyfredol ar gyfer y cynnig gofal plant ei chael ar blant a aned yn ystod misoedd yr haf.

**Argymhelliad 17.** Bod Llywodraeth Cymru yn dapraru, cyn dechrau Cyfnod 3, Asesiad diwygiedig o'r Effaith ar Hawliau Plant. Dylai'r Asesiad hwn ystyried effaith y Bil ar blant *yn gyffredinol*, nid dim ond y rhai sy'n gymwys o dan ei ddarpariaethau ar gyfer y cynnig gofal plant. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni pryderon y Comisiynydd Plant y gallai canlyniad anfwriadol sylw'r Bil ar blant cymwys i rieni sy'n gweithio gynyddu'r bwlch rhwng ein plant mwyaf breintiedig a difreintiedig o ran datblygiad, eu parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol.

**Argymhelliad 18.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei dadansoddi a'i defnyddio, fel rhan o'r gwerthusiad o'r cynnig gofal plant, i asesu effaith ei drefniadau ar blant sy'n cael eu geni yn ystod misoedd yr haf, i lywio ffurf y cynnig gofal plant a fydd yn cael ei gyflwyno'n genedlaethol yn y pen draw.

# 7. Goblygiadau ariannol y Bil

Derbyniwyd tystiolaeth gyfyngedig ar oblygiadau cyllidol ac ariannol y Bil. Roedd gwybodaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â goblygiadau ariannol y Bil yn gysylltiedig â'r costau yn ymwneud â gweinyddu'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra. O gofio'r manylion cyfyngedig ar wyneb y Bil, cododd cwestiynau am y graddau y gallai costau gynyddu petai newidiadau i gymhwystra yn arwain at yr angen i addasu system Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau. Mae'r bennod hon yn trafod y materion hyn a materion cysylltiedig.

## 7. 1. Costau'r Bil

**209.** Nodir pedwar dewis ar gyfer gweinyddu ceisiadau a gwirio cymhwystra ar gyfer y cynnig gofal plant yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil, ynghyd â gwerthusiad Llywodraeth Cymru o bob un.

**210.** Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd y dewis y mae'n ei ffafrio, sef contractio Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel ei asiant i weinyddu'r cynllun, yn costio £9.12 miliwn rhwng 2019-20 a 2024-25.[187] Ar ôl cwrdd â chostau pontio cychwynnol o £3.6 miliwn yn 2019-20, mae'n amcangyfrif na fydd y costau blynyddol yn fwy na £1.13 miliwn.[188] Mae costau'r dewisiadau eraill, fel y'u hamcangyfrifwyd, yn amrywio o £15.55 miliwn[189] i £26.83 miliwn[190] yn ystod yr un cyfnod.

**211.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfeirio at weinyddu'r cynllun yn unig, nid y cynnig gofal plant, ac amcangyfrifir y bydd y "ffigur gweithredol" oddeutu £100 miliwn y flwyddyn.[191]

---

[187] Memorandwm Esboniadol, tud.46

[188] Memorandwm Esboniadol, tud.46

[189] Memorandwm Esboniadol, tud.49

[190] Memorandwm Esboniadol, tud.42

[191] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 22 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [paragraff 39]

### Amcangyfrif o nifer y plant cymwys

**212.** Cododd Comisiynydd y Gymraeg bryderon ynghylch cywirdeb y ffigurau a ddefnyddiodd Llywodraeth Cymru yn ei gwaith cyfrifo o ran nifer y plant cymwys:

> "Er bod 70,000 o blant 3-4 oed yng Nghymru, mae nifer sylweddol o'r rhain eisoes mewn dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion (hynny yw, gan eu bod yn 4 oed cyn mis Medi). Mae'n bosib bod y rhagamcanion presennol yn goramcangyfrif faint o blant fydd yn gymwys am y cynnig, ac felly hefyd yn goramcangyfrif cost y cynnig 30 awr."[192]

### EIN BARN AR GOSTAU'R BIL

**213.** Y ffigwr o 40,000 o blant cymwys yw'r sail ar gyfer cyfrifiadau'r Memorandwm Esboniadol o gostau gweinyddu'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra (yn ogystal ag ar gyfer y cynnig gofal plant yn fwy eang). O gofio am bryderon Comisiynydd y Gymraeg, byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut cyrhaeddodd y ffigur o 40,000.

**Argymhelliad 19.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi cyn y ddadl Cyfnod 1:

- sut cyfrifwyd bod nifer y plant a fyddai'n gymwys o ran y ffaith bod eu rhieni yn gweithio yn 40,000, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol; ac
- a geiswyd amcangyfrif nifer y plant a fyddai'n gymwys yn y tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd, ynteu ai dim ond cyfanswm nifer y plant tair oed (yn ogystal â phlant pedair oed) a ddefnyddiwyd.

## 7. 2. Effaith newidiadau i reoliadau

### Costau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

**214.** Fel y nodwyd yn adran 5.1 o'r adroddiad hwn, gallai'r costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra a grëwyd gan y Bil hwn newid pe bai manylion y rheoliadau a wnaed o dan y Bil, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â chymhwystra, yn wahanol iawn i'r bwriadau a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol.

**215.** Cydnabu cynrychiolydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi y gallai'r rheoliadau newid yn sylweddol, a dywedodd:

[192] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 28 Mehefin 2018, Papur i'w nodi 5

> "We know the scheme is being trialled in Welsh local authorities at the moment, and we've spoken to the Welsh Government about what sort of scheme they're looking to provide. A lot of these things need to be sorted out when we go through the discovery phase of what tweaks we need to make to the childcare service to actually provide the Welsh version of the scheme. They don't have to be exactly the same, but obviously, any parts that are different will need to be tweaked. […] Obviously, any differences would need to be paid for. They might make the scheme more difficult to deliver, but we'll just talk between us and the Welsh Government to sort it out."[193]

**216.** Pan holwyd cynrychiolydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sut byddai'r newidiadau a'r costau hyn yn cael eu trafod a'u cytuno, dywedodd:

> "I would expect a memorandum of understanding to address how the two parties would try and work out how any changes should be done. Depending on what the changes were and what impact they had on the IT, there might well be a cost to the changes, and if there's a cost to the changes then the Welsh Government would have to pay that cost."[194]

**217.** Nodwyd yn llythyr Prif Ysgrifennydd y Trysorlys i Lywodraeth Cymru ynglŷn â chydsyniadau y byddai unrhyw newid "yn creu rhagor o gostau" ac y byddai "angen cytundebau ar wahân ac y byddai angen eu cwmpasu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd".[195]

## Costau i awdurdodau lleol

**218.** Nid yw'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn pennu unrhyw ddyletswydd statudol newydd ar awdurdodau lleol. Serch hynny, mae'n cynnwys pŵer yn adran 7 i "roi swyddogaethau neu osod rhwymedigaethau ar awdurdod lleol mewn cysylltiad â chyllid o dan adran 1 [ariannu gofal plant i blant rhieni sy'n gweithio]".[196]

**219.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru:

[193] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 278]
[194] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 352]
[195] Gohebiaeth gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol at y Llywydd, 9 Gorffennaf 2018
[196] Bil Cyllid Gofal Plant (Cymru) [fel y'i cyflwynwyd]

> "Where such legislation is made that may impact on local government, the WLGA hopes that WG will consult with local government on the details as and when appropriate. Should such legislation impose any new obligations on local authorities, the WLGA hopes that WG will ensure any financial implications are fully costed and appropriately funded."[197]

## EIN BARN AR GOSTAU NEWIDIADAU I REOLIADAU

**220.** Rydym yn ailadrodd ein sylwadau yn gynharach yn yr adroddiad hwn bod:

- y diffyg manylion ar wyneb y Bil yn ei gwneud hi'n anodd rhoi sylwadau ar gostau ac effaith ei ddarpariaethau heb edrych ar y rheoliadau perthnasol a wneir o dan y Bil; a
- dylid fod wedi rhannu llythyr Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, dyddiedig 14 Mawrth 2018, ac sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am sefyllfa Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi mewn perthynas â'r costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw newid i reoliadau, yn gynharach na 7 niwrnod gwaith cyn ein dyddiad cau ar gyfer adrodd.

**221.** Amlinellir ein barn ni mewn perthynas â'r newidiadau posibl i gostau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r angen am Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig mewn amgylchiadau o'r fath ym mharagraffay 162 i 164 ac argymhelliad 14 yn yr adroddiad hwn.

**222.** O ran costau posibl ar gyfer awdurdodau lleol yn y dyfodol, credwn y dylai unrhyw rwymedigaeth newydd a osodir ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Bil hwn ddod gyda'r swm angenrheidiol o arian i'w chyflwyno.

**Argymhelliad 20.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw rwymedigaeth newydd a roddir ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Bil hwn yn dod gyda'r swm angenrheidiol o arian i'w gyflawni.

---

[197] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 21 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

# 8. Materion ychwanegol sy'n ymwneud â'r cynnig gofal plant ehangach

Roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom yn ystod ein hystyriaeth o egwyddorion cyffredinol y Bil hwn yn gysylltiedig â'r cynnig gofal plant. Mae'r bennod hon yn amlinellu materion y tynnwyd ein sylw atynt a allai godi pe bai'r Bil yn symud ymlaen, neu pe bai mecanwaith an-neddfwriaethol arall ar gyfer cyflwyno'r cynnig gofal plant yn genedlaethol yn cael ei fabwysiadu. O gofio y gellid defnyddio'r rheoliadau sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn - neu y Bil wedi ei ddiwygio - i fynd i'r afael ag unrhyw un o'r materion hyn neu bob un ohonynt, rydym yn gwneud cyfres o argymhellion y credwn y dylid eu gweithredu fel rhan o waith Llywodraeth Cymru ar ei gynnig gofal plant.

## 8. 1. Creu llif deuol o ddarpariaeth

**223.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Estyn yn crynhoi rhai o'r pryderon y tynnwyd ein sylw atynt mewn perthynas â natur "dwy ffrwd" y cynnig gofal plant:

> "Where education and care are provided on different sites, parents may find it logistically difficult to transfer their child during the day. If a setting does not offer education, some parents may prefer to pay for additional care in one setting so that their child has continuity of provision. Where children do not receive their entitlement to good quality funded education there could be an adverse impact on child development."[198]

### Cludiant rhwng safleoedd

**224.** Cyfeiriwyd mewn tystiolaeth at bryderon ynghylch anawsterau logistaidd cludo plant rhwng safleoedd sy'n darparu addysg y blynyddoedd cynnar a safleoedd sy'n darparu gofal plant. Esboniodd Chwarae Teg:

[198] 39 Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 07 – Estyn

> "While some LAs [awdurdodau lleol] support the delivery of the Foundation Phase [addysg y blynyddoedd cynnar] in a non-maintained setting, this is not the case in all areas. As a result some parents will still face the challenge of moving children between two providers during the day. This has the potential to limit the impact of the new Offer in terms of supporting more women into work or to increase their hours."[199]

**225.** Roedd cynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n cydnabod pwysigrwydd edrych ar faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch ac ansawdd gofal mewn perthynas â chludo plant o un safle i'r llall.[200] Cydnabu cynrychiolwyr Estyn ei bod hi'n debyg "nad yw cael eich cludo o un lle i'r llall yn ddefnydd cynhyrchiol o amser i blentyn ifanc, nac yn dda ar gyfer eu llesiant o reidrwydd".[201]

**226.** Fodd bynnag, pwysleisiodd Estyn fod cydleoli gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth eisoes ar y gweill mewn rhannau o Gymru oherwydd:

> "…the challenge is there already. There are parents who are accessing the foundation phase 10 hours and then arranging other childcare that involves transporting children between them. It's not unique to the childcare offer."[202]

**227.** Pan ofynnwyd pwy oedd yn gyfrifol am arolygu cludo plant o un safle i'r llall, dywedodd Estyn nad oedd yn "arsylwi'r gwaith o symud plant ifanc o un safle i'r llall fel rhan o'i weithgaredd arolygu rheolaidd".[203] Cadarnhaodd Arolygiaeth Gofal Cymru y byddai'n edrych ar gludiant ar gyfer darparwyr cofrestredig.[204]

**228.** Wrth ymateb i bryderon am y cynnig gofal plant yn cynyddu nifer y plant sy'n cael eu cludo rhwng safleoedd addysg y blynyddoedd cynnar a safleoedd gofal plant, dywedodd y Gweinidog:

> "…this isn't new, and many parents are used to this idea of doing some sort of handovers or either organising their own wraparound, which is sometimes provided by their own relatives, or friends or neighbours […] Alternatively, existing childcare providers find a way to link up with different settings, so after-school provision, school settings, Flying Start

[199] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 11 – Chwarae Teg

[200] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 414]

[201] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 26]

[202] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 137]

[203] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 133]

[204] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 204]

> settings and so on. It is difficult, but we're working from a situation that is already there on the ground. However, I think we can do more, and that's one of the things that we're learning from these initial phases already."[205]

**229.** Aeth y Gweinidog ymlaen i nodi, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, y dylid canolbwyntio yn y dyfodol ar gynyddu cydleoli a chydweithio mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. Ei ddadl oedd y byddai hyn yn galluogi rhagor o ddarpariaeth o ddwy elfen y cynnig gofal plant mewn un lleoliad.[206]

## Effaith ar addysg y blynyddoedd cynnar

### Y nifer sy'n manteisio ar addysg y blynyddoedd cynnar

**230.** Amlygodd nifer o dystion y potensial i'r cynnig gofal plant effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar ddarpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar sy'n bodoli'n barod. Yn ogystal â'r anawsterau mewn perthynas â chludo plant rhwng safleoedd a nodwyd uchod,[207] priodwyd hyn i'r amrywiad yn y cyfraddau talu rhwng addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant.

**231.** O ran yr heriau yn gysylltiedig â'r amrywiad mewn cyfraddau cyllido, esboniodd cynrychiolwyr Cwlwm:

> "There are 22 different funding systems for foundation phase [addysg y blynyddoedd cynnar], and so to some providers the childcare offer looks very attractive at £4.50 an hour, because they're getting a lot less per hour for delivering foundation phase nursery."[208]

**232.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig ddilynol, cydnabu Cwlwm, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru y cyfraddau cyfartalog bob awr a delir am addysg blynyddoedd cynnar nas cynhelir, gan gadarnhau eu bod i gyd yn llai na'r £4.50 yr awr y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu talu amdanynt ar gyfer elfennau gofal plant y cynnig:

- Dywedodd Llywodraeth Cymru, er bod "data yn gyfyngedig", mae ffigurau'n awgrymu mai £4.47 yw'r gyfradd gyfartalog uchaf fesul awr a delir am addysg y blynyddoedd cynnar nas cynhelir, tra bod yr isaf yn

[205] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 112]
[206] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 113]
[207] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 64]
[208] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 122]

£2.50.[209] Cydnabuwyd hefyd bod lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir yn cael eu talu ar wahanol gyfraddau.[210]

- Cyfeiriodd Cwlwm at £4.24 (yng Nghaerdydd) fel y gyfradd gyfartalog uchaf fesul awr, a £1.49 (yng Ngwynedd) fel yr isaf.[211]

- Ymatebodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gais am ddadansoddiad o gyfraddau fesul awr drwy esbonio nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn talu darparwyr addysg y blynyddoedd cynnar nas cynhelir yn seiliedig ar gyfraddau fesul awr.[212] Nododd y Gymdeithas, lle mae cyfraddau fesul awr yn cael eu talu, fod y rhain yn amrywio rhwng £3 a £3.50.[213]

**233.** Rhybuddiodd Arolygiaeth Gofal Cymru:

> "Bydd angen gofal i sicrhau nad yw'r gwaith o weithredu'r Bil yn tanseilio'r gwaith o gyflawni'r Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau a ariennir nas cynhelir - er enghraifft, trwy roi cymhellion i ddarparwyr i ymateb i'r galw am y cynnig ar draul y Cyfnod Sylfaen."[214]

**234.** Mynegodd Estyn[215] a Chlybiau Plant Cymru Kids' Clubs[216] bryderon tebyg am gyfraddau talu anghyson a'u heffaith bosibl ar addysg y blynyddoedd cynnar. Cadarnhaodd cynrychiolwyr Estyn fod gwahaniaethau mewn cyfraddau yn gyffredin rhwng awdurdodau lleol, rhwng y sector nas cynhelir a'r sector a gynhelir, a rhwng rhaglenni addysg y blynyddoedd cynnar, y cynnig gofal plant a rhaglenni Dechrau'n Deg.[217] Aethant ymlaen i grynhoi barn Estyn fel a ganlyn:

[209] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 07 – Llywodraeth Cymru

[210] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 07 – Llywodraeth Cymru

[211] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 03 – Cwlwm

[212] Rhestrodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru amrywiaeth o ddulliau o dalu lleoliadau, gan gynnwys drwy: yr Uned wedi ei Phwysoli yn ôl Oedran, gyda chyfraddau'n amrywio fesul awdurdod lleol; cyfradd unffurf fesul plentyn y tymor yn amrywio o £290 i £900; cyfradd unffurf fesul lleoliad y tymor ar gyfer hyd at 8 plentyn gyda swm ychwanegol fesul plentyn ychwanegol; yn unol â chyfradd darparwyr unigol (heb fod yn gysylltiedig â chyfradd yr ysgol); cyfradd unffurf yr wythnos fesul plentyn; cyllido staff yn y lleoliadau i fodloni'r cymarebau gofynnol; a chyllid ar gyfer nifer penodol o leoedd wedi eu prynu.

[213] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 05 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

[214] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 16 – Arolygiaeth Gofal Cymru

[215] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 07 – Estyn

[216] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 07 – Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

[217] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraffau 83-88]

> "We are concerned that parents may make a choice. So, if it's logistically quite difficult for them to move children around, 20 hours' childcare may become more attractive than the 10 hours' education.
>
> And for settings it may be more attractive to offer the childcare part of the offer rather than the education part, in local authorities where there isn't parity of funding for the two."[218]

**235.** Dywedodd Gofal Cymdeithasol Cymru y "byddai cydraddoldeb o ran y cyfraddau talu yn cael ei groesawu".[219]

**236.** Rhoddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru esiamplau o ddatblygu cydleoli gwasanaethau i oresgyn heriau cludiant.[220] Mewn perthynas ag effaith y gwahaniaeth mewn cyfraddau talu, roedd cynrychiolwyr yn cydnabod fod "gorymestyn" addysg y blynyddoedd cynnar gan elfen gofal plant y cynnig wedi bod yn "bryder" i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar. Serch hynny, nodwyd profiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, lle cafodd un darparwr ei golli o addysg y blynyddoedd cynnar oherwydd bod y darparwr hwnnw o'r farn bod y cynnig gofal plant yn fwy proffidiol, ond roedd pedwar arall wedi eu hennill oherwydd:

> "…[they] saw it as a unique selling point to be able to offer the whole provision […] they see it as consistency for the child that they can have their foundation phase provision of 10 hours and then have their 20 hours as well for working parents. So it's given parents more options."[221]

**237.** Wrth ymateb i bryderon ynghylch effaith bosibl y cynnig gofal plant ar y nifer sy'n manteisio ar addysg y blynyddoedd cynnar, pwysleisiodd y Gweinidog nad oedd Llywodraeth Cymru yn dymuno tanseilio addysg y blynyddoedd cynnar "mewn unrhyw ffordd", ond roedd yn cydnabod fod hynny'n risg.[222]

**238.** Mewn perthynas â'r gyfradd fesul awr ar gyfer lleoliadau nas cynhelir, dywedodd:

> "We are aware of the issues around the hourly rate […] although we're not picking up at the moment that that is causing any real difference

[218] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraffau 129-130]
[219] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 14 – Gofal Cymdeithasol Cymru
[220] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 408-410]
[221] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 403]
[222] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 140]

> to the roll-out at the moment, where people are fleeing in the early implementers from foundation phase elements."[223]

**239.** Aeth yn ei flaen i ddweud:

> "What this has flagged up, I think, in the early months of the early implementers, is it's not simply the hourly rate, but it's the practical choices that are made by providers and parents. It's not the hourly rate per se. If we can make it easy for both offers to be provided, either on the same site, or within spitting distance […] parents will say 'No problem', providers will say 'No problem'. But we've got to make that work."[224]

**240.** Nodwyd mewn rhagor o wybodaeth a ddarparwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, sy'n gyfrifol am elfen addysg blynyddoedd cynnar y cynnig gofal plant:

> "Rydym yn edrych ar yr effaith bosibl ar ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys materion strwythurol ac ariannol, a allai gael effaith ar y gallu i gyflwyno'r ddarpariaeth yn effeithiol, yn ogystal ag ansawdd y ddarpariaeth […]
>
> Rwy'n cydnabod y peryglon a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg wrth gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant. Mae Swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio i sicrhau bod y cyfleoedd a'r peryglon hynny yn cael eu hystyried a'u deall yn llawn wrth i ni barhau i roi'r Cynnig Gofal Plant ar waith ar draws Cymru."[225]

### Nifer yr oriau addysg blynyddoedd cynnar a gynigir gan awdurdodau lleol

**241.** Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd statudol i gynnig "darpariaeth ddigonol o addysg feithrin" am ddim i bob plentyn yn eu hardal o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, os yw eu rhieni yn dymuno hynny.[226] Ar sail y canllawiau a gyhoeddwyd ym 1999,[227] mae'r rhan fwyaf o awdurdodau wedi

---

[223] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 141]

[224] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 141]

[225] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 07 – Llywodraeth Cymru.

[226] Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) 2003 a ddiwygiwyd ymhellach gan Reoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2005; ac Adrannau 117-118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

[227] Y Swyddfa Gymreig 1999/2000 - Arweiniad ar gyfer Partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru, sy'n nodi "[…] darparu lle addysg hanner amser, o leiaf, o safon

dehongli hyn fel y dylid darparu o leiaf 10 awr o addysg blynyddoedd cynnar. Mae Atodiad C yr adroddiad hwn yn dangos nifer yr oriau o addysg y blynyddoedd cynnar a gynigir gan bob awdurdod lleol yng Nghymru (sy'n amrywio o 10[228] i 30 awr).

**242.** Yn sgil y pryderon ynghylch effaith y cynnig gofal plant ar addysg y blynyddoedd cynnar, a'r ffaith nad yw'r 10 awr o addysg blynyddoedd cynnar wedi ei bennu mewn statud, fe wnaethom archwilio a oedd perygl y gallai awdurdodau lleol leihau'r hawl hwn o ganlyniad i'r cynnig gofal plant. Roedd hwn yn bryder penodol mewn perthynas â'r effaith y gallai ei chael ar blant ar aelwydydd lle nad oes oedolyn yn gweithio, na fyddai'n gymwys ar gyfer elfen gofal plant y cynnig fel mae'r Bil wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd.

**243.** Pan ofynnwyd a allai'r cynnig gofal plant arwain at ostyngiad yn nifer yr oriau addysg blynyddoedd cynnar a gynigir gan awdurdodau lleol, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Theoretically it could happen, but we're having no indication from local authorities that they want to do this."[229]

**244.** Er bod y Gweinidog a'i swyddogion wedi datgan bod Llywodraeth Cymru yn cyllido awdurdodau lleol i ddarparu 10 awr o addysg y blynyddoedd cynnar, darperir y rhan fwyaf o'r cyllid hwn drwy'r Grant Cynnal Refeniw ac, fel y cyfryw, nid yw'n arian wedi ei neilltuo. Fodd bynnag, nodwyd yn yr wybodaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

> "Rhaid i awdurdodau lleol allu cadarnhau bod y fformiwla ar gyfer dosbarthu'r cyllid yn cefnogi ysgolion a lleoliadau i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn unol â'r cymarebau [lefel briodol yr ymarferwyr a'r dysgwyr]."[230]

**245.** Yn ogystal, nodwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet:

---

dda yn ystod y tri thymor cyn dechrau addysg orfodol ar gyfer pob plentyn 4 oed y mae eu rhieni eisiau hyn. Dylai fod mor hygyrch â phosib i gartref y plentyn. Mae hanner amser yn golygu o leiaf 10 awr yr wythnos am yr un nifer o wythnosau â'r flwyddyn ysgol arferol."

[228] Eglurodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru drwy e-bost, ar ôl cyflwyno'r wybodaeth hon, mai oriau addysg y blynyddoedd cynnar yng Nghaerdydd yw 12.5 awr yn y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir (5 sesiwn 2.5 awr). Mae rhai rhieni yn dewis cymryd dim ond 3 neu 4 yn y sector nas cynhelir, ac os felly bydd yr awdurdod lleol yn talu am y sesiynau hynny yn unig. Yr isafswm a ganiateir yw 3 sesiwn 2.5 awr, sy'n esbonio'r amrediad a nodir ar gyfer Caerdydd, sef rhwng 7.5 a 12.5.

[229] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 182]

[230] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 07 – Llywodraeth Cymru

> "Ni ddaeth unrhyw dystiolaeth i'r amlwg sy'n awgrymu bod Awdurdodau Lleol yn darparu llai na 10 awr, nac yn bwriadu darparu llai na hynny. Mae llawer o Awdurdodau Lleol yn cynnig mwy na 10 awr."[231]

## Trefniadau arolygu

**246.** Mae'r trefniadau presennol ar gyfer arolygu gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar yn golygu bod potensial i dair system fod yn arolygu 30 awr llawn y cynnig gofal plant:

- Dim ond Estyn fydd yn arolygu lleoliadau a gynhelir sy'n darparu'r hawl i gael addysg y blynyddoedd cynnar;
- Bydd Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn archwilio lleoliadau nas cynhelir sy'n darparu'r 10 awr o'r hawl i gael addysg;
- Dim ond Arolygiaeth Gofal Cymru fydd yn archwilio lleoliadau nas cynhelir sy'n darparu'r 20 awr o ofal plant yn unig.

**247.** Cadarnhaodd Estyn ei fod wedi datblygu fframwaith arolygu ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru am yr oddeutu 600 o leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg y blynyddoedd cynnar, ac y byddai hyn yn cael ei gyflwyno o fis Ionawr 2019 ymlaen, yn dilyn cynllun peilot diweddar.[232]

**248.** Yn ôl Estyn, mae'r ymagwedd arolygu ar y cyd wedi bod yn fanteisiol nid yn unig i'r Arolygiaethau, ond hefyd gan ei fod wedi lleihau'r baich ar ddarparwyr.[233] Cadarnhaodd Cwlwm, er bod yr ymagwedd arolygu ar y cyd ar ei chamau cynnar, fod yr adborth gan ddarparwyr yn gadarnhaol.[234]

**249.** Cyfeiriodd Arolygiaeth Gofal Cymru at y swm sylweddol o waith dysgu nad yw'n gyflawn eto ynghylch sut bydd y cynnig gofal plant yn datblygu, ac y dylid trafod sut dylid datblygu arolygu ar y cyd yn y dyfodol.[235] Yn dilyn y sesiwn, darparodd Arolygiaeth Gofal Cymru gopi o'r adolygiad annibynnol o'r fframwaith arolygu ar y cyd, a gomisiynwyd gydag Estyn, lle mae'r gwersi a ddysgwyd a chamau gweithredu ar gyfer gwella yn y dyfodol wedi eu rhestru.[236]

---

[231] Tystiolaeth ysgrifenedig, FI CCF 07 – Llywodraeth Cymru

[232] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 143]

[233] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 147]

[234] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 140-141]

[235] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 316]

[236] Gwerthusiad Annibynnol o Arolygiad Peilot ar y Cyd Estyn/AGGCC, Tachwedd 2016

**250.** Cytunodd cynrychiolwyr o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru y dylid "ystyried o ddifrif" leihau cymhlethdod y tair ffrwd arolygu.[237]

**251.** Pan holwyd swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch rhai o'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag arolygu'r cynnig gofal plant, dywedasant eu bod yn "cydymdeimlo" rhywfaint â'r pwyntiau a wnaed. Dywedodd y Gweinidog:

> "…we're already doing work with CIW and Estyn to look at how we can both integrate the inspections but also integrate the production of the reports that flow from those as well to make it more streamlined."[238]

## EIN BARN MEWN PERTHYNAS Â'R FFRWD DDEUOL

**252.** Ym mharagraff 203 yr adroddiad hwn, roeddem yn cyfeirio at awgrym y Gweinidog fod gwaith ar y gweill yn Llywodraeth Cymru i edrych ar "amrediad cyfan" datblygiad gofal plant y blynyddoedd cynnar. Rydym o'r farn bod y dystiolaeth a ddarparwyd ar effaith y cynnig gofal plant mewn perthynas â chludo plant o un safle i'r llall, yr effaith bosibl ar ddarpariaeth a'r niferoedd sy'n manteisio ar addysg y blynyddoedd cynnar, a'r system arolygu gymhleth, yn dangos bod angen i'r gwaith hwn gael ei wneud ar fyrder.

**253.** Rydym yn cydnabod bod y materion a amlygwyd yn ymwneud â chludiant ac arolygu eisoes yn bodoli, waeth beth fydd yn digwydd wrth gyflwyno'r cynnig gofal plant. Serch hynny, os bydd y Bil yn cyflawni ei nod penodol o gynyddu nifer y rhieni sy'n gallu dychwelyd i'r gwaith neu ymestyn eu horiau yn y gwaith, yna mae graddfa'r heriau hyn yn debygol o gynyddu'n sylweddol wrth i nifer y plant sy'n cael cymorth gynyddu.

**254.** Mae materion sy'n ymwneud â'r gyfradd dâl ar gyfer y gwahanol raglenni sydd ar gael a gaiff eu cyllido gan y llywodraeth yn destun pryder mawr i ni. Nid ydym yn deall pam y gall y taliad ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar fod yn sylweddol is na'r gyfradd arfaethedig o £4.50 yr awr ar gyfer gofal plant. Er nad yw tystiolaeth wedi dod i'r amlwg eto o'r ardaloedd peilot bod darparwyr nas cynhelir yn newid o'r blynyddoedd cynnar i ddarpariaeth gofal plant, credwn fod perygl y gallai hyn ddigwydd.

**255.** Mae'r dystiolaeth yn glir bod addysg blynyddoedd cynnar yn hanfodol i ddatblygiad a chyrhaeddiad plentyn yn diweddarach yn ei fywyd. Gan hynny, mae gennym bryderon sylweddol ynghylch yr awgrym y gall rhieni, mewn achosion lle

[237] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 464]
[238] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 128]

nad ydynt yn gallu dod o hyd i ddarpariaeth wedi ei chyd-leoli neu ddarpariaeth gofleidiol, ac nad ydynt yn gallu cludo eu plant o un safle i'r llall oherwydd ymrwymiadau gwaith, ddewis gofal plant dros addysg y blynyddoedd cynnar ar y sail y bydd rhagor ohono ar gael o dan y cynnig gofal plant. Rydym hefyd yn nodi na fydd Estyn yn arolygu gofal plant dan y trefniadau presennol.

**Argymhelliad 21.** Bod Llywodraeth Cymru yn neilltuo cyfran o'i chyllideb ar gyfer y cynnig gofal plant i ddarparu cymorth ychwanegol rhwng nawr a chyflwyno'r cynnig i bawb er mwyn hwyluso cynnydd mewn cydleoli darpariaeth gofal plant a darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar. Dylai hyn gynnwys cymhellion i'r sector nas cynhelir er mwyn cynyddu ei ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar.

**Argymhelliad 22.** Bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o gost/cyfraddau tâl ar draws lleoliadau a gynhelir a rhai nas cynhelir ar gyfer gofal plant, addysg y blynyddoedd cynnar ac elfen gofal plant Dechrau'n Deg. Dylid rhoi sylw penodol i gynyddu'r cysondeb rhwng y gyfradd a delir fesul awr ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

**Argymhelliad 23.** Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig i awdurdodau lleol sy'n diffinio ystyr "darpariaeth ddigonol o addysg feithrin" i warchod rhag unrhyw risg y bydd llai na'r swm cyfredol o addysg y blynyddoedd cynnar yn cael ei ddarparu gan bob awdurdod lleol unwaith y bydd y cynnig gofal plant ar waith.

**Argymhelliad 24.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn i fyfyrio a gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd o werthusiad y fframwaith arolygu ar y cyd, gyda'r bwriad o drafod trefniadau mwy syml.

## 8. 2. Cyfraddau cyflogaeth mamau

**256.** Prif nod benodol y Bil[239] – a'r cynnig gofal plant yn ehangach[240] – yw cefnogi economi Cymru drwy helpu rhieni, mamau yn arbennig, i ddychwelyd i'r gwaith neu gynyddu'r oriau maent yn eu gweithio.

**257.** Fodd bynnag, canfu adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 ar Ddewisiadau Polisi Gofal Plant i Gymru na fyddai'r polisi arfaethedig "yn cael unrhyw effaith sylweddol ar incwm net, tlodi nac ymddygiad gwaith i deuluoedd â phlant" a bod:

[239] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.5

[240] Llywodraeth Cymru, Y Cynnig Gofal Plant - Canllawiau i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar, Tachwedd 2017, tud.6

> "...the impact on work participation and work hours for mothers in families with a child of target age is extremely small".[241]

**258.** Gan ymateb ym mis Ebrill 2018 i gwestiynau am ganfyddiadau'r adroddiad yn 2015, cyfeiriodd y Gweinidog at "dystiolaeth bywyd go iawn" gan yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar fod y cynnig gofal plant yn galluogi menywod i wneud dewisiadau gwell ynghylch pryd maent yn gweithio.[242] Cyfeiriodd hefyd at y ffaith bod adroddiad 2015 wedi ystyried cyfnod o 38 wythnos, yn hytrach na chynnig 48 wythnos, gan nodi:

> "...we are having parents already saying to us that their ability to actually extend that into the 48 weeks – beyond the term time and so on – carries advantages that are not picked up in that report."[243]

**259.** Roedd y Gweinidog wedi cyfeirio'n flaenorol at ganfyddiadau ymchwil Starting Strong OECD yn 2017, a ganfu bod "addysg a gofal fforddiadwy, safonol, yn y blynyddoedd cynnar, gyda nifer ddigonol o oriau'r wythnos, yn gallu cyfrannu at gael rhagor o fenywod i ymuno â'r gweithlu".[244] Fodd bynnag, ni chyfeiriodd at y canfyddiadau yn yr un ymchwil bod y berthynas rhwng cyfraddau cyflogaeth mamau a gofal plant yn gryf i blant 0-3 oed, ond yn wannach ar gyfer plant 3-5 oed.[245]

**260.** Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru diweddaraf Llywodraeth Cymru fod y galw am ofal plant ar ei uchaf rhwng 1 a 3 oed.[246]

**261.** Roedd nifer o randdeiliaid yn cwestiynu effaith y cynnig gofal plant yn ei ffurf bresennol ar gyflogaeth mamau. Eglurodd UNSAIN:

> "...by the time the child has reached three year old, the parent(s) eligible for the childcare offer may have already been forced to make key changes to their working life, such as changing job, going part time etc.

[241] Y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (a elwir bellach yn Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru), Childcare Policy Options for Wales, Rhagfyr 2015, tud.2

[242] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Ebrill 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 172]

[243] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Ebrill 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 175]

[244] OECD, Starting Strong 2017: Key OECD Indicators on Early Childhood Education and Care, Mehefin 2017, tud.30

[245] OECD, Starting Strong 2017: Key OECD Indicators on Early Childhood Education and Care, Mehefin 2017, tud.31

[246] Ystadegau ar gyfer Cymru, Bwletin Ystadegol: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17, Gofal Plant, a ryddhawyd 30 Ionawr 2018, tud.3

> Parents not in employment when their child becomes eligible for the offer will have out of the workforce for three years, may have lost confidence, and experience a skills or knowledge gap."[247]

**262.** Roedd Chwarae Teg yn cydnabod bod diffyg gofal plant fforddiadwy a hyblyg yn "fater allweddol"[248] i'r rhan fwyaf o famau wrth benderfynu a ddylent ddychwelyd i'r gwaith, ond bod y cynnig gofal plant ar ei ffurf bresennol yn darparu'r gofal hwnnw'n "rhy hwyr".[249]

**263.** Fodd bynnag, dywedodd cynrychiolwyr Cwlwm fod y cynnig gofal plant yn "gam cychwynnol ar daith sy'n cynyddu cyfradd cyflogaeth rhieni" a'i bod yn "bwysig dechrau yn rhywle".[250] Aethant ymlaen i ddweud:

> "We know that the cost of childcare is a major barrier to returning to work and that the UK has the highest fees in Europe, so funded childcare, even for three and four-year-olds, must impact on maternal employment rates."[251]

**264.** Cyfeiriodd cynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at brofiadau yng Nghaerffili, sy'n Awdurdod Lleol sy'n Weithredwr Cynnar, lle maent wedi sylwi ar "newid agwedd" ymhlith rhai teuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Nodwyd bod rhieni yn dechrau cymryd mwy o ran mewn rhaglenni cyflogaeth a chontractau er mwyn gallu cymryd y cynnig gofal plant, ond roeddent yn cydnabod y byddai'r cynnydd yn cymryd "amser hir".[252]

**265.** Awgrymwyd mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith y dylai'r cynnig fod ar gael o chwe,[253] naw,[254] neu ddeuddeg mis oed[255] ymlaen er mwyn cyflawni'r effaith fwyaf ar gyflogaeth mamau. Ar y sail honno, argymhellwyd yn ei adroddiad diweddar "Wrth eich gwaith: rhianta a chyflogaeth yng Nghymru" fod Llywodraeth Cymru yn:

247 Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 10 – UNSAIN
248 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 209]
249 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 198]
250 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 111]
251 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 112]
252 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 421]
253 Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Ebrill 2018, [paragraff 171]
254 Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Ebrill 2018, [paragraff 383]
255 Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Mai 2018, [paragraff 105]

- casglu data ar gyfraddau cyflogi mamau fel rhan o gynlluniau peilot y cynnig gofal plant i lywio'r gwaith o werthuso eu heffaith;
- nodi'r camau pellach y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r angen am ofal plant rhwng 1 a 3 oed; ac
- ailasesu'r cynnig i ystyried y gwaith gwerthuso, yr ymchwil rhyngwladol a'r dystiolaeth a ddarparwyd i'w hymchwiliad.

### EIN BARN AR GYFLOGAETH MAMAU

**266.** Rydym yn cydnabod, pe bai'r cynnig gofal plant yn cael yr effaith y mae'n ei fwriadu, y gallai buddion sylweddol ddod nid yn unig i'r teuluoedd dan sylw, ond i'r difidend cyllidol y gellid ei gynhyrchu o ganlyniad. Fodd bynnag, nid ydym yn argyhoeddedig bod y cynnig gofal plant fel y mae ar hyn o bryd yn targedu'r grŵp oedran cywir o blant os mai ei nod yw gwella cyfraddau cyflogaeth rhieni, yn enwedig mamau. Rydym yn pryderu y bydd y rhan fwyaf o rieni eisoes wedi gorfod gwneud penderfyniadau yn ymwneud â'u cyflogaeth a'u gyrfaoedd erbyn trydydd pen-blwydd eu plentyn er mwyn iddynt ymdopi ar ôl i'w lwfansau absenoldeb mamolaeth a/neu dadolaeth ddod i ben.

**267.** Mae Argymhelliad 10 ein hadroddiad yn amlinellu ein barn ar y camau y mae angen eu cymryd mewn perthynas ag adolygu oedran y "plentyn cymwys". Rydym hefyd yn cefnogi'r argymhellion sy'n ymwneud â'r cynnig gofal plant a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ei ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith, sydd wedi eu crynhoi ym mharagraff 265 yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 25.** Bod Llywodraeth Cymru, cyn y ddadl Cyfnod 1, yn derbyn argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ymwneud â'r cynnig gofal plant yn ei adroddiad ar ei ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith.

## 8. 3. Taliadau ychwanegol

**268.** Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar y cynnig gofal plant yn caniatáu i ddarparwyr godi ffioedd ychwanegol ar rieni, na fydd yn fwy na £37.50 yr wythnos. Mae hyn yn £7.50 y

diwrnod ac yn seiliedig ar gost tri phryd bwyd y dydd am £2.00 y pryd a 2 fyrbryd ar gost o 75c fesul byrbryd.[256]

**269.** Pan ofynnwyd a oedd darparwyr yn defnyddio taliadau ychwanegol i "ychwanegu" at y gyfradd dâl fesul awr ar gyfer gofal plant, dywedodd Cwlwm fod "rhywfaint o dystiolaeth" mewn un Awdurdod Lleol sy'n Weithredwr Cynnar o feithrinfeydd dydd yn codi tâl lle nad oedd rhieni wedi gorfod talu o'r blaen.[257] Ar y llaw arall, nodasant ei bod yn bosibl nad yw eraill yn codi tâl er mwyn denu busnes rhagor o rieni.[258] Nododd Cwlwm bod angen gwneud rhagor o waith fel rhan o'r gwerthusiad o gynllun peilot y cynnig gofal plant i asesu effaith y taliadau ychwanegol,[259] gan ddod i'r casgliad:

> "…we need to ensure that childcare doesn't become too expensive for what should be a funded childcare programme."[260]

**270.** Pan ofynnwyd i Arolygiaeth Gofal Cymru a fyddai'r taliadau ychwanegol yn gallu gwneud y cynnig gofal plant yn anfforddiadwy i rai teuluoedd ar incwm isel, dywedodd ei gynrychiolydd:

> "I think the honest, straight answer to that is that's entirely conceivable, yes, given what we know about income and poverty and deprivation in some parts of Wales. That would seem a reasonable surmise to make."[261]

**271.** Mewn ymateb i gwestiynau am y taliadau ychwanegol, esboniodd y Gweinidog nad oedd y gwerthusiad interim o gynlluniau peilot y cynnig gofal plant wedi ystyried effaith y taliadau ychwanegol. Fodd bynnag, dywedodd y byddai trefniadau yn cael eu hadolygu, ac "os canfyddir ei fod yn rhwystr, yna byddwn yn ystyried hynny ac yn ceisio dysgu gwersi".[262]

**272.** Ar 2 Gorffennaf 2018, ar ôl cwblhau ein gwaith casglu tystiolaeth ar y Bil hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau diwygiedig ar gyfer Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar a fydd yn dod i rym ym mis Medi 2018. Mae'r canllawiau diwygiedig wedi eu diwygio o ran taliadau ychwanegol i ddweud:

---

[256] Llywodraeth Cymru, Y Cynnig Gofal Plant - Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar, Tachwedd 2017, tud.15

[257] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 96]

[258] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 100]

[259] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 98]

[260] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 100]

[261] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 280]

[262] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraffau 36 a 41]

> "Ni ddylai darparwyr godi mwy ar rieni sy'n manteisio cynnig ar gyfer unrhyw elfennau ychwanegol na'r hyn a godir ar rieni nad ydynt yn manteisio ar y cynnig. Er enghraifft, ni ddylai darparwyr sy'n codi £5 y dydd am brydau bwyd fel arfer gynyddu hyn i £7.50 ar gyfer rhieni sy'n manteisio ar y cynnig. Yn yr un modd, os yw darparwr fel arfer yn codi £5 ar gyfer cludiant, ni ddylai gynyddu'r swm hwn ar gyfer rhieni sy'n manteisio ar y cynnig."[263]

## EIN BARN AR DALIADAU YCHWANEGOL

**273.** Rydym yn bryderus iawn y gallai hyd at £162.50 fesul mis calendr mewn taliadau ychwanegol olygu bod y cynnig gofal plant yn anfforddiadwy i rieni sy'n gweithio am y tâl isaf sydd â phlant o oedran cymwys. Serch hynny, credwn y gallai creu system a fyddai'n eithrio rhai rhieni o gostau ychwanegol arwain at ragor o gymhlethdod a biwrocratiaeth ddianghenraid.

**274.** Nodwn fod y canllawiau diwygiedig ar gyfer Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar yn 2018, o'u cymharu â chanllawiau 2017, wedi eu diwygio o ran taliadau ychwanegol i ddweud:

> "Ni ddylai rhieni sy'n rhan o'r cynnig gofal plant, fel amod o bresenoldeb eu plentyn, orfod derbyn a thalu am fwyd gan y darparwr a gallant ddewis ddarparu pecyn bwyd eu hunain *os byddai'r lleoliad yn caniatáu hynny fel arfer* (y newid mewn llythrennau italig)."[264]

**275.** Rydym yn cwestiynu faint o ddarparwyr nas cynhelir sydd "fel arfer yn caniatáu" i rieni ddod â'u bwyd eu hunain i blant, a'r pryderon posibl mewn perthynas â chadw bwyd yn oer, alergeddau a hylendid.

**276.** Rydym hefyd yn nodi bod canllawiau 2018 wedi cael eu diwygio i gynnwys yr ychwanegiad y cyfeirir ato ym mharagraff 272, ac yn cwestiynu pam mae angen cryfhau'r canllawiau yn hyn o beth.

**277.** Ni ddylai cynnig gofal plant "di-dâl" fod â chostau ynghlwm wrtho. At hynny, ni chafwyd unrhyw asesiad o'r risg sylweddol y gallai taliadau ychwanegol (o hyd at £162.50 fesul mis calendr) atal teuluoedd ar incwm isel rhag manteisio ar y cynnig gofal plant ar sail fforddiadwyedd.

---

[263] Llywodraeth Cymru, Y Cynnig Gofal Plant Canllawiau i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar - Medi 2018, tudalen 18

[264] Llywodraeth Cymru, Y Cynnig Gofal Plant Canllawiau i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar - Medi 2018, tudalen 18

**278.** Ar sail hyn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru:

- ddileu'r hawl i ddarparwyr godi taliadau ychwanegol;
- ystyried, yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd gan yr Awdurdodau Lleol sy'n weithredwyr cynnar, i ba raddau y mae costau ychwanegol yn cael eu cymhwyso gan ddarparwyr, gan godi'r gyfradd fesul awr arfaethedig o £4.50 os oes angen er budd cynaliadwyedd darparwyr a sicrhau eu bod yn cael eu had-dalu am wir gost eu darpariaeth.

**Argymhelliad 26.** Bod Llywodraeth Cymru yn dileu'r hawl i ddarparwyr wneud cais am daliadau ychwanegol.

**Argymhelliad 27.** Bod Llywodraeth Cymru yn asesu, fel mater o flaenoriaeth, sawl darparwr sy'n codi taliadau ychwanegol o fewn yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar a pham maent yn gwneud hynny.

**Argymhelliad 28.** Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried, yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd yn yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar, i ba raddau mae darparwyr yn codi taliadau ychwanegol, gan godi'r gyfradd fesul awr o £4.50 yn ôl yr angen er budd cynaliadwyedd darparwyr a sicrhau eu bod yn cael eu had-dalu am wir gost eu darpariaeth.

## 8. 4. Cap ar incwm

**279.** Nodir yn y Memorandwm Esboniadol y bydd cap o £100,000 y rhiant ar enillion gros y flwyddyn yn berthnasol i'r cynnig gofal plant yng Nghymru.[265] O'r herwydd, byddai cyplau gydag incwm ar y cyd o £199,999 yn gymwys i gael y cynnig hwn os oedd eu plant o oedran cymwys.

**280.** Cytunodd Chwarae Teg y dylai fod trothwy uchaf ar gyfer enillion ond gofynnodd a oedd y swm cyfredol yn targedu'r rhai sydd fwyaf mewn angen.[266] Dadleuodd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i drothwy unigol neu incwm aelwyd is "er mwyn gallu defnyddio adnoddau i ehangu'r cynllun i rieni ar incwm is gyda phlant iau".[267] Disgrifiodd y Comisiynydd Plant y cynnig gofal plant fel "cymhorthdal mawr i rai o deuluoedd Cymru sydd â'r enillion uchaf".[268]

**281.** Pan heriwyd y Gweinidog ar lefel uchel y cap gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, cyfeiriodd at ddata monitro o gynllun peilot y

[265] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.12

[266] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 199]

[267] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 11 - Chwarae Teg

[268] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 02 – Comisiynydd Plant Cymru

cynnig gofal plant a oedd yn dangos bod "o leiaf 60% o rieni sy'n cymryd y Cynnig yn ennill llai na'r cyflog cyfartalog canolrifol ar gyfer Cymru (£26,000), ac nid yw mwy na 5% yn ennill mwy na £52,000".[269] Fodd bynnag, cydnabu'r Gweinidog, wrth i ymwybyddiaeth o'r cynllun gynyddu ac wrth iddo gael ei gyflwyno i ardaloedd sydd â chyflogau cyfartalog uwch, gallai cyfran y rhieni ar gyflogau uchel sy'n manteisio ar y cynnig gofal plant gynyddu.[270]

**282.** Pan heriwyd y Gweinidog ar ei ddatganiad bod "81% o rieni sy'n gwneud cais am y cynnig yn cael anawsterau â gofal plant" – sy'n golygu y gellid gwario bron i £20 miliwn yn cefnogi'r 19% o rieni na fyddai'n cael anhawster - dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n bosibl nad oedd nifer o'r 19% yn gyfoethog o anghenraid, ond eu bod yn yn gallu dibynnu ar ffrindiau neu berthnasau yn flaenorol.[271]

**283.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod y cap wedi ei bennu ar £100,000 fesul rhiant er sicrhau "cyflymder, effeithlonrwydd ac angen", er mwyn ymgysylltu â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sy'n gweithredu'r un cap ar gyfer y cynnig yn Lloegr, ac er mwyn cyflwyno'r cynnig yn llawn erbyn 2020.[272] Dywedodd hefyd y gellid newid y cap yn y dyfodol, os oes angen.[273]

**284.** Nodir yn llythyr Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 14 Mawrth i Lywodraeth Cymru y byddai unrhyw newid i'r meini prawf cymhwystra (a fyddai'n cynnwys y cap incwm) yn "creu rhagor o gostau", "yn effeithio ar linellau amser ar gyfer cyflawni" ac "yn golygu y byddai angen cytundebau ar wahân dan gwmpas Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd" rhwng Llywodraeth Cymru a Chyllid a Thollau ei Mawrhydi.[274]

## EIN BARN AR Y CAP INCWM

**285.** Rydym yn cydnabod y byddai'n rhaid gwrthbwyso unrhyw arbedion a wnaed (neu arian ychwanegol ar gyfer carfan wahanol o deuluoedd) drwy leihau'r cap incwm yn erbyn costau gweinyddol newid y meini prawf cymhwystra.

---

[269] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Llythyr gan Arweinydd y Tŷ a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Mehefin 2018

[270] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 212]

[271] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraffau 206-208]

[272] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 94]

[273] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 94]

[274] Gohebiaeth gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol at y Llywydd, 9 Gorffennaf 2018

**286.** Rydym hefyd yn cydnabod, gyda'r cap incwm ar gyfer Credydau Treth y Deyrnas Unedig yn cael ei bennu ar £100,000 fesul rhiant, gallai gostwng y cap ar gyfer y cynnig gofal plant yng Nghymru ei gwneud yn ofynnol i rieni lywio llwybr hyd yn oed yn fwy cymhleth i ddeall pa gymorth y gallent fod yn gymwys i'w gael.

**287.** Mae'r angen i ystyried y cydbwysedd hwn yn ofalus wedi dod yn fwy amlwg yn sydyn yn sgil derbyn, ar 9 Gorffennaf 2018, lythyr Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 14 Mawrth 2018. Mae'r ffaith iddo gyrraedd ar ôl cwblhau ein gwaith casglu tystiolaeth wedi rhwystro ein gallu i brofi'n briodol ddichonoldeb lleihau'r cap incwm a'r effaith y gallai hyn ei chael ar amseriad cyflwyno'r cynnig gofal plant yn genedlaethol yng Nghymru.

**288.** Serch hynny, rydym yn pryderu nad yw'r gofal plant a gynigir fel y mae wedi ei fframio ar hyn o bryd yn targedu'r rhai y mae angen cymorth arnynt fwyaf, na chwaith y rhai y mae gofal plant yn rhwystr iddynt rhag gweithio. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r cap incwm gan ddefnyddio data sy'n deillio o ardaloedd peilot y cynnig gofal plant. Fodd bynnag, rydym yn dal yn bryderus y bydd y dystiolaeth yn parhau'n gyfyngedig os yw'r cynllun peilot yn parhau i fod yn ardaloedd llai cefnog Cymru yn bennaf.

**Argymhelliad 29.** Bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu, cyn y ddadl Cyfnod 1, y trafodaethau y mae wedi eu cynnal gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch y costau a'r amserlenni tebygol sy'n gysylltiedig ag unrhyw newid i'r cap incwm, ac ar ba sail mae'r Gweinidog wedi datgan y gallai newid o'r fath fod yn bosibl yn y dyfodol.

**Argymhelliad 30.** Bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun peilot y cynnig gofal plant i lond llaw o'r wardiau mwy cyfoethog yn yr Awdurdodau Lleol presennol sy'n Weithredwyr Cynnar, i brofi i ba raddau y mae'r cynnig yn parhau i fod yn un a gymerir i raddau helaeth gan y rhai sy'n ennill llai na'r cyflog cyfartalog canolrifol.

**Argymhelliad 31.** Bod Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad sydd i ddod (ac, os caiff ei dderbyn, unrhyw ddata sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i argymhelliad 30), yn adolygu'r cap incwm o £100,000 fesul rhiant.

## 8. 5. Nifer y rhai sy'n manteisio ar gynllun peilot y cynnig gofal plant

**289.** Yn 2017-18, dyrannwyd £10 miliwn i brofi cam cyntaf cynllun peilot y cynnig gofal plant. Ym mis Mai 2018, adroddodd BBC Cymru mai dim ond £3.4 miliwn o'r

£10 miliwn a oedd ar gael a oedd wedi cael ei wario rhwng y saith Awdurdod Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar lle'r oedd y cynllun peilot wedi cael ei gyflwyno.

**290.** Pan holwyd y Gweinidog ynghylch y nifer isel a fanteisiodd ar y cynllun, pwysleisiodd y fod y Cynnig yn "rhaglen sy'n seiliedig ar alw ac ein bod ni ar gamau cynnar iawn".[275] Dywedodd:

> "I'm disappointed that we haven't had the full update within that initial period, seven to eight months in. But [...] this is a demand-led programme. Secondly, because it's very early, there's the whole issue around communication. Local authorities were only delivering it in part of their areas, not the full area."[276]

## EIN BARN AR Y NIFER A FANTEISIODD AR Y CYNNIG PEILOT

**291.** Er ein bod yn cydnabod bod cynllun peilot y cynnig gofal plant yn parhau i fod ar gamau cymharol gynnar ac, fel y cyfryw, nad oes cymaint o ymwybyddiaeth gyhoeddus a chyfathrebu ynghlwm wrtho â rhaglenni mwy sefydledig, rydym yn pryderu mai dim ond traean o'r arian a ddyrannwyd a wariodd yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ar gyfer 7 mis cyntaf y rhaglen.

**Argymhelliad 32.** Bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos y defnydd o gynllun peilot y cynnig gofal plant yn yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ac yn cyhoeddi manylion y gwariant o fis Mawrth i fis Awst 2018 cyn y ddadl Cyfnod 1 ym mis Medi.

## 8. 6. Darparwyr sydd wedi eu heithrio

**292.** Er mwyn darparu gofal plant dan y cynllun peilot, mae'n rhaid i ddarparwyr gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (neu Ofsted, os ydynt yn gweithredu yn Lloegr).[277]

### Gwarchodwyr plant a nanis

**293.** O dan ganllawiau gwreiddiol 2017 ar gyfer y cynllun peilot, nid oedd modd i warchodwyr plant ofalu am blant sy'n perthyn iddynt dan y cynnig gofal plant.[278]

[275] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 215]

[276] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 215]

[277] Llywodraeth Cymru, Y Cynnig Gofal Plant - Canllawiau i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar, Tachwedd 2017, tud.13

[278] Llywodraeth Cymru, Y Cynnig Gofal Plant - Canllawiau i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar, Tachwedd 2017, tud.13

Roedd hyn yn seiliedig ar Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010,[279] sy'n datgan nad yw unigolyn yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'n rhiant neu'n berthynas i'r plentyn,[280] neu'n rhiant maeth i'r plentyn.

**294.** Nodwyd hefyd yn y canllawiau:

> "Er bod Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn bodoli ar gyfer Nanis, nid ydynt yn cael eu rheoleiddio i'r un graddau â darparwyr gofal plant cofrestredig ac felly ni ellir eu hariannu i ddarparu'r cynnig."[281]

**295.** Mynegodd PACEY Cymru (y Gymdeithas Broffesiynol dros Ofal Plant a Blynyddoedd Cynnar) bryderon sylweddol ynghylch eithrio gwarchodwyr plant sy'n gofalu am berthnasau.[282] Nododd y byddai'r eithriad yn effeithio ar gynaliadwyedd y sector, gan awgrymu bod tua 35% o warchodwyr plant cofrestredig yn gofalu am blentyn sy'n perthyn iddynt.[283] Awgrymodd hefyd y byddai'r eithriad yn cael effaith anghymesur mewn ardaloedd gwledig, lle gall darpariaeth a dewis fod yn fwy cyfyngedig, ac yn achos plant ag anghenion ychwanegol.[284]

**296.** Yn ystod ein gwaith craffu Cyfnod 1, cyhoeddodd y Gweinidog, ar ôl dysgu gwersi am brofiadau cynlluniau peilot yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ac yn dilyn y pryderon a fynegwyd am warchodwyr plant nad oeddent yn gallu derbyn cyllid i ofalu am berthynas dan y cynnig gofal plant, ei fod wedi penderfynu newid y polisi. Er y bydd trefniadau ar gyfer nanis yn aros yr un fath ag yr oeddent o'r blaen, dywedodd:

- o fis Medi 2018, bydd gwarchodwyr plant cofrestredig yn cael cyllid i ofalu am blentyn sydd hefyd yn berthynas;
- bydd y canllawiau'n nodi bod rhaid i warchodwyr plant gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn gallu cael mynediad at y Cynnig;
- ni ellir darparu'r gofal yng nghartref y plentyn; ac

---

[279] Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

[280] Diffinnir perthynas yn y Gorchymyn fel neiniau a theidiau, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb (perthynas waed lawn neu hanner gwaed) neu drwy briodas neu bartneriaeth sifil neu lysriant.

[281] Llywodraeth Cymru, Y Cynnig Gofal Plant - Canllawiau i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar, Tachwedd 2017, tud.13

[282] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 04 - PACEY Cymru

[283] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 43]

[284] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 04 - PACEY Cymru

- yn fwy hirdymor, bydd angen diwygio Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen ystyried rhannau eraill o'r Gorchymyn, a'i fwriad yw "sicrhau bod hynny'n digwydd yn ystyrlon yn hytrach na diwygio'r Gorchymyn ar ad hoc".[285]

## Ysgolion

**297.** Mae Erthygl 14 Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 hefyd yn eithrio ysgolion rhag cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i ddarparu gofal plant. Golyga hyn mai dim ond darparu elfen addysg blynyddoedd cynnar y cynnig gofal plant y gall ysgolion ei wneud. Er mwyn darparu elfen gofal plant y cynnig, gall ysgolion weithio mewn partneriaeth â darparwr gofal plant cofrestredig neu greu endid cyfreithiol ar wahân i gynrychiolwyr yr ysgol gofrestru gyda'r Arolygiaeth.

**298.** Pan ofynnwyd i Estyn a oeddent o'r farn bod yr eithriad hwn yn broblem, cyfeiriodd ei gynrychiolwyr at enghreifftiau da o gydweithio a chydleoli a oedd yn arwain at ofal o ansawdd da, gan ddweud y byddent yn croesawu rhagor o drefniadau o'r fath.[286] Dywedodd Arolygiaeth Gofal Cymru:

> "there's nothing to stop a registered service with CIW being provided from a school premises. There's nothing to stop school governors putting forward somebody to be a registered provider. But they need to register with us to provide childcare and play, and that's for good reason".[287]

**299.** Dywedodd cynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, "gan fod gan benaethiaid ddigon ar eu plât beth bynnag, eu bod nhw'n ei chael hi'n haws rhoi contract i ddarparwr ddod i mewn a darparu ar safle'r ysgol".[288] Roeddent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant, gan esbonio:

> "Children do need at age 3 not to be in a concentrated setting from 8 a.m. until 6 p.m., with teachers teaching constantly for that time. That would be very exhausting for a child who's doing that five days a week.

[285] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig - Ehangu parhaus y Cynnig Gofal Plant a ariennir gan y Llywodraeth ar ôl mis Medi 2018, 19 Mehefin 2018
[286] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 151]
[287] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 321]
[288] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 467]

> So, it needs to have a different influence. That's not to say it couldn't be delivered by a school."[289]

**300.** Pan holwyd y Gweinidog am eithrio ysgolion, cyfeiriodd at yr adolygiad presennol o Orchymyn 2010, a dywedodd ei fod yn "fwy na pharod" i'w ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r Gorchymyn hwnnw a gweld a oes angen cael gwared ar y rhwystr hwnnw.[290] Ychwanegodd swyddog y Gweinidog:

> "It's an Order that has a number of issues, which probably the time is right to review [...] the childminding one is one of them, this is another, and there are some others."[291]

## EIN BARN AR DDARPARWYR SYDD WEDI EU HEITHRIO

**301.** Rydym yn croesawu penderfyniad y Gweinidog yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil hwn i ganiatáu i warchodwyr plant sy'n gofalu am berthnasau dderbyn cyllid o dan y cynnig gofal plant.

**302.** Y dull rydym yn ei ffafrio yw darparu'r 30 awr o ofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar yn llawn mewn un lleoliad, boed hynny naill ai'n lleoliad a gynhelir neu nas cynhelir. Mae hyn ar sail y pryderon rydym wedi eu nodi mewn perthynas â'r ddarpariaeth llif deuol a hwylusir gan y Bil hwn.

**303.** Mae eithrio ysgolion fel darparwyr gofal plant, oni bai eu bod yn ffurfio partneriaeth â darparwr cofrestredig neu'n creu endid cyfreithiol ar wahân sy'n gallu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, yn rhwystr amlwg i blant sy'n derbyn y ddarpariaeth 30 awr lawn ar un safle.

**304.** Gwyddom fod cyfran fawr o ysgolion ledled Cymru eisoes yn darparu o leiaf 10 o'r 30 awr a ddarperir gan y cynnig gofal plant, ar ffurf addysg y blynyddoedd cynnar. Arolygir yr addysg blynyddoedd cynnar hon gan Estyn. O'r herwydd, rydym yn cwestiynu pam mae ysgolion wedi eu heithrio rhag gallu cynnig yn uniongyrchol y 30 awr lawn a ddarperir o dan y cynnig gofal plant heb orfod mynd drwy brosesau beichus ychwanegol. Rydym hefyd yn cwestiynu lefel yr amser a'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chofrestru fel endid cyfreithiol ar wahân sy'n cael ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

**305.** Os yw ysgolion yn cael eu galluogi i ddarparu'r cynnig gofal plant llawn yn uniongyrchol, mae'n bwysig nad yw hyn yn lleihau'r capasiti sydd ei angen gan y

[289] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 466]
[290] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 117]
[291] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 121]

sector nas cynhelir er mwyn gallu cynnal y cynnig dros 48 wythnos y flwyddyn ar gyfer pob teulu cymwys. Rydym yn nodi'n glir bod economi gymysg yn hanfodol er mwyn darparu hyblygrwydd a dewis i rieni o fewn y cynnig gofal plant, ac i wneud y gorau o'r amrywiaeth o leoliadau sydd ar gael yng Nghymru. O'r herwydd, ochr yn ochr â gwaith i alluogi ysgolion i gynnig y 30 awr lawn o ddarpariaeth, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y sector nas cynhelir yn cael ei annog a'i gefnogi i gynnig addysg y blynyddoedd cynnar.

**306.** Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i edrych eto ar drefniadau ar gyfer ysgolion, ac yn ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 33.** Bod Llywodraeth Cymru, ar fyrder, yn ailystyried gallu ysgolion i gyflawni'r cynnig gofal plant llawn yn uniongyrchol.

**Argymhelliad 34.** Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canfyddiadau ei adolygiad o Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 cyn dechrau Cyfnod 3, er mwyn llywio gwaith cyflwyno ac ystyried gwelliannau yr Aelodau.

## 8. 7. Cyllid cyfalaf

**307.** Mae Cyllideb Addysg Llywodraeth Cymru yn cynnwys £60 miliwn o arian cyfalaf a ddyrennir ar gyfer y cynnig gofal plant dros dair blynedd o 2018-19.

**308.** Yn ystod ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2017-18, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

> "…if we're designing facilities for the future, we need to take the Childcare Offer into consideration when designing buildings for the future. We know that one of the simplest ways in which we can make the childcare offer accessible to parents is if that can be delivered in one setting, rather than children having to move to different settings. So, we've got an allocation in our capital so that we start approving bids now for buildings that will be capable of meeting, yes, children's educational needs, but also the childcare offer."[292]

**309.** Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd y Gweinidog fod yr arian cyfalaf hwn ar gael fel grantiau i'r sector nas cynhelir yn ogystal â chymorth i'r sector a gynhelir.[293] Rhoddodd esboniad o'r dyraniad o £60 miliwn yng nghyllideb Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

[292] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10 Tachwedd 2016, Cofnod y Trafodion, [paragraff 46]
[293] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 198]

> "The £60 million is going to be used for delivery of the offer in its entirety, but it includes within that things such as alignment of the educational and the childcare aspects, the co-location of services. We've discussed the scope of this programme and the use of this money with umbrella organisations within the childcare sector, with local authorities and other stakeholders, with the stakeholder reference group, but we are clear that the funding needs to be used in a way that's flexible enough to allow for things like new infrastructure—so, where that's needed, brand-new provision—but also the expansion and modification of existing provision as well."[294]

## EIN BARN AR GYLLID CYFALAF

**310.** Rydym yn croesawu sicrwydd y Gweinidog, yng nghyd-destun economi gymysg darparwyr gofal plant, y bydd cydbwysedd rhwng cymorth cyfalaf i'r sectorau a gynhelir a'r sectorau nas cynhelir. Credwn fod hyn yn hanfodol o ran:

- cynaliadwyedd y sector nas cynhelir, yn enwedig os cytunir ar ein hargymhelliad i alluogi ysgolion i ddarparu'r cynnig gofal plant llawn o 30 awr yn uniongyrchol; a
- darparu cynnig gofal plant sy'n ddigon hygyrch a hyblyg.

**Argymhelliad 35.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng cymorth cyfalaf i'r sectorau a gynhelir a'r sectorau nas cynhelir.

## 8. 8. Gallu'r sector a'r gweithlu

**311.** Mynegodd nifer o randdeiliaid bryderon ynghylch yr heriau posibl ar gyfer y cynnig gofal plant a allai ddeillio o ddiffyg gweithwyr gofal plant a darpariaeth ddigonol.

**312.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig darparwyr gofal plant yn cyfeirio at ddiffyg gofal plant cofrestredig ag Arolygiaeth Gofal Cymru mewn sawl ardal, yn enwedig yn ystod gwyliau'r ysgol.[295] Pwysleisiodd Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru bwysigrwydd sicrhau bod gan yr Arolygiaeth ddigon o adnoddau i gofrestru'r

---

[294] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 196]

[295] Gweler tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 03 – Mudiad Meithrin, CCF 05 - Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, a CCF 06 - Cwlwm, CCF 08 – Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru

darparwyr a fyddai'n angenrheidiol i ddarparu'r cynnig gofal plant ar ôl ei gyflwyno'n llawn.[296]

**313.** Cyfeiriodd y Comisiynydd Plant at bryderon ymhlith y gweithlu gofal plant presennol yng Nghymru, a godwyd yn ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2016-17, mewn perthynas â chapasiti a chynaliadwyedd, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg. Dywedodd:

> "Analysis of the pilot phase will need to consider Welsh language provision and provision for children with additional needs, and work with providers in the sector to ensure that there is sufficient capacity to deliver the offer in the terms outlined."[297]

## Darpariaeth Gymraeg

**314.** Mae sawl rhanddeiliad, gan gynnwys Estyn,[298] y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd y Gymraeg,[299] darparwyr gofal plant,[300] a Gofal Cymdeithasol Cymru,[301] wedi codi pryderon ynghylch diffyg darpariaeth gofal plant yn y Gymraeg.

**315.** Dywedodd Estyn:

> "There is a shortage of childcare settings operating through the medium of Welsh. Parents may therefore choose to access the childcare element in an English-medium setting. They may also choose to access education in an English-medium setting to avoid the need for children to travel between sites. Estyn is concerned that this could affect the number of children taking up a place at a Welsh-medium school or setting that provides funded education. Parents may decide not to transfer to Welsh medium education at a later date."[302]

**316.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg:

---

[296] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 08 – Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru

[297] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 02 – Comisiynydd Plant Cymru

[298] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 07 – Estyn

[299] Gweler tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 02 – Comisiynydd Plant Cymru a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Llythyr a nodyn briffio gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg ynghylch darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar, a gyhoeddwyd ar 6 Rhagfyr 2017

[300] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 176]

[301] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 240]

[302] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 07 – Estyn

- mae'r cynnig gofal plant yn "gyfle euraid" i sicrhau cynnydd yn y nifer sy'n derbyn gofal plant cyfrwng Cymraeg, a allai fod yn hanfodol o ran cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;
- er gwaethaf ei bwysigrwydd, nid oes cynlluniau penodol ar sut bydd y 30 awr o gynnig gofal plant a gweledigaeth 2050 yn cael eu hintegreiddio, ac nid yw'n glir sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu symud o ymrwymiadau cyffredinol i gynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg i gamau penodol a fydd yn cael effaith ar lawr gwlad;
- mae gan Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg botensial sylweddol i droi ymrwymiadau eang a chyffredinol i gamau a thargedau penodol a materol a dylid eu defnyddio fel fframwaith ar gyfer cydlynu gweithredoedd Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a darparwyr gofal plant;
- mae'r data cyfredol ar ofal plant cyfrwng Cymraeg yng Nghymru yn dameidiog, yn anghyson ac yn anodd ei ddehongli. Er mwyn cynhyrchu strategaethau cenedlaethol a lleol effeithiol, ac i werthuso eu heffaith, mae data dilys a dibynadwy ar ofal plant yn hanfodol.[303]

**317.** Galwodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg am i'r Bil sefydlu hawl i rieni dderbyn gofal plant cyfrwng Cymraeg ledled Cymru.[304]

**318.** Cydnabu'r Gweinidog fod ardaloedd i'w cael lle mae "diffyg sylweddol o gyflenwad" gofal plant yn y Gymraeg. Ymatebodd i bryderon drwy ddweud:

> "…there's more than one way to skin this particular cat, and it doesn't require a new duty. Within the Childcare Act 2006, we've already got the requirement on local authorities to make sure that the childcare provision is flexible, sustainable and responsive to local needs. On top of that, we've got the childcare sufficiency assessments, which include, within that, the demand for and the supply of Welsh-medium childcare provision. But on top of that, what we are doing is we are putting £2 million into Mudiad Meithrin, for example, for work over two

[303] Comisiynydd y Gymraeg, Nodyn Briffio - Darpariaeth Gofal Plant ac Addysg Blynyddoedd Cynnar Cyfrwng Cymraeg, 22 Tachwedd 2017

[304] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 19 – Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

> years to establish new Welsh-medium childcare settings where there's a lack of provision."[305]

**319.** Cadarnhaodd y Gweinidog, erbyn Ebrill 2018, fod 40% o'r plant a oedd yn cymryd rhan yn y cynnig yn defnyddio gofal plant wedi ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.[306] Pan holwyd swyddogion ynghylch sut caiff data ar ddarpariaeth Gymraeg ei gasglu, eglurodd y swyddogion fod statws iaith y lleoliad wedi ei ddiffinio gan y darparwyr eu hunain o fewn pedwar categori a restrir yn Neddf Gofal Plant 2006 – cyfrwng Cymraeg, dwyieithog, cyfrwng Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog, a chyfrwng Saesneg.[307] Cadarnhaodd swyddogion y Gweinidog nad oedd y data gwerthuso ar gynlluniau peilot y cynnig gofal plant yn dadansoddi'r ffigur hwn o 40% i lefel y pedwar categori hynny ar hyn o bryd.[308]

## Darpariaeth ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol

**320.** Fe wnaeth Comisiynydd Plant Cymru,[309] Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru,[310] Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs,[311] a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru[312] dynnu sylw at yr angen i sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol fel rhan o'r cynnig gofal plant.

**321.** Cododd Clybiau Plant Cymru Kids bryderon y gallai darpariaeth arbenigol annigonol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol gyfyngu ar allu rhieni i gael mynediad at y gofal plant y mae arnynt ei angen.[313]

**322.** Pwysleisiodd Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru bwysigrwydd sicrhau bod darpariaeth gofal plant yn gallu cwrdd â gofynion Anghenion Dysgu Ychwanegol plant, gan groesawu'r ffaith bod rhieni sy'n cael mynediad at y cynnig peilot o fewn Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar yn cael eu gwahodd i roi manylion am Anghenion Dysgu Ychwanegol.[314] Yn ogystal, galwodd ar Lywodraeth Cymru i ystyried sgiliau'r gweithlu gofal plant presennol mewn

---

[305] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 44]

[306] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 50]

[307] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraffau 60 a 64]

[308] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 58]

[309] 224 Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 02 – Comisiynydd Plant Cymru

[310] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 01 – Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru

[311] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 05 – Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

[312] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 08 – Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru

[313] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 05 – Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

[314] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 01 – Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru

perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a sicrhau bod cais am ofal plant sy'n datgelu fod gan blentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael ei gyfeirio at Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar yr awdurdod lleol.[315]

**323.** Wrth ymateb i bryderon ynghylch darpariaeth ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, dywedodd y Gweinidog ei fod yn hyderus y gallai'r cynnig gofal plant ddarparu ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Eglurodd:

- o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gefnogi'r rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y blynyddoedd cynnar, a bod ganddynt swyddog arweiniol ar Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn benodol;
- byddai canllawiau ar gael ynghyd ag arian i gynorthwyo â darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn benodol;
- bydd y cymwysterau gofal plant newydd yn cynnwys llwybrau arbenigol o fewn Anghenion Dysgu Ychwanegol.[316]

## Capasiti'r gweithlu

**324.** Cododd Gofal Cymdeithasol Cymru, y corff sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r gwaith o hyfforddi a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol (gan gynnwys y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant) nifer o bryderon sylweddol am allu'r gweithlu i ddarparu'r cynnig gofal plant ar ôl ei gyflwyno'n llawn. Dywedodd:

- nid oes digon o gapasiti yn y system gofal plant yng Nghymru;
- nid oes digon o leoedd ar gael i bob plentyn cymwys allu cael gofal plant llawn amser;
- byddai angen 21,000 o leoedd ychwanegol cyfwerth ag amser llawn i ateb y galw petai nifer disgwyliedig y rhieni sydd â phlant cymwys yn manteisio ar y cynnig;
- byddai angen 2,637 o weithwyr ychwanegol ledled Cymru i gyflwyno'r cynllun yn llawn erbyn 2020, yn seiliedig ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ar gyfer plant hyd at 12 oed;

[315] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 01 - Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru

[316] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [Paragraff 70]

- nid oes cyflenwad dros ben o staff cymwys yn aros i ymuno â'r sector;
- er mwyn cwrdd â'r diffyg posibl, byddai angen cynnydd o 700% yn nifer y prentisiaethau gofal plant sy'n cael eu recriwtio a'u cwblhau dros y ddwy flynedd nesaf, ond nid oes unrhyw arwydd bod gan ddarparwyr dysgu y capasiti i gyflawni'r lefel hon o gynnydd;
- yn seiliedig ar gost prentisiaeth Lefel 3 yng Nghymru, byddai angen ychwanegu tua £11.3 miliwn at gynlluniau gweithlu ac addysg yn y dyfodol; ac
- fel arall, gallai colegau gynnig 1,100 o leoedd ychwanegol (cynnydd o 38% y flwyddyn) rhwng derbyniadau 2018-2020 a 2019-2021, ond ni fyddai staff cymwys ychwanegol ar gael tan haf 2021. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod gan golegau y gallu ychwanegol i ateb y galw hwn.[317]

**325.** Wrth ymateb i'r pryderon ynghylch capasiti'r gweithlu, dywedodd y Gweinidog ei fod yn hyderus y bydd digon o weithlu gofal plant ar waith i ddarparu'r cynnig llawn erbyn 2020.[318] Dywedodd:

> "We're not waiting for the pilots to get on with that, because we've already identified, based on our modelling, what the potential full take-up of this could be, and where, also, those gaps in workforce provision would be as well across the piece."[319]

**326.** Fodd bynnag, roedd y Gweinidog yn cydnabod bod angen cyflymu'r gwaith, y byddai'r dasg yn heriol, a bod:

> "…the ambition of this for a full roll-out by 2020 is taxing us. We know the scale of this, but we're putting the things in place now in order to deliver it, and working with the agencies out there to do."[320]

## EIN BARN AR Y SECTOR A CHAPASITI'R GWEITHLU

**327.** Mae gennym bryderon sylweddol ynghylch capasiti'r sector a'i weithlu i ddiwallu'r galw posibl sy'n deillio o gyflwyno'r cynnig gofal plant yn genedlaethol. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n amlinellu'r

[317] Tystiolaeth ysgrifenedig, CCF 14 – Gofal Cymdeithasol Cymru

[318] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraffau 252-253]

[319] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 241]

[320] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2018, Cofnod y Trafodion [paragraff 253]

her sydd ar y gweill yn drawiadol. Nid ydym wedi ein darbwyllo bod cynlluniau digonol ar waith i fynd i'r afael â graddfa'r bwlch presennol a chynnal ansawdd y gofal sydd ei angen. Rydym yn pryderu, er mwyn darparu'r gofal o ansawdd uchel sydd ei angen, bod angen gwneud mwy i wella'r strwythur gwobrwyo ar gyfer y sector a sicrhau bod digon o amser ar gael i gyrraedd y lefelau cymhwystra angenrheidiol.

**328.** Rydym hefyd yn bryderus clywed pryderon y sector am ei allu i ymdopi â'r cyfnodau prysur o alw a fydd yn digwydd yn ystod gwyliau'r ysgol pan na fydd elfen addysg blynyddoedd cynnar y cynnig gofal plant ar gael.

**329.** Rydym yn pryderu ymhellach fod yr hyn a ddisgrifiwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg fel "cyfle euraid" i alinio amcanion y cynnig gofal plant gyda strategaeth Cymraeg 2050 yn cael ei golli. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i roi sylw i bryderon Comisiynydd y Gymraeg ac eraill nad oes darpariaeth ddigonol ar waith, nid yn unig o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ond o ran normaleiddio sgiliau Cymraeg ar draws y sector. Heb welliannau i ddata, ni allwn fod yn siŵr faint o blant sy'n cael mynediad at ofal plant yn Gymraeg, ac mae gwaith cynllunio yn cael ei gynnal ar sail dyfaliadau gorau. Nid yw hyn yn ddigon da os ydym am gyrraedd y targed o un miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**330.** Rydym yn ymwybodol bod Atodlen 2 o Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol bod Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys "datganiad yn nodi'r dulliau i'w defnyddio gan yr awdurdod lleol i asesu'r galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal". Fodd bynnag, nid yw'n glir bod datganiadau o'r fath wedi cyflawni camau pendant hyd yn hyn.

**Argymhelliad 36.** Bod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn fanwl i gyfrifiadau Gofal Cymdeithasol Cymru o ddiffyg yn y gweithlu fel y manylir ym mharagraff 324 yr adroddiad hwn. Dylid darparu'r ymateb hwn cyn y ddadl Cyfnod 1, er mwyn llywio ystyriaethau'r Aelodau ynghylch y graddau y bydd pwrpas datganedig y Bil o annog rhagor o bobl yn ôl i'r gwaith yn cael ei effeithio os nad oes gan y sector y capasiti i ddarparu gofal plant i bob teulu cymwys.

**Argymhelliad 37.** Bod Llywodraeth Cymru, yn unol ag argymhellion Comisiynydd y Gymraeg, yn gweithio i integreiddio'r cynnig gofal plant gyda strategaeth Cymraeg 2050, yn defnyddio Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i bennu targedau mewn perthynas â darpariaeth gofal plant Cymraeg, a diwygio'r ffordd o gasglu a rhannu data gofal plant i sicrhau bod yr holl gynllunio yn seiliedig ar wybodaeth ddibynadwy.

# Atodiad A – Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Mae'r bobl a'r sefydliadau a ganlyn wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Sefydliad | Cyfeirnod |
|---|---|
| Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru | CCF 01 |
| Comisiynydd Plant Cymru | CCF 02 |
| Mudiad Meithrin | CCF 03 |
| PACEY Cymru | CCF 04 |
| Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs | CCF 05 |
| Cwlwm | CCF 06 |
| Estyn | CCF 07 |
| Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru | CCF 08 |
| Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi | CCF 09 |
| UNSAIN | CCF 10 |
| Chwarae Teg | CCF 11 |
| Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru) | CCF 12 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | CCF 13 |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | CCF 14 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | CCF 15 |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | CCF 16 |
| Achub y Plant | CCF 17 |
| NASUWT | CCF 18 |
| Cymdeithas yr Iaith Gymraeg | CCF 19 |
| Oxfam Cymru | CCF 20 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru | CCF 21 |

## Gwybodaeth ychwanegol a gafwyd

| Sefydliad | Cyfeirnod |
|---|---|
| Llythyr gan y Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol | FI CCF 01 |
| Llywodraeth Cymru | FI CCF 02 |
| Cwlwm | FI CCF 03 |
| Estyn | FI CCF 04 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | FI CCF 05 |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | FI CCF 06 |
| Llythyr gan y Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol | FI CCF 07 |
| Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi | FI CCF 08 |

# Atodiad B – Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Darparodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| 16 Mai 2018 | Huw Irranca-Davies AC, Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol<br>Owain Lloyd, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru<br>Tracy Hull, Cyfreithwraig, Tîm Gofal Plant, Llywodraeth Cymru<br>Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru<br>Rachel Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Swyddfa Comisiynydd Cymru |
| 24 Mai 2018 | Sandra Welsby, Rheolwr Cenedlaethol, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru ac yn cynrychioli Cwlwm<br>Jane O'Toole, Prif Weithredwr, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ac yn cynrychioli Cwlwm<br>Claire Protheroe, Rheolwr Gwasanaethau Uniongyrchol, PACEY Cymru ac yn cynrychioli Cwlwm<br>Angharad Starr, Rheolwr Prosiect, Mudiad Meithrin ac yn cynrychioli Cwlwm<br>Jane Alexander, Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru ac yn cynrychioli Cwlwm<br>Cerys Furlong, Prif Weithredwr, Chwarae Teg<br>Phil Mattacks, Tîm Dylunio, Ymgysylltu a Gweithredu Gofal Plant Di-dreth, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| 6 Mehefin 2018 | Claire Morgan, Cyfarwyddwr Strategol, Estyn<br><br>Mererid Wyn Williams, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Estyn<br><br>Jane Rees, Arolygydd Ei Mawrhydi, Estyn<br><br>Gemma Halliday, Rheolwr Datblygu'r Gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru<br><br>Kevin Barker, Pennaeth Arolygu Gofal Plant a Chwarae, Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Gill Huws-John, Uwch-reolwr, Arolygu Gofal Plant a Chwarae, Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Esther Thomas, Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yn cynrychioli Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br><br>Catrin Edwards, Pennaeth Trawsnewid Gwasanaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yn cynrychioli Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br><br>Catherine Davies, Swyddog Polisi Dysgu Gydol Oes (Plant), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymr0<br><br>Sarah Mutch, Arweinydd Addysg ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaethau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac yn cynrychioli Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| 14 Mehefin | Huw Irranca-Davies AC, Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol<br><br>Owain Lloyd, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru<br><br>Nicola Edwards, Pennaeth Datblygu'r Cynnig Gofal Plant, Llywodraeth Cymru |

# Atodiad C – Nifer yr oriau o addysg blynyddoedd cynnar

| Awdurdod Lleol | Nifer yr oriau o addysg blynyddoedd cynnar a dalwyd yr wythnos[321] |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 12.5 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | N1[322]: 10(nas cynhelir); 10-15 (a gynhelir)<br>N2[323]: 10 (); 30 (a gynhelir) |
| Caerffili | 10 |
| Caerdydd | 7.5 awr (3 x 2.5 awr) i 12.5 awr (5 x 2.5 awr) |
| Sir Gaerfyrddin | 10 |
| Ceredigion | 10 |
| Conwy | 10 |
| Sir Ddinbych | 10 |
| Sir y Fflint | 10 |
| Gwynedd | 10 |
| Ynys Môn | 10 |
| Merthyr Tudful | 12.5 |
| Sir Fynwy | 10 |
| Castell-nedd Port Talbot | 12.5 |
| Casnewydd | 10 – 12.5 |
| Sir Benfro | 10 |
| Powys | 12.5 |
| Rhondda Cynon Taf | 15 |
| Abertawe | 10 (lleoliadau a gynhelir) |
| Torfaen | 10 (nas cynhelir); 12.5 (a gynhelir) |
| Bro Morgannwg | 12.5 |
| Wrecsam | N1: 10; N2: 12.5 |

[321] Fel y'i cyflwynwyd ar 25 Mehefin 2018 - Gwybodaeth ysgrifenedig, FI CCF 05 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

[322] Mae N1 yn cyfeirio at y “plant 3 oed ar eu prifiant”, sef term a ddefnyddir i ddisgrifio'r garfan sy'n mynd i addysg y blynyddoedd cynnar yn y tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd

[323] Mae N2 yn cyfeirio at y flwyddyn ysgol pan fydd y plant yn bedair oed - y flwyddyn lawn cyn mynd i'r dosbarth Derbyn